# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mercher, 13 Mehefin 2007**
**Wednesday, 13 June 2007**

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig
Questions to the Minister for Sustainability and Rural Development

31 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Questions to the Minister for Education, Culture and Welsh Language

56 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 36
Motion under Standing Order No. 36

57 Dadl Plaid Cymru: Morâl yn y GIG
Plaid Cymru Debate: Morale in the NHS

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 12.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 12.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig
## Questions to the Minister for Sustainability and Rural Development

### Energy Policy

**Q1 David Melding:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for energy policy in the next Assembly term? OAQ(3)0049(SRD)

**The Minister for Sustainability and Rural Development (Jane Davidson):** The priorities for Welsh energy policy are based on the environmental, social and economic principles of sustainable development and the pressing need to address climate change. As Minister with responsibility for energy, I will be taking a close interest in all forms of clean energy production on small and large scales.

**David Melding:** You will find consensus across the Chamber on the need to move towards the greater use of renewables, which is important. However, we should also remember that key to an effective energy policy that sustains the environment responsibly is greater energy efficiency. In the public sector, which we vastly control, improving the use of energy in the production of services is important, as is encouraging, through various mechanisms, the private sector and households to use energy responsibly. There is a great saving to be made to the environment and to individuals' and companies' pockets.

**Jane Davidson:** Your point is important. Many people think that climate change is a discussion that happens at a senior level, by those who are involved in G8 meetings perhaps or by national governments. We need to work with people so that they understand that they can take real measures on energy efficiency. Certainly in my time as Minister, I will want to ally the personal and particular with the major statements. Organisations such as the Carbon Trust, which we fund to

### Polisi Ynni

**C1 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer polisi ynni yn ystod tymor nesaf y Cynulliad? OAQ(3)0049(SRD)

**Y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig (Jane Davidson):** Mae'r blaenoriaethau ar gyfer polisi ynni Cymru wedi'u seilio ar egwyddorion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd datblygu cynaliadwy a'r angen enbyd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am ynni, byddaf yn cymryd diddordeb mawr ym mhob ffordd lân o gynhyrchu ynni, ar raddfa fach a mawr.

**David Melding:** Byddwch yn gweld consensws ar draws y Siambr ynglŷn â'r angen i symud tuag at ddefnyddio mwy ar ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, dylem gofio hefyd mai un ffactor allweddol mewn polisi ynni effeithiol sy'n cynnal yr amgylchedd yn gyfrifol yw mwy o effeithlonrwydd ynni. Yn y sector cyhoeddus, yr ydym ni'n ei reoli i raddau helaeth, mae gwella defnyddio ynni wrth gynhyrchu gwasanaethau yn bwysig, fel y mae annog, drwy wahanol fecanweithiau, y sector preifat ac aelwydydd i ddefnyddio ynni'n gyfrifol. Mae arbedion mawr i gael eu gwneud i'r amgylchedd ac i bocedi unigolion a chwmnïau.

**Jane Davidson:** Mae eich pwynt yn bwysig. Mae llawer o bobl yn credu mai trafodaeth sy'n digwydd ar lefel uchel, gan y rhai sy'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd yr G8 efallai, neu gan lywodraethau cenedlaethol, yw newid yn yr hinsawdd. Mae angen inni weithio gyda phobl er mwyn iddynt ddeall y gallant gymryd camau gwirioneddol o ran effeithlonrwydd ynni. Yn sicr, yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog byddaf am gydgysylltu'r personol a'r neilltuol â'r

support business and energy efficiency and the reduction of carbon emissions, will be crucial, alongside the Energy Saving Trust, which works in the domestic sector.

datganiadau mawr. Bydd cyrff fel yr Ymddiriedolaeth Garbon, yr ydym yn ei chyllido er mwyn cefnogi busnesau ac effeithlonrwydd ynni a lleihau gollyngiadau carbon, yn holl bwysig, ochr yn ochr â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, sy'n gweithio yn y sector domestig.

**Chris Franks:** What assessment have you made of the recently unveiled plans for a waste incinerator in Cardiff?

**Chris Franks:** Pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o'r cynlluniau a ddadorchuddiwyd yn ddiweddar am losgydd gwastraff yng Nghaerdydd?

**Jane Davidson:** I am happy to write to you on the work of my officials regarding any specific projects. However, the overarching message from the Assembly Government is that any new propositions need to ensure that they fit into an agenda of being as clean as possible and produce the lowest possible carbon emissions.

**Jane Davidson:** Yr wyf yn hapus i ysgrifennu atoch am waith fy swyddogion ynglŷn ag unrhyw brosiectau penodol. Fodd bynnag, y neges gyffredinol o du Llywodraeth y Cynulliad yw bod gofyn i unrhyw gynigion newydd sicrhau eu bod yn gweddu i agenda o fod cyn laned â phosibl ac yn cynhyrchu cyn lleied â phosibl o ollyngiadau carbon.

**Renewable Energy Targets**

**Targedau Ynni Adnewyddadwy**

**Q2 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on renewable energy targets in Wales? OAQ(3)0038(SRD)

**C2 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dargedau ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(3)0038(SRD)

**Q4 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** What is the Minister doing to encourage Welsh developers to invest in large-scale renewable energy projects? OAQ(3)0022(SRD)

**C4 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i annog datblygwyr yng Nghymru i fuddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr? OAQ(3)0022(SRD)

**Q12 Janice Gregory:** Will the Minister make a statement on 'Technical Advice Note 8: Planning for Renewable Energy', specifically relating to strategic search area F? OAQ(3)0033(SRD)

**C12 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am 'Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy', yng nghyswllt ardal chwilio strategol F yn benodol? OAQ(3)0033(SRD)

**Jane Davidson:** Our renewable targets for electricity generation are 4 TWh and 7 TWh per annum by 2010 and 2020 respectively. In addition, in the Wales microgeneration action plan, we have a target of installing 200,000 heat and 100,000 electricity microgeneration units, and 50 combined heat and power district heating projects by 2020.

**Jane Davidson:** Ein targedau adnewyddadwy o ran cynhyrchu trydan yw 4 TWh a 7 TWh y flwyddyn erbyn 2010 a 2020 yn y drefn honno. Hefyd, yng nghynllun gweithredu Cymru ar ficrogynhgyrchu, mae gennym darged i osod 200,000 o unedau microgynhyrchu gwres a 100,000 o unedau microgynhyrchu trydan, a 50 o brosiectau gwresogi ardaloedd gwres a phŵer cyfunol erbyn 2020.

**Mark Isherwood:** The register of interests in the last Assembly recorded that you were—

**Mark Isherwood:** Yr oedd y gofrestr buddiannau yn y Cynulliad diwethaf yn

then at least—vice-president of the Ramblers' Association in Wales, and so I presume that you agree with its policies. As you will be aware, the Ramblers' Association states that it wants the Government to change its policies so that power companies are encouraged to invest in a range of different technologies, and that it simply becomes unnecessary to focus—using its words—only on large-scale wind turbine construction. Now that you are Minister for Sustainability and Rural Development, what action will you take to review technical advice note 8 on renewable energy accordingly?

cofnodi eich bod chi—bryd hynny o leiaf—yn is-lywydd Cymdeithas y Cerddwyr yng Nghymru, ac yr wyf yn cymryd, felly, eich bod yn cytuno â'i pholisïau. Fel y gwyddoch, mae Cymdeithas y Cerddwyr yn dweud ei bod am i'r Llywodraeth newid ei pholisïau er mwyn i gwmnïau pŵer gael eu hannog i fuddsoddi mewn ystod o wahanol dechnolegau, ac na fydd angen canolbwyntio—i ddefnyddio'i geiriau hi—ar ddim ond codi tyrbinau gwynt ar raddfa fawr. A chithau bellach yn Weinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig, pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i adolygu nodyn cyngor technegol 8 ar ynni adnewyddadwy yn unol â hynny?

**Jane Davidson:** The important point on technical advice note 8, which is not just about large-scale windfarms, but about renewable energy, is that the technology currently available is most developed in the field of onshore windfarms and biomass. That is the position. As other renewable technologies get better, we will want to look at whether we can incorporate them into the mix. However, our critical commitment at the Assembly must be to stand up for renewable energy, because that will bring down our greenhouse gas emissions.

**Jane Davidson:** Y pwynt pwysig ynglŷn â nodyn cyngor technegol 8—ac nid â ffermydd gwynt ar raddfa fawr yn unig y mae'n ymdrin, ond ag ynni adnewyddadwy—yw bod y dechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd wedi datblygu fwyaf ym maes ffermydd gwynt ar y tir a biomas. Wrth i dechnolegau adnewyddadwy eraill wella, byddwn am ystyried a oes modd inni eu hymgorffori yn y gymysgedd. Fodd bynnag, ein hymrwymiad tyngedfennol yn y Cynulliad o reidrwydd yw sefyll dros ynni adnewyddadwy, oherwydd bydd hynny'n lleihau ein gollyngiadau nwyon tŷ gwydr.

**Michael German:** You will recall that we had a discussion in the last Assembly about microgeneration in the home, and about people bypassing some of the red tape and planning regulations that get in the way of people incorporating renewable energy into their homes. What progress will you make to ensure that that cross-party commitment made in the last Assembly can be acted on through changes to planning legislation?

**Michael German:** Chwi gofiwch inni gael trafodaeth yn y Cynulliad diwethaf am ficrogynhyrchu yn y cartref, ac am gael pobl i osgoi rhywfaint o'r tâp coch a'r rheoliadau cynllunio sy'n rhwystro pobl rhag ymgorffori ynni adnewyddadwy yn eu cartrefi. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i sicrhau bod modd gweithredu ar yr ymrwymiad trawsbleidiol hwnnw a wnaethpwyd yn y Cynulliad diwethaf, drwy newidiadau yn y ddeddfwriaeth gynllunio?

**Jane Davidson:** That is a request that I submitted on day 1 of my acquiring this new portfolio. We have to make microgeneration more accessible.

**Jane Davidson:** Mae hwnnw'n gais a gyflwynais ar y diwrnod cyntaf y daeth y portffolio newydd hwn imi. Rhaid inni wneud microgynhyrchu yn fwy hygyrch.

**Janice Gregory:** The villages of Gilfach Goch and Evanstown in my constituency face the prospect of being surrounded by up to seven windfarm developments. Although I am broadly supportive of wind energy, and we all understand that we are responsible for

**Janice Gregory:** Mae pentrefi'r Gilfach-goch ac Evanstown yn fy etholaeth i yn wynebu'r posibilrwydd o gael eu hamgylchynu gan hyd at saith o ddatblygiadau ffermydd gwynt. Er fy mod yn cefnogi ynni gwynt yn gyffredinol, ac er ein

the future of our planet, I am sure that you will agree that this is too great a burden for any one community or section of a community to bear. It is for that reason that I have always believed that TAN 8 is fundamentally flawed. You may also be aware that Rhondda Cynon Taf County Borough Council, along with Bridgend and Neath Port Talbot county borough councils, commissioned Arup to carry out a more detailed mapping and landscaping assessment of strategic search area F. The study identified zones that represent a far smaller area in the Rhondda Cynon Taf county borough than was covered by strategic search area F in TAN 8. Under the new proposals, there would be only one windfarm in the Gilfach Goch and Evanstown area if they were placed within the new zones.

bod i gyd yn deall ein bod yn gyfrifol am ddyfodol ein planed, yr wyf yn siŵr y cytunwch fod hyn yn ormod o faich i unrhyw gymuned neu ran o gymuned ei ysgwyddo. Am y rheswm hwnnw yr wyf wedi credu erioed fod TAN 8 yn sylfaenol ddiffygiol. Efallai eich bod yn ymwybodol hefyd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ynghyd â chynghorau bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, wedi comisiynu Arup i wneud asesiad mapio a thirweddu manylach o ardal chwilio strategol F. Nododd yr astudiaeth barthau sy'n cynrychioli arwynebedd llawer llai ym mwrdeistref sirol Rhondda Cynon Taf nag a gwmpaswyd gan ardal chwilio strategol F yn TAN 8. Dan y cynigion newydd, ni fyddai ond un fferm wynt yn ardal y Gilfach-goch ac Evanstown pe caent eu rhoi yn y parthau newydd.

Do you agree, Minister, that we should welcome the refinement of the search areas and, reflecting on the level of opposition to the developments, do you also agree that local communities should be far more involved and should be consulted with regard to proposals for energy generation schemes such as windfarm developments? In Gilfach and Evanstown, a recent petition circulated by the local Member of Parliament, Huw Irranca-Davies, and me in those areas managed to get 700 signatures from people opposing the seven proposals, and that within a short period of time.

A ydych yn cytuno, Weinidog, y dylem groesawu'r mireinio ar yr ardaloedd chwilio, a chan adlewyrchu lefel y gwrthwynebiad i'r datblygiadau, a ydych yn cytuno hefyd y dylid rhoi llawer mwy o lais i gymunedau lleol, ac y dylid ymgynghori â hwy ynglŷn â chynigion ar gyfer cynlluniau cynhyrchu trydan megis datblygiadau ffermydd gwynt? Yn y Gilfach ac Evanstown, llwyddodd deiseb a gylchredwyd yn ddiweddar gan yr Aelod Seneddol lleol, Huw Irranca-Davies, a minnau yn yr ardaloedd hynny i gael 700 o lofnodion gan bobl a oedd yn gwrthwynebu'r saith cynnig, a hynny o fewn cyfnod byr.

**Jane Davidson:** TAN 8 is the overarching guidance from the Assembly Government, and must be taken into account by local planning authorities in the preparation of local development plans. It may also be material to decisions on individual planning applications. The local planning authorities are indeed best placed to assess detailed locational requirements relating to the particular strategic search areas in light of local circumstances. We both know that Rhondda Cynon Taf has done this in refining the strategic search area.

**Jane Davidson:** TAN 8 yw'r canllawiau cyffredinol gan Lywodraeth y Cynulliad, a rhaid i awdurdodau cynllunio lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol. Gall hefyd fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio lleol. Yr awdurdodau cynllunio lleol sydd yn wir yn y sefyllfa orau i asesu'r gofynion lleoli manwl o safbwynt yr ardaloedd chwilio strategol neilltuol yng ngoleuni amgylchiadau lleol. Gwyddom ein dau fod Rhondda Cynon Taf wedi gwneud hyn wrth fireinio'r ardal chwilio strategol.

It is important that local communities are involved. I was informed by Friends of the Earth during a briefing on another matter that there are some 18,000 wind turbines in Germany. We have a long way to go to

Mae'n bwysig i gymunedau lleol gael llais. Dywedwyd wrthyf gan Gyfeillion y Ddaear yn ystod sesiwn friffio ar fater arall fod rhyw 18,000 o dyrbinau gwynt yn yr Almaen. Mae gennym ffordd bell i fynd i wireddu ynni

deliver on renewable energy in Wales and elsewhere. However, we have to get community buy-in to the principle of renewable energy. That is why I feel that part of my job as Minister is to bring it down from the high level and show that we all have a part to play in energy efficiency and renewables. I invite all parties to buy-in to this agenda—not just with rhetoric, but with actions.

adnewyddadwy yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Fodd bynnag, rhaid inni gael cymunedau i ymrwymo i egwyddor ynni adnewyddadwy. Dyna pam yr wyf yn teimlo mai rhan o'm swydd fel Gweinidog yw tynnu ynni adnewyddadwy i lawr o'r lefel uchel a dangos bod gennym bob un ran i'w chwarae mewn effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Gwahoddaf bob plaid i ymrwymo i'r agenda hon—nid gyda rhethreg yn unig, ond gyda gweithredoedd.

**Alun Ffred Jones:** Yr ydym newydd glywed Janice Gregory yn sôn am '*refinement*' ardaloedd TAN 8, ond mewn gwirionedd lleihau'r ardaloedd yw ystyr hynny. A fyddwch chi'n cyrraedd y targed ynni adnewyddadwy yr ydych wedi'i osod erbyn 2010? A ydych yn barod i ailedrych ar TAN 8 yn ei gyfanrwydd er mwyn cyrraedd y targed, gan gofio problemau'r sefyllfa bresennol?

**Alun Ffred Jones:** We have just heard Janice Gregory speak of the refinement of the TAN 8 areas, but what that really means is making those areas smaller. Will you meet the renewable energy target which you have set by 2010? Are you prepared to review TAN 8 in its entirety in order to meet that target, bearing in mind the problems with the current system?

**Jane Davidson:** As I said in answer to the previous question, it does not seem to me that we can review TAN 8 at this point. Some 1,700 people were involved in the discussions on TAN 8 before it was published. It was published only in 2005, and it contributed to our setting renewable targets from the Assembly. It was based on what the technology will allow to happen quickly, because, in relation to climate change, we have to be prepared to do those things that can be done quickly. However, the Assembly Government will want to look at all sources of renewable energy to take this agenda forward and to achieve our targets. I would be very happy to review TAN 8 in the context of further sources of energy becoming available, and of their being commercially and environmentally feasible. As that happens, we will be able to review TAN 8. However, reviewing TAN 8 simply because of its clear agenda of ensuring that Wales plays its part in renewables is not appropriate at this time.

**Jane Davidson:** Fel y dywedais wrth ateb y cwestiwn blaenorol, nid yw'n ymddangos i mi y gallwn adolygu TAN 8 ar hyn o bryd. Cyfrannodd rhyw 1,700 o bobl at y trafodaethau am TAN 8 cyn iddo gael ei gyhoeddi. Dim ond yn 2005 y cafodd ei gyhoeddi, a chyfrannodd at y gwaith o osod targedau adnewyddadwy o'r Cynulliad. Fe'i seiliwyd ar yr hyn y bydd y dechnoleg yn caniatáu iddo ddigwydd yn gyflym, oherwydd, o ran newid yn yr hinsawdd, rhaid inni fod yn barod i wneud y pethau hynny y mae modd eu gwneud yn gyflym. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth y Cynulliad am edrych ar bob ffynhonnell ynni adnewyddadwy i symud yr agenda hon ymlaen a chyrraedd ein targedau. Byddwn yn hapus iawn i adolygu TAN 8 yn y cyd-destun bod ffynonellau ynni pellach yn dod ar gael, a'u bod yn ymarferol yn fasnachol ac yn amgylcheddol. Wrth i hynny ddigwydd, bydd modd inni adolygu TAN 8. Fodd bynnag, nid yw adolygu TAN 8 oherwydd ei agenda glir o sicrhau bod Cymru'n chwarae ei rhan yn darparu ynni adnewyddadwy yn briodol ar hyn o bryd.

12.40 p.m.

**Lesley Griffiths:** You may know that there is a current proposal to redevelop a large part of the Racecourse stadium in my constituency

**Lesley Griffiths:** Efallai eich bod yn gwybod bod cynnig ar hyn o bryd i ailddatblygu rhan fawr o stadiwm y Cae Ras yn fy etholaeth i

of Wrexham. Are you aware of the use of photovoltaic cells in football stadiums, particularly in Germany and at the Emirates stadium in London? Would you support the idea in relation to the Racecourse stadium, particularly in view of the European production of PVCs at Sharp UK in Wrexham?

yn Wrecsam. A ydych yn ymwybodol fod celloedd ffotofoltaidd yn cael eu defnyddio mewn stadia pêl-droed, yn arbennig yn yr Almaen ac yn y stadiwm Emirates yn Llundain? A fyddech yn cefnogi'r syniad mewn perthynas â stadiwm y Cae Ras, yn enwedig o gofio bod PVCs yn cael eu cynhyrchu'n Ewropeaidd gan Sharp UK yn Wrecsam?

**Jane Davidson:** I am looking forward to visiting Sharp UK in Wrexham to see its work on photovoltaic cells, because it is another exciting proposition. We need to get the right mix from a range of energy sources, so I will be interested to see how that develops.

**Jane Davidson:** Yr wyf yn edrych ymlaen at ymweld â Sharp UK yn Wrecsam i weld ei waith ar gelloedd ffotofoltaidd, oherwydd mae'n fenter gyffrous arall. Mae angen inni cael y gymysgedd iawn o amryw o ffynonellau ynni, felly, bydd yn ddiddorol imi weld sut bydd hynny'n datblygu.

**Mohammad Asghar:** Does the Minister agree with the former Minister for Enterprise, Innovation and Networks that the proposed barrage would improve biodiversity in the Severn?

**Mohammad Asghar:** A yw'r Gweinidog yn cytuno â'r Gweinidog blaenorol dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau y byddai'r morglawdd arfaethedig yn gwella bioamrywiaeth yn afon Hafren?

**Jane Davidson:** I spent seven years saying that I was an evidence-based Minister for education and I intend to bring that element over strongly to my new portfolio. As outlined by Rhodri Morgan in his questions yesterday, the Sustainable Development Commission is currently undertaking work on tidal power and on its implications for the opportunities that we have with the Severn. I will want to hear its report and discuss it with the commission. I understand that the report will be available in the autumn, and we can all then consider the way forward on that basis. That is why I intend to introduce an energy route-map in the autumn that focuses particularly on renewable energy issues.

**Jane Davidson:** Treuliais saith mlynedd yn dweud fy mod yn Weinidog dros addysg ar sail tystiolaeth, a bwriadaf gario'r elfen honno drosodd yn gryf i'm portffolio newydd. Fel yr amlinellwyd gan Rhodri Morgan yn ei gwestiynau ddoe, mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wrthi ar hyn o bryd yn gwneud gwaith ar bŵer y llanw ac ar ei oblygiadau i'r cyfleoedd sydd gennym o safbwynt afon Hafren. Byddaf am glywed ei adroddiad a'i drafod gyda'r comisiwn. Deallaf y bydd yr adroddiad ar gael yn yr hydref, ac wedyn gallwn i gyd ystyried y ffordd ymlaen ar y sail honno. Dyna pam yr wyf yn bwriadu cyflwyno map llwybr ynni yn yr hydref sy'n canolbwyntio'n arbennig ar faterion ynni adnewyddadwy.

**Angela Burns:** I wholly agree with the Minister on the need for large-scale renewable energy projects. However, these large-scale projects have an enormous impact on the people living in the surrounding areas, and many protest groups are already forming to oppose large-scale wind turbine farms and even against the Blackbridge project in my constituency. Given this Labour Government's experience in persuading the public that its plans for local hospitals were sound, how does the Minister plan to persuade and convince the people living in

**Angela Burns:** Cytunaf yn llwyr â'r Gweinidog fod angen prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr. Fodd bynnag, mae'r prosiectau hyn ar raddfa fawr yn cael effaith enfawr ar y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd cyfagos, ac mae nifer o grwpiau protest eisoes yn cael eu sefydlu i wrthwynebu ffermydd tyrbinau gwynt ar raddfa fawr, a hyd yn oed yn erbyn prosiect Blackbridge yn fy etholaeth i. O gofio profiad y Llywodraeth Lafur hon yn perswadio'r cyhoedd bod ei chynlluniau ar gyfer ysbytai lleol yn rhai cadarn, sut mae'r Gweinidog yn

these surrounding areas that a wind turbine, for example, is a positive step forward for their community?

bwriadu perswadio ac argyhoeddi'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd cyfagos hyn fod tyrbin gwynt, er enghraifft, yn gam positif ymlaen i'w cymuned?

**Jane Davidson:** Your suggestion, therefore, is that your party is not in any way signed up to the renewable energy agenda. When we know that the technology available for utilisation now is in relation to wind turbines and biomass, and when I have already given you this Government's commitment that it will look at all sorts of other renewables, you are saying that the Conservative Party is not prepared to support the renewable energy agenda, because it is difficult. This Assembly must embrace the renewable energy agenda, because it is right. [*Interruption*.]

**Jane Davidson:** Eich awgrym, felly, yw nad yw eich plaid wedi ymrwymo o gwbl i'r agenda ynni adnewyddadwy. A ninnau'n gwybod bod y dechnoleg sydd ar gael i'w defnyddio'n awr yn ymwneud â thyrbinau gwynt a biomas, a'm bod i eisoes wedi rhoi ymrwymiad y Llywodraeth hon ichi y byddwn yn edrych ar bob math o ffynonellau adnewyddadwy eraill, yr ydych yn dweud nad yw'r Blaid Geidwadol yn barod i gefnogi'r agenda ynni adnewyddadwy, am ei bod yn anodd. Rhaid i'r Cynulliad hwn groesawu'r agenda ynni adnewyddadwy, gan ei bod yn iawn. [*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order. I want to hear the Minister's replies.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf am glywed atebion y Gweinidog.

**Mick Bates:** I was pleased to hear you reiterate your Government's commitment to the 4 TWh target. The committee's report states that it would see this target made up of roughly equal parts of onshore, offshore wind and other renewable resources. Currently, the Welsh branch of the British Wind Energy Association says that there is absolutely no chance of meeting that target using onshore wind, because of the delay in so many applications.

**Mick Bates:** Yr oeddwn yn falch o'ch clywed yn ailadrodd ymrwymiad eich Llywodraeth i'r targed 4 TWh. Dywed adroddiad y pwyllgor mai rhannau cyfartal yn fras o wynt ar y tir, ar y môr a ffynonellau adnewyddadwy eraill fyddai'n cyfrannu at y targed hwn yn ei farn ef. Ar hyn o bryd, dywed cangen Cymru o Gymdeithas Ynni Gwynt Prydain nad oes gobaith o gwbl o gyrraedd y targed hwnnw drwy ddefnyddio gwynt ar y tir, oherwydd yr oedi gyda chynifer o geisiadau.

Great hope was placed in an offshore windfarm in Liverpool bay called Gwynt y Môr. The recent opposition to Gwynt y Môr put to the First Minister resulted in his saying that he would hold a public inquiry into the situation. Do you hold the same view as your First Minister that the Gwynt y Môr offshore windfarm should be subject to a public inquiry?

Yr oedd ffydd mawr mewn fferm wynt ar y môr ym mae Lerpwl o'r enw Gwynt y Môr. Canlyniad y gwrthwynebiad yn ddiweddar i Wynt y Môr a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog oedd iddo ddweud y byddai'n cynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r sefyllfa. A ydych chi o'r un farn â'r Prif Weinidog y dylai fferm wynt Gwynt y Môr fod yn destun ymchwiliad cyhoeddus?

**Jane Davidson:** I do, because we should have a proper planning process that communities can buy in to and know that they can get their views heard and properly assessed. We have called for Gwynt y Môr to go to a public inquiry, and that seems to be the appropriate thing to do. If we are to get people to buy in to the renewable agenda—and we have to start in the Chamber before

**Jane Davidson:** Ydwyf, oherwydd dylai fod gennym broses gynllunio briodol y gall cymunedau ymrwymo iddi gan wybod y caiff eu barn ei chlywed a'i hasesu'n briodol. Yr ydym wedi galw ar Gwynt y Môr i fynd i ymchwiliad cyhoeddus, ac mae'n ymddangos mai dyna'r peth priodol i'w wneud. Os ydym i gael pobl i ymrwymo i'r agenda adnewyddadwy—a rhaid inni ddechrau yn y

we go outside it—we have to ensure that people understand the opportunities and challenges, and therefore what the Assembly Government can do, alongside other partners in delivery.

Siambr cyn symud y tu allan—rhaid inni sicrhau bod pobl yn deall y cyfleoedd a'r heriau, ac felly yr hyn y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud, ochr yn ochr â phartneriaid gweithredu eraill.

**Mick Bates:** I am slightly disappointed that we are still going to proceed to a public inquiry on this, because it means a further delay in reaching the target, to which you have committed your Government, of 4 TWh by 2010. Part of the issue is that, as with the previous Minister responsible for energy and planning, it is a case of 'Not in my term of office'. If you are genuine about the tokenism that you have just expressed—and we have heard a bit of tokenism from the people on my left—[*Interruption.*] No, let us have a bit of honesty in this debate.

**Mick Bates:** Yr wyf braidd yn siomedig y byddwn yn dal i fynd ymlaen i gael ymchwiliad cyhoeddus i'r mater hwn, oherwydd mae'n golygu y bydd oedi pellach wrth gyrraedd y targed o 4 TWh erbyn 2010 yr ydych wedi rhwymo'ch Llywodraeth iddo. Un agwedd ar hyn, fel gyda'r Gweinidog blaenorol a oedd yn gyfrifol am ynni a chynllunio, yw ei fod yn fater o 'Nid yn ystod fy nghyfnod i yn y swydd'. Os ydych o ddifrif ynghylch y symboleiddiaeth yr ydych wedi ei chyfleu—a chlywsom ychydig symboleiddiaeth gan y rhai ar y chwith i mi—[*Torri ar draws.*] Na, gadewch inni fod yn onest yn y ddadl hon.

Where are you going to find the investment to promote other sources of renewable energy such as biomass and photovoltaics? One of only two sources of money for this—the wood energy business scheme in Wales—is a tiny amount. The other source of money, from the Department of Trade and Industry, is through the low-carbon building programme, which is vastly oversubscribed. Therefore, you will not have the funds to put forward big projects for alternative sources of renewable energy other than wind.

Ble mae cael y buddsoddiad i hyrwyddo ffynonellau eraill o ynni adnewyddadwy fel biomas a thechnoleg ffotofoltäig? Dim ond dwy ffynhonnell arian sydd ar gyfer hyn, a swm bach iawn yw un ohonynt—y cynllun busnes ynni pren yng Nghymru. Mae'r ffynhonnell arian arall, gan yr Adran Masnach a Diwydiant, yn dod drwy'r rhaglen adeiladau carbon isel, sydd ymhell o fod yn ddigon i ateb y galw. Felly, ni fydd gennych ddigon o arian i gyflwyno prosiectau mawr ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddadwy eraill heblaw ynni'r gwynt.

**Jane Davidson:** There are two things to say in response to that. First, the Assembly Government is not always the promoter of major energy projects. This is about partnership with the UK Government and with the industry. Secondly, I will be working with officials and looking at reaching the target that the Assembly has ambitiously set for itself; it is quite appropriate that it has done so. There is a principle with regard to targets that it is very important that we sign up to, which is that we ensure that, where we have targets, we have the levers and the strategies to achieve them. Therefore, if, in the early days of my life as Minister with this portfolio, there is an opportunity to look again at how other renewable energies might contribute towards targets, I am extremely happy to do that.

**Jane Davidson:** Rhaid dweud dau beth mewn ymateb i hynny. Yn gyntaf, nid Llywodraeth y Cynulliad sy'n hyrwyddo prosiectau ynni mawr ym mhob achos. Mae hyn yn ymwneud â phartneriaeth gyda Llywodraeth y DU a chyda'r diwydiant. Yn ail, byddaf yn gweithio gyda swyddogion ac yn ystyried sut i gyrraedd y targed uchelgeisiol y mae'r Cynulliad wedi'i osod iddo'i hun; mae'n gwbl briodol iddo fod wedi gwneud hynny. Mae yna egwyddor o ran targedau y mae'n bwysig iawn inni ddal ati, sef y byddwn yn sicrhau, lle yr ydym wedi gosod targedau, fod gennym y mecanweithiau a'r strategaethau angenrheidiol i'w cyrraedd. Felly, os bydd cyfle, yn ystod fy nyddiau cynnar fel y Gweinidog sydd â'r portffolio hwn, i ailedrych ar y modd y gallai mathau eraill o

However, we should not shy away from the targets; we should ensure that, where we can deliver on the renewable energy targets we should have buy-in across the Assembly.

ynni adnewyddadwy fod o gymorth i gyrraedd targedau, byddaf yn falch iawn o wneud hynny. Er hynny, ni ddylem geisio osgoi cyrraedd y targedau; dylem sicrhau, lle y gallwn gyrraedd y targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy, y bydd gan y Cynulliad cyfan ran yn hynny.

**Alun Cairns:** The Welsh Conservative Party has always been opposed to Labour's TAN 8. I have never seen so much fancy footwork, shuffling, u-turns or s-bends in my life. They are all desperately trying to get away from it. Janice Gregory is seeking to save the communities in Ogmore, and there are many others doing likewise across Wales because of Labour's policy under TAN 8. Will the Minister now agree to a wholesale review of TAN 8, because, quite simply, we have had enough of this ludicrous policy?

**Alun Cairns:** Mae Plaid Geidwadol Cymru wedi gwrthwynebu Nodyn Cyngor Technegol 8 Llafur erioed. Ni welais gymaint o gyfrwystra, anwadalu a throeon pedol erioed yn fy myw. Maent i gyd yn ceisio'u gorau glas i droi eu cefnau arno. Mae Janice Gregory yn ceisio achub y cymunedau yn Ogwr, ac mae llawer un arall yn gwneud yr un modd ledled Cymru oherwydd polisi Llafur dan TAN 8. A wnaiff y Gweinidog gytuno'n awr i gael adolygiad llawn o TAN 8, oherwydd, yn gwbl syml, yr ydym wedi cael digon ar y polisi chwerthinllyd hwn?

**Jane Davidson:** I am very surprised that you came in on that, given that you were in the Chamber when I responded to members of your party to indicate that that would not be appropriate at this time. As a party, you need to demonstrate that you do not just follow the lead of your leader, cycling to work with a car behind carrying papers, but that you follow the lead of this Assembly by saying that you take renewable energy seriously and that therefore you are prepared to buy into the technology that is available. You cannot deal with climate change quickly with technology that is not yet available. However, we can work with providers on the delivery of that.

**Jane Davidson:** Yr wyf yn synnu'n fawr eich bod wedi gwneud sylw am hynny, gan eich bod yn y Siambr pan ymatebais i aelodau'ch plaid gan ddweud na fyddai hynny'n briodol ar hyn o bryd. Fel plaid, rhaid ichi ddangos nad ydych yn dilyn arweiniad eich arweinydd yn unig, gan seiclo i'r gwaith a char y tu ôl yn cludo papurau, a'ch bod yn dilyn arweiniad y Cynulliad hwn drwy ddweud eich bod yn cymryd ynni adnewyddadwy o ddifrif, a'ch bod felly'n barod i ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael. Ni ellir delio â newid yn yr hinsawdd yn gyflym drwy ddefnyddio technoleg nad yw ar gael eto. Er hynny, gallwn weithio gyda darparwyr i fynd â'r maen i'r wal yn hynny o beth.

**Y Llywydd (Dafydd Elis-Thomas):** Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ(3)0016(SRD), yn ôl, a grwpiwyd cwestiwn 4 gyda chwestiwn 2.

**The Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas):** Question 3, OAQ(3)0016(SRD), is withdrawn, and question 4 was grouped with question 2.

### Public Access to the Countryside and Rights of Way

### Mynediad y Cyhoedd i Gefn Gwlad a Hawliau Tramwy

**Q5 Eleanor Burnham:** Will the Minister make a statement on the current situation with regard to improving public access to the countryside and rights of way? OAQ(3)0052(SRD)

**C5 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sefyllfa gyfredol gyda golwg ar wella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a hawliau tramwy? OAQ(3)0052(SRD)

**Jane Davidson:** The Welsh Assembly

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad

Government is taking forward, with our key partners, a comprehensive programme to improve public access to Wales's superb countryside, including better access to the coast and to rivers and lakes. Improving access for the disabled and for other groups with specific needs is a key component.

Cymru, mewn cydweithrediad â'i phartneriaid allweddol, yn bwrw ymlaen â rhaglen sylweddol i wella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad ardderchog Cymru, gan gynnwys gwell mynediad i'r arfordir ac afonydd a llynnoedd. Mae gwella mynediad pobl anabl a grwpiau eraill sydd ag anghenion penodol hefyd yn rhan allweddol o'r gwaith.

**Eleanor Burnham:** I am very pleased to hear that. Last November, the previous Minister, Carwyn Jones, said that he was working with Alun Pugh, the previous Minister for culture and sport to secure improved provision for public access to inland and coastal waters for recreational purposes. Can we have an update on that? I also understand that some work is being done on the Countryside and Rights of Way Act 2000, so could we have an update on that?

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn falch iawn o glywed hynny. Fis Tachwedd diwethaf, dywedodd y Gweinidog blaenorol, Carwyn Jones, ei fod yn gweithio gydag Alun Pugh, y Gweinidog blaenorol dros ddiwylliant a chwaraeon, i sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer mynediad cyhoeddus i ddyfroedd mewndirol ac arfordirol at ddibenion hamdden. A gawn ni'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny? Deallaf hefyd fod rhywfaint o waith ar y gweill ar Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, felly, a gawn ni'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny?

**Jane Davidson:** On access to water, the Assembly Government has asked the Environment Agency Wales to develop a new strategic plan identifying potential new opportunities for water access and the way in which those opportunities might be delivered. That should be ready later this year. We have also provided £100,000 in additional funding this year to the Countryside Council for Wales and the Forestry Commission to support a range of exemplar projects on water access.

**Jane Davidson:** Ynghylch mynediad i ddyfroedd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ddatblygu strategaeth newydd i bennu cyfleoedd newydd posibl ar gyfer mynediad i ddyfroedd, a sut y gellid darparu'r cyfleoedd hynny. Dylai honno fod yn barod yn ddiweddarach eleni. Yr ydym hefyd wedi darparu £100,000 o gyllid ychwanegol eleni i Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth i gynnal amryw o brosiectau enghreifftiol ar fynediad i ddyfroedd.

On the CRoW Act, from May 2005, public access to some 21 per cent of the Welsh countryside has been secured under the Assembly Government's open access programme.

Ynghylch Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ers Mai 2005 sicrhawyd mynediad cyhoeddus i ryw 21 y cant o gefn gwlad Cymru dan raglen mynediad agored Llywodraeth y Cynulliad.

12.50 p.m.

**Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar amserlen y Llywodraeth i weithredu ar ei bwriad i greu llwybr arfordirol i gwmpasu arfordir Cymru? A wnaiff hi fanylu ar sut y bydd awdurdodau lleol yn cyflawni'r prosiect?

**Nerys Evans:** Will the Minister report on the Government's timetable for realising its plan to create a coastal path along the whole of Wales's coastline? Will she outline how local authorities will deliver that project?

**Jane Davidson:** This issue is dear to my heart, as the vice-president of the Ramblers'

**Jane Davidson:** Mae'r pwnc hwn yn agos iawn at fy nghalon, a minnau'n is-lywydd

Association. I am keen to see the coastal path go forward. This was a major commitment in Labour's manifesto, to have a coastal path around the whole of Wales—[*Interruption*.]

Cymdeithas y Cerddwyr. Yr wyf yn awyddus i weld datblygu llwybr yr arfordir. Yr oedd ymrwymiad pwysig ym maniffesto Llafur i gael llwybr arfordirol o gwmpas Cymru gyfan—[*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order. As I have indicated previously, we have a new Minister with responsibility for sustainability, a matter that interests me greatly, and the countryside, which interests me even more, and I want to hear what she has to say. I make it clear to Members that I will not tolerate interruptions, otherwise those who interrupt—from whatever position—will not be called to speak in future.

**Y Llywydd:** Trefn. Fel yr wyf eisoes wedi dweud, mae gennym Weinidog newydd sydd â chyfrifoldeb dros gynaliadwyedd, mater yr wyf yn ymddiddori'n fawr ynddo, a chefn gwlad, sydd o ddiddordeb mwy byth i mi, ac yr wyf am glywed beth sydd ganddi i'w ddweud. Yr wyf yn gwneud yn glir i Aelodau na fyddaf yn goddef ymyriadau, neu ni fydd y rheini sy'n torri ar draws—boed ar eu traed neu ar eu heistedd—yn cael eu galw i siarad yn y dyfodol.

**Jane Davidson:** I am keen that we take this forward as quickly as possible: £1.5 million has been put into the budget for this purpose, allocations will be made to local authorities shortly, and I am working with the department to get a timetable that is as clear as possible as quickly as possible.

**Jane Davidson:** Yr wyf yn awyddus inni fwrw ymlaen â hyn cyn gyflymed ag y bo modd: rhoddwyd £1.5 miliwn yn y gyllideb i'r diben hwn, caiff arian ei ddyrannu i awdurdodau lleol cyn hir, ac yr wyf yn gweithio gyda'r adran i gael amserlen sydd mor glir ag y bo modd cyn gynted ag y bo modd.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** Like the Minister, I am a keen walker; it is one of the few things that we have in common, probably—perhaps the only thing. [*Laughter.*] Further to that answer to Nerys Evans—and I welcome that commitment in relation to coastal land, as I think that we all do—to what extent are you ensuring, Minister, that public agencies over which you have direct or indirect control are providing access across their land for the benefit of the people of Wales? I believe that many people in Wales would want to take up that opportunity.

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** Fel y Gweinidog, yr wyf fi hefyd yn gerddwr selog; mae'n un o'r ychydig bethau sy'n gyffredin inni, mae'n debyg—yr unig beth o bosibl. [*Chwerthin.*] I ychwanegu at yr ateb hwnnw i Nerys Evans—ac yr wyf yn croesawu'r ymrwymiad hwnnw mewn cysylltiad â'r arfordir, fel yr ydym i gyd, mi gredaf—i ba raddau yr ydych yn sicrhau, Weinidog, fod asiantaethau cyhoeddus y mae gennych reolaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol drostynt yn darparu mynediad dros eu tir er lles pobl Cymru? Yr wyf yn credu y byddai llawer o bobl yng Nghymru am achub ar y cyfle hwnnw.

**Jane Davidson:** I look forward to meeting you somewhere on the hills of Wales, Nick. [*Laughter.*] In fact, may I make you an offer, to join me on my daily walk up the Garth mountain? Rights-of-way improvement plans, which all authorities have to produce by the autumn, should assist further prioritising of investment in the rights-of-way network. I am particularly keen that our fantastic long-distance footpaths—of which we have so many in Wales—are in pristine condition, open to all walkers and well way-

**Jane Davidson:** Yr wyf yn edrych ymlaen at gwrdd â chi rywle ar fryniau Cymru, Nick. [*Chwerthin.*] Yn wir, a gaf eich gwahodd i ymuno â mi pan fyddaf yn cerdded i fyny mynydd y Garth bob dydd? Disgwylir y bydd cynlluniau gwella hawliau tramwy, y mae'r holl awdurdodau'n gorfod eu llunio erbyn yr hydref, yn gymorth i roi mwy o flaenoriaeth i fuddsoddi yn y rhwydwaith hawliau tramwy. Yr wyf yn arbennig o awyddus i sicrhau y bydd ein llwybrau troed pell ardderchog—sydd â chynifer ohonynt yng Nghymru—yn

marked. We can package them alongside bed-and-breakfast accommodation, camping, and other opportunities and really sell the notion of Wales—the real jewel in the crown—in terms of walking for the future. Bringing the coastal path on as quickly as possible will be an integral part of that. We have a fantastic coastline—we know that when we look at the path around Anglesey now—and I am sure that bringing that on as quickly as possible will ensure a huge tourist attraction. Many millions of pounds are spent by walkers in our country.

ddilychwin eu cyflwr, y byddant yn agored i'r holl gerddwyr ac y bydd digon o arwyddion arnynt i ddangos y ffordd. Gallwn eu hysbysebu ochr yn ochr â llety gwely a brecwast, gwersylla a chyfleoedd eraill, a gwerthu'r syniad o Gymru—y trysor pennaf—o ran cerdded ar gyfer y dyfodol. Rhan annatod o hynny fydd dechrau ar lwybr yr arfordir cyn gynted ag y bo modd. Mae gennym arfordir gwych—gwelwn hynny wrth edrych ar y llwybr o gwmpas Ynys Môn yn awr—ac yr wyf yn siŵr y denir llawer iawn o ymwelwyr drwy ddatblygu hwnnw cyn gynted ag y bo modd. Mae cerddwyr yn gwario miliynau lawer o bunnoedd yn ein gwlad.

**Cefnogi'r Diwydiant Amaethyddol**

**Supporting the Agricultural Industry**

**Q6 Paul Davies:** Will the Minister outline her priorities for supporting the Welsh agricultural industry? OAQ(3)0040(SRD)

**C6 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer cefnogi diwydiant amaethyddol Cymru? OAQ(3)0040(SRD)

**Jane Davidson:** A sustainable and profitable industry that also contributes to the economic, social, environmental and cultural wellbeing of Wales remains at the heart of the Assembly Government's strategic agenda for agriculture.

**Jane Davidson:** Mae sicrhau diwydiant cynaliadwy a phroffidiol sydd hefyd yn cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn dal yn ganolog i agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer amaethyddiaeth.

**Paul Davies:** In my constituency, agriculture is the lifeblood of rural Pembrokeshire—it is central to the wellbeing, not only of farmers, but of the many small towns and villages that depend on it. When agriculture prospers, the whole community benefits—it has a knock-on effect on all our rural businesses. The farming industry is evidently in a fragile state. We have seen a 30 per cent reduction in the number of dairy farmers in Wales in the last decade, and the number of people employed in agricultural holdings has fallen by 13 per cent since 1996. What measures would the Minister introduce to reverse this trend? Would she agree that we need a statutory code of conduct between supermarkets and farmers to end the unfair price farmers receive for their milk?

**Paul Davies:** Yn fy etholaeth i, amaethyddiaeth yw calon ac enaid sir Benfro wledig—mae'n hanfodol i les ffermwyr a hefyd i'r nifer mawr o drefi bach a phentrefi sy'n dibynnu arni. Pan fydd amaethyddiaeth yn ffynnu, bydd y gymuned gyfan yn elwa—caiff effaith ganlyniadol ar ein holl fusnesau gwledig. Mae'n amlwg fod y diwydiant ffermio mewn cyflwr bregus. Gwelsom ostyngiad o 30 y cant yn nifer y ffermwyr llaeth yng Nghymru yn y degawd diwethaf, ac mae nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi mewn daliadau amaethyddol wedi gostwng 13 y cant er 1996. Pa fesurau y byddai'r Gweinidog yn eu cyflwyno i wrthdroi'r tuedd hwn? A fyddai'n cytuno bod arnom angen cod ymddygiad statudol rhwng uwchfarchnadoedd a ffermwyr i roi diwedd ar y pris annheg a gaiff ffermwyr am laeth?

**Jane Davidson:** I agree with you, Paul, about the importance of agriculture in our rural communities. I believe that there are about 32,000 farmers in Wales, and, of course,

**Jane Davidson:** Yr wyf yn cyd-weld â chi, Paul, ynghylch pwysigrwydd amaethyddiaeth yn ein cymunedau gwledig. Credaf fod tua 32,000 o ffermwyr yng Nghymru, ac wrth

most of the land that is not owned in some way by the Assembly or its executive agencies will be in the ownership of those farmers.

gwrs, mae'r rhan fwyaf o'r tir nad yw'r Cynulliad neu ei asiantaethau gweithredol yn berchen arno mewn rhyw fodd yn eiddo i'r ffermwyr hynny.

Looking at how we develop the rural development plan, for example, not just in a way that the commission is happy about, but in a way that contributes towards the environmental agenda in Wales, will be important for the future. I have meetings lined up with all those with a specific stakeholder interest—for example, farmers, the unions and the Country Land and Business Association—in the near future. I am also looking forward to spending two days at the Royal Welsh Show and having discussions there: the theme is climate change, so we can tie that with every aspect of my portfolio. I will want to work with people to consider what we can do in the supermarket setting. There have been some local agreements on milk and Welsh lamb, but we need to do more to ensure that our fantastic produce is available in supermarkets across Wales.

Bydd yn bwysig ystyried, er enghraifft, sut y byddwn yn datblygu'r cynllun datblygu gwledig ar gyfer y dyfodol, nid yn unig mewn modd y bydd y comisiwn yn fodlon arno, ond mewn modd sy'n cyfrannu at yr agenda amgylcheddol yng Nghymru. Yr wyf wedi trefnu cyfarfodydd yn y dyfodol agos gyda phawb sydd â diddordeb penodol fel rhanddeiliaid—er enghraifft, ffermwyr, yr undebau a Chymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad. Yr wyf hefyd yn edrych ymlaen at dreulio dau ddiwrnod yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a chael trafodaethau yn y fan honno: y thema yw newid yn yr hinsawdd, felly, gallwn gysylltu hynny â phob agwedd ar fy mhortffolio. Byddaf am weithio gyda phobl i ystyried beth y gallwn ei wneud yng nghyd-destun uwchfarchnadoedd. Cafwyd rhai cytundebau lleol ar laeth a chig oen Cymru, ond rhaid inni wneud rhagor i sicrhau y bydd ein cynnyrch gwych ar gael mewn uwchfarchnadoedd ledled Cymru.

**Elin Jones:** Yr oedd un o bleidleisiau olaf y Cynulliad diwethaf ar ddiwygio cyllideb Tir Mynydd. A yw eich Llywodraeth mewn sefyllfa yn awr i gadarnhau a ydych yn bwriadu anrhydeddu canlyniad y bleidlais honno a chynyddu cyllideb Tir Mynydd yn uwch na'r lefel a fwriadwyd gan y cyn Weinidog?

**Elin Jones:** One of the final votes of the second Assembly was on revising the Tir Mynydd budget. Is your Government now in a position to confirm whether you intend to honour the result of that vote and increase the Tir Mynydd budget more than was originally intended by the former Minister?

**Jane Davidson:** I am happy to confirm that.

**Jane Davidson:** Yr wyf yn hapus i gadarnhau hynny.

**Elin Jones:** O, bendigedig. [*Chwerthin.*] Diolch am hynny. Mae Tir Mynydd yn rhan o'r cynllun datblygu gwledig, ac felly mae'n siŵr y byddwch mewn sefyllfa i gyflwyno'r cynllun hwnnw'n ffurfiol i Gomisiwn Ewrop cyn bo hir. A oes gennych syniad pryd fydd Comisiwn Ewrop yn barod i gytuno cynllun datblygu gwledig Cymru, ac, o wneud hynny, gael gwared ar yr ansicrwydd ymysg prosiectau a'r gwahanol weithgareddau yng nghefn gwlad Cymru ynghylch y cyllid a fydd ar gael iddynt dros y saith mlynedd nesaf?

**Elin Jones:** Oh, wonderful. [*Laughter.*] Thank you for that. Tir Mynydd is part of the rural development plan, and so I am sure you will soon be in a position to present that plan formally to the European Commission. Do you have any idea when the European Commission will be prepared to endorse Wales's rural development plan, and in doing so eliminate the uncertainty among projects and in the various activities in rural Wales about the funding which will be available to them over the next seven years?

**Jane Davidson:** The rural development plan

**Jane Davidson:** Mae'r cynllun datblygu

is crucial; if we do not get European Commission agreement on the plan, we lose £195 million of European Union funding and put at risk the overall rural development plan investment of £770 million for rural Wales. This is a huge issue for the Assembly. We will get the rural development plan in July, and I am sure that I will continue having discussions with you and others before the plan is finally submitted. I am reliably informed by officials that we will probably get a list of some 300 to 400 questions in October, or thereabouts. The crucial issue about October is that the response will give us an indication of whether the plan is likely to be accepted. Therefore, we should have a little more security then. We then aim for acceptance in March, so that we can then have a clear trajectory for the rest of the time covered by the next rural development plan.

gwledig yn hollbwysig; os na chawn gytundeb gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y cynllun, byddwn yn colli gwerth £195 miliwn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd, ac yn peryglu'r buddsoddiad cyffredinol o £770 miliwn dan y cynllun datblygu gwledig ar gyfer cefn gwlad Cymru. Mae hyn yn fater pwysig dros ben i'r Cynulliad. Byddwn yn cael y cynllun datblygu gwledig ym mis Gorffennaf, ac yr wyf yn siŵr y byddaf yn dal i gael trafodaethau gyda chi ac eraill cyn cyflwyno'r cynllun yn derfynol. Mae swyddogion wedi dweud wrthyf fod rheswm dros gredu y byddwn yn cael rhestr o ryw 300 i 400 o gwestiynau, mae'n debyg, ym mis Hydref, neu tua'r adeg honno. Yr hyn sy'n hollbwysig ynglŷn â mis Hydref yw y bydd yr ymateb yn rhoi rhyw arwydd i ddangos a yw'r cynllun yn debygol o gael ei dderbyn. Felly, dylem gael ychydig mwy o sicrwydd bryd hynny. Byddwn yn anelu wedyn at ei dderbyn ym mis Mawrth, fel y gallwn gael llwybr clir wedyn ar gyfer gweddill y cyfnod a gynhwysir gan y cynllun datblygu gwledig nesaf.

**Kirsty Williams:** In your meetings with the unions, I am sure that they will raise the issues of bureaucracy and animal welfare. Could you outline your approach to securing a further derogation on the double tagging of sheep?

**Kirsty Williams:** Yn eich cyfarfodydd gyda'r undebau, yr wyf yn siŵr y byddant yn codi materion yn ymwneud â biwrocratiaeth a lles anifeiliaid. A allech amlinellu sut y bwriadwch sicrhau rhanddirymiad pellach ar dagio dwbl ar ddefaid?

**Jane Davidson:** The difficulty with derogations is that they are not within our control. We understand that, although representations have been made, we are unlikely to be successful. I will always want to work closely with stakeholders and communities, which was my strategy with my previous portfolio, to see how far we can go always in ensuring that their interests are properly looked after. I am sure that these issues will regularly come up in my meetings with the unions and others, and in the Assembly.

**Jane Davidson:** Yr anhawster o ran rhanddirymiadau yw nad ydynt dan ein rheolaeth ni. Deallwn, er bod sylwadau wedi'u cyflwyno, nad ydym yn debygol o lwyddo. Byddaf bob amser am gydweithio'n agos â rhanddeiliaid a chymunedau, sef y strategaeth a ddilynais gyda'm portffolio blaenorol, i weld pa mor bell y gallwn fynd ym mhob achos i sicrhau gofalu'n briodol am eu buddiannau. Yr wyf yn siŵr y bydd y materion hyn yn codi'n rheolaidd yn fy nghyfarfodydd gyda'r undebau ac eraill, ac yn y Cynulliad.

### Sustainable Energy Sources

### Ffynonellau Ynni Adnewyddadwy

**Q7 Peter Black:** How will the Minister be promoting sustainable energy sources in Wales? OAQ(3)0046(SRD)

**C7 Peter Black:** Sut y bydd y Gweinidog yn hyrwyddo ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(3)0046(SRD)

**Q11 Angela Burns:** What are the Minister's plans to promote the use of sustainable

**C11 Angela Burns:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hyrwyddo defnyddio ynni

energy in Carmarthen West and South Pembrokeshire? OAQ(3)0018(SRD)

adnewyddadwy yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro? OAQ(3)0018(SRD)

**Jane Davidson:** Welsh energy policy is based on principles of sustainable development. We have already set renewable energy targets of 4 TWh by 2010 and 7 TWh by 2020. In addition, our microgeneration action plan encourages community-scale projects. Our Wales energy route-map, which I intend to publish in the autumn, will highlight other opportunities, particularly in terms of renewable energy.

**Jane Davidson:** Mae polisi ynni Cymru wedi'i seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yr ydym eisoes wedi gosod targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy o 4 TWh erbyn 2010 a 7 TWh erbyn 2020. Yn ogystal â hynny, mae ein cynllun gweithredu ar ficrogynhyrchu yn hybu prosiectau ar gyfer cymunedau. Bydd ein map llwybr ynni i Gymru, y bwriadaf ei gyhoeddi yn yr hydref, yn tynnu sylw at gyfleoedd eraill, yn enwedig yng nghyd-destun ynni adnewyddadwy.

**Peter Black:** Yesterday, the First Minister told us that one of the major obstacles to the development of the tidal lagoon in Swansea was the fact that the Department of Trade and Industry considered it to be unworkable and that it has, effectively, ruled it out. Is it the Government's intention to work with those who wish to develop this tidal lagoon to try to put together a case that can then be taken to the DTI to try to persuade it to change its mind?

**Peter Black:** Ddoe dywedodd y Prif Weinidog wrthym mai un o'r prif rwystrau rhag datblygu'r morlyn llanw yn Abertawe oedd y ffaith fod yr Adran Masnach a Diwydiant yn credu ei fod yn anymarferol, ac i bob pwrpas mae wedi'i ddiystyru. A yw'r Llywodraeth yn bwriadu gweithio gyda'r rheini sy'n dymuno datblygu morlyn llanw o'r fath er mwyn ceisio paratoi achos y gellir ei gyflwyno i'r DTI i geisio'i darbwyllo i newid ei meddwl?

1.00 p.m.

**Jane Davidson:** I cannot give you such an assurance today, Peter, because I need evidence from my department and others. It is crucially important that we ensure that what we support in terms of energy delivery reduces carbon emissions, is commercially viable and will work—that is the crucial issue, at the end of the day. Applying those tests, I am happy to say that we could look at further discussions.

**Jane Davidson:** Ni allaf roi sicrwydd o'r fath ichi heddiw, Peter, oherwydd mae angen imi gael tystiolaeth gan fy adran ac eraill. Mae'n hanfodol bwysig inni sicrhau bod yr hyn a gefnogwn o ran darparu ynni'n lleihau allyriadau carbon, ei fod yn fasnachol ymarferol ac y bydd yn gweithio—dyna'r peth allweddol, yn y pen draw. Gan ddefnyddio'r profion hynny, mae'n dda gennyf ddweud y gallem edrych ar drafodaethau pellach.

**Angela Burns:** The Minister will be aware of Bluestone, a fantastic project that is under way in my constituency. The new Waterworld and the sports centre are due to open in June 2008, and will be entirely heated, lit and powered by renewable biofuels. These fuels should be biofuel crops provided by Pembrokeshire Bioenergy Ltd, a co-operative of local farmers. Given the Minister's assertion of a commitment to sustainable energy technologies, I am disappointed that the Labour Government here does not provide anything like the same

**Angela Burns:** Bydd y Gweinidog yn gwybod am y Garreg Las, prosiect gwych sydd ar waith yn fy etholaeth i. Disgwylir agor y parc dŵr newydd a'r ganolfan chwaraeon ym Mehefin 2008, a chaiff ei wresogi, ei oleuo a'i redeg yn gyfan gwbl ar fiodanwyddau adnewyddadwy. Cnydau biodanwydd a ddarperir gan Pembrokeshire Bioenergy Cyf, cwmni cydweithredol o ffermwyr lleol, fydd y rhain. O gofio haeriad y Gweinidog o ymrwymo i dechnolegau ynni cynaliadwy, yr wyf yn siomedig nad yw'r Llywodraeth Lafur yma'n darparu dim byd

level of establishment grants to help farmers set up and grow a crop that will encourage more businesses to go carbon neutral. If we are to continue the good practice set out by Pembrokeshire Bionergy Ltd, we must start acting now—after all, it takes four to five years to establish the crop for full production. Can the Minister detail what intentions she has to give the farmers of Wales parity on this issue with those in the rest of the UK?

tebyg i'r un lefel o grantiau sefydlu i helpu ffermwyr i sefydlu a thyfu cnwd a fydd yn annog mwy o fusnesau i fod yn garbon-niwtral. Os ydym i barhau'r arfer da a sefydlwyd gan Pembrokeshire Bioenergy Cyf, rhaid inni ddechrau gweithredu'n awr—wedi'r cyfan, mae'n cymryd pedair i bum mlynedd i sefydlu'r cnwd ar gyfer cynhyrchu llawn. A all y Gweinidog fanylu ar ei bwriadau i roi cydraddoldeb i ffermwyr Cymru ar y mater hwn â ffermwyr gweddill y Deyrnas Unedig?

**Jane Davidson:** I certainly want to look closely at the issue of bio-energy crops. As I said, I am looking to make a statement on an energy route map in the autumn, which will include renewable energy. I am keen to promote small energy initiatives, such as Bluestone, that can bring people—communities or individuals—off-grid and contribute towards community ownership of renewable energy projects. Bluestone will be a showcase in terms of renewable energy—it will showcase biomass energy, as it has a centre there that is the first of its type in Wales. It is seeking level 5 Green Dragon environmental standard accreditation, which is the highest level that you can get. We want to celebrate that kind of approach and look at how it can be taken forward across Wales.

**Jane Davidson:** Yn sicr, yr wyf am edrych yn fanwl ar gwestiwn cnydau bio-ynni. Fel y dywedais, yr wyf am wneud datganiad yn yr hydref am fap ffordd ar gyfer ynni a fydd yn cynnwys ynni adnewyddadwy. Yr wyf yn awyddus i hyrwyddo mentrau ynni bychain, fel y Garreg Las, a all dynnu pobl—yn gymunedau neu'n unigolion—oddi ar y grid a chyfrannu at berchenogaeth gymunedol ar brosiectau ynni adnewyddadwy. Bydd y Garreg Las yn esiampl o ran ynni adnewyddadwy—bydd yn fodd i arddangos ynni biomas, oherwydd mae ganddi'r ganolfan gyntaf o'i bath yng Nghymru. Mae'n ceisio cael achrediad safon amgylcheddol lefel 5 y Ddraig Werdd, sef y lefel uchaf bosibl. Mae arnom eisiau dathlu'r math hwnnw o agwedd ac edrych ar y ffordd y gellir ei chario ymlaen ar draws Cymru.

**Sandy Mewies:** I was pleased to welcome members of the Oxford University Labour Club here today. The students were interested, as most young people are, in sustainable energy, and in the point that I made yesterday about two innovative projects in Flintshire being carried out by the county council. Those projects use ground-source heat for pensioners' bungalows. As this is sustainable and enhances rural development, as ugly oil tanks do not have to be used in places of outstanding natural beauty, could you familiarise yourself with this in your new brief?

**Sandy Mewies:** Yr oeddwn yn falch cael croesawu aelodau o Glwb Llafur Prifysgol Rhydychen yma heddiw. Yr oedd gan y myfyrwyr ddiddordeb, fel y rhan fwyaf o bobl ifanc, mewn ynni cynaliadwy, ac yn y pwynt a wneuthum ddoe am ddau brosiect arloesol yn Sir y Fflint sy'n cael eu cynnal gan y cyngor sir. Mae'r prosiectau hynny'n defnyddio gwres o'r ddaear ar gyfer byngalos pensiynwyr. Gan fod hyn yn gynaliadwy ac yn hybu datblygiad gwledig, gan nad oes raid defnyddio tanciau olew hyll mewn mannau o harddwch naturiol eithriadol, a allech edrych ar hyn yn eich briff newydd?

**Jane Davidson:** I would be happy to visit them with you, if you would like to invite me to the constituency; the same is true of other Members with major projects that demonstrate the efficacy of a community approach towards renewables. We need to celebrate what is going on out there, and we

**Jane Davidson:** Byddwn yn falch ymweld â hwy gyda chi, os hoffech fy ngwahodd i'r etholaeth; mae'r un peth yn wir am Aelodau eraill sydd â phrosiectau mawr sy'n dangos effeithiolrwydd agwedd gymunedol tuag at ynni adnewyddadwy. Mae angen dathlu'r hyn sy'n digwydd yn y maes, ac mae angen

need to ensure that we have good data collection. When I publish the energy route map focusing on renewables, I would like there to be an up-to-date list of all those initiatives, at local level as well as at a larger level, so that people can benefit from good experience elsewhere in Wales.

sicrhau bod gennym drefn dda o gasglu data. Pan gyhoeddaf y map ffyrdd ynni a fydd yn canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, hoffwn fod yno restr gyfoes o'r holl fentrau hynny, ar lefel leol yn ogystal ag ar lefel fwy, fel y gall pobl elwa o brofiad da mewn rhannau eraill o Gymru.

**Bethan Jenkins:** The Minister will be aware of the example of Woking, a town of 90,000 inhabitants that has become a world leader in localised power production. Its energy system is based on the use of hundreds of small-scale combined heat and power plants to produce energy for homes and offices. What consideration has she given to the introduction of similar systems in communities across Wales, as part of our responsibility to reduce carbon emissions?

**Bethan Jenkins:** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o esiampl Woking, tref o 90,000 o drigolion, sydd bellach yn un o arweinwyr y byd ym maes cynhyrchu pŵer yn lleol. Mae ei system ynni'n seiliedig ar ddefnyddio cannoedd o ganolfannau gwres a phŵer cyfunedig bach i gynhyrchu ynni i gartrefi a swyddfeydd. Pa ystyriaeth y mae hi wedi ei rhoi i gyflwyno systemau tebyg mewn cymunedau ledled Cymru, fel rhan o'n cyfrifoldeb i leihau allyriadau carbon?

**Jane Davidson:** In the microgeneration action plan, supported by our manifesto, we have a commitment to 50 district heat and power generators. There is a huge opportunity for us now to lift this debate to a whole other level. We can learn from right across the world too, so, without additional air travel, I want to ensure that we look at renewable energy propositions that we can bring forward in Wales.

**Jane Davidson:** Yn y cynllun gweithredu microgynhyrchu, a gefnogir gan ein maniffesto, mae gennym ymrwymiad i 50 o gynhyrchwyr gwres a phŵer ardal. Mae cyfle enfawr i ni godi'r ddadl hon yn awr i lefel arall yn llwyr. Gallwn ddysgu gan bob rhan o'r byd hefyd, felly, heb unrhyw deithio awyr ychwanegol, mae arnaf eisiau sicrhau ein bod yn edrych ar syniadau ynni adnewyddadwy y gallwn eu cyflwyno yng Nghymru.

**William Graham:** Minister, you have been talking today about micro and community generation. In respect of business users, will you confirm that you might be interested in looking at business rate reform in order to increase that supply?

**William Graham:** Weinidog, yr ydych wedi bod yn siarad heddiw am ficrogynhyrchu a chynhyrchu cymunedol. Yng nghyswllt defnyddwyr busnes, a wnewch chi gadarnhau y gallai fod gennych ddiddordeb mewn edrych ar ddiwygio ardrethi busnes er mwyn cynyddu'r cyflenwad hwnnw?

**Jane Davidson:** Business rate reform is not my responsibility, but I have overarching Cabinet responsibility in terms of sustainability and climate change. I assure you that this Government will be looking at all ways, across the Assembly, of tackling these issues.

**Jane Davidson:** Nid fy nghyfrifoldeb i yw diwygio ardrethi busnes, ond mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol yn y Cabinet o ran cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd. Gallaf eich sicrhau y bydd y Llywodraeth hon yn edrych ar bob ffordd, ar draws y Cynulliad, o fynd i'r afael â'r materion hyn.

### Waste Disposal Collections

### Casglu Gwastraff

**Q8 Ann Jones:** How does the Minister plan to monitor the effectiveness of fortnightly waste disposal collections where these have been introduced in Wales? OAQ(3)0006(SRD)

**C8 Ann Jones:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu monitro effeithiolrwydd casglu gwastraff bob pythefnos lle mae hyn wedi'i gyflwyno yng Nghymru? OAQ(3)0006(SRD)

**Jane Davidson:** The Assembly Government monitors municipal waste management using a national database called WasteDataFlow. Analysis of data from this system helps to assess the effectiveness of fortnightly rubbish collection.

**Jane Davidson:** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn monitro casglu gwastraff trefol drwy ddefnyddio cronfa ddata genedlaethol o'r enw WasteDataFlow. Mae dadansoddi data o'r system hon yn helpu asesu effeithiolrwydd casglu sbwriel bob pythefnos.

**Ann Jones:** Parts of Denbighshire are now on a recycling x2 scheme—one week there is a collection of household rubbish and a kerbside collection of some limited materials for recycling, and in week two there is a collection of garden waste. While that appears to be acceptable to most people, some people feel that they should have weekly collections, especially during the hot weather.

**Ann Jones:** Mae rhannau o Sir Ddinbych bellach ar gynllun ailgylchu deublyg—un wythnos cesglir sbwriel tŷ a rhai defnyddiau cyfyngedig i'w hailgylchu oddi ar ymyl y ffordd, a'r wythnos wedyn cesglir gwastraff gardd. Er bod hynny'n ymddangos yn dderbyniol i'r rhan fwyaf o bobl, mae rhai'n teimlo y dylent gael casgliadau bob wythnos, yn enwedig yn ystod y tywydd poeth.

Will you look to work with local authorities on the different systems that could be introduced to provide effective waste disposal, so that we do not see an increase in fly tipping in areas where people are forced to put their bags out, irrespective of when they are to be collected? This is an important issue for many constituents. Their main concern is that they do not want to be penalised by the restrictions of fly-tipping, but they also do not want to have waste bags hanging around between collection dates. Will you look at that, as a part of your portfolio?

A wnewch chi ystyried gweithio gydag awdurdodau lleol ar y gwahanol systemau y gellid eu cyflwyno i ddarparu ffordd effeithiol o waredu gwastraff, fel na welwn gynnydd mewn tipio anghyfreithlon mewn mannau lle caiff pobl eu gorfodi i roi eu sachau allan, waeth pryd y maent i gael eu casglu? Mae hwn yn bwnc pwysig i nifer o etholwyr. Eu prif bryder yw nad oes arnynt eisiau cael eu cosbi gan y cyfyngiadau ar dipio anghyfreithlon, ond nad oes ychwaith am gael sachau gwastraff o gwmpas y lle rhwng dyddiadau casglu. A wnewch chi edrych ar hynny, fel rhan o'ch portffolio?

**Jane Davidson:** I will meet representatives of the Welsh Local Government Association shortly to consider waste issues. Next week, I will be bringing to the Assembly the legislative competence Order on waste, which will be important in terms of ensuring that people work together on the delivery of the waste agenda. You are absolutely right about fly tipping: we need to make sure that the penalties are appropriate and that we are on top of fly-tipping issues, because we want to support our special environment.

**Jane Davidson:** Byddaf yn cwrdd â chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru cyn hir i drafod materion gwastraff. Yr wythnos nesaf, byddaf yn cyflwyno i'r Cynulliad y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar wastraff, a fydd yn bwysig i sicrhau bod pobl yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r agenda gwastraff. Yr ydych yn llygad eich lle ynghylch tipio anghyfreithlon: mae angen inni wneud yn siŵr bod y cosbau'n briodol a'n bod yn mynd i'r afael â materion tipio anghyfreithlon, oherwydd mae arnom eisiau cynnal ein hamgylchedd arbennig.

It is important to say that the six local authorities that have introduced fortnightly refuse collections—either as small pilot schemes or across the whole local authority area—have seen a massive increase in recycling. In Denbighshire, you initially had a lot of resistance: in year 1, in May 2006,

Mae'n bwysig dweud bod y chwe awdurdod lleol sydd wedi cyflwyno casgliadau sbwriel pythefnosol—un ai fel cynlluniau peilot bach neu ar draws ardal yr awdurdod lleol yn gyfan—wedi gweld cynnydd aruthrol mewn ailgylchu. Yn Sir Ddinbych, cawsoch lawer o wrthwynebiad ar y dechrau: ym mlwyddyn 1,

10,000 households out of 44,000 were involved, there was a poor initial response and a high number of complaints; however, we are now going into the third phase of roll out and it is far better supported. I saw John Griffiths nodding in response to those comments. Newport estimates that, this year, it will achieve a level of recycling and composting of over 30 per cent, against a target of 25 per cent, as a result of making these changes. We have to reach those targets. We have ambitious targets and I am determined to ensure that we achieve them.

ym Mai 2006, yr oedd hyn yn effeithio ar 10,000 o aelwydydd allan o 44,000, cafwyd ymateb gwael ar y dechrau a nifer uchel o gwynion; fodd bynnag, erbyn hyn yr ydym yn symud ymlaen i'r trydydd cam ac mae llawer mwy o gefnogaeth iddo. Gwelais John Griffiths yn siglo'i ben i ymateb i'r sylwadau hynny. Mae Casnewydd yn amcangyfrif y bydd, eleni, yn cyrraedd lefel ailgylchu a chompostio o fwy na 30 y cant, yn erbyn targed o 25 y cant, oherwydd gwneud y newidiadau hyn. Rhaid inni gyrraedd y targedau hynny. Mae gennym dargedau uchelgeisiol ac yr wyf yn benderfynol o sicrhau y byddwn yn eu cyrraedd.

**Gareth Jones:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cwestiwn hwn. Datganaf ddiddordeb, unwaith eto, fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sydd wedi ceisio ehangu'r rhaglen hon o gasgliadau bob pythefnos. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â monitro. Yr wyf yn derbyn bod targedau'n bwysig ac y gallwn glodfori neu ganmol ein hunain yn nhermau cyraeddiadau o'r fath, ond yr hyn sy'n bwysig i'w gofio, os ydym am fonitro o ddifrif, yw bod sgîl effeithiau i'r casgliadau hyn—fel y clywsom gan Ann—nad ydym yn eu croesawu, fel tipio anghyfreithlon ac yn y blaen. O'r hyn yr wyf wedi ei ddeall yn ystod y dyddiau cynnar hyn, mae natur yr adeiladau mewn rhai trefi sy'n fawr i ni—fel Llandudno, lle mae nifer o fflatiau—yn creu pob math o drafferthion o ran y casgliadau eu hunain. Gallwch ddychmygu'r math o broblemau sy'n codi os oes gennych ddwsin o fflatiau, ac mae'n anodd bwrw ymlaen i wneud casgliadau yn effeithiol.

**Gareth Jones:** I am grateful for this question. I once again declare an interest, as a member of Conwy County Borough Council, which has sought to extend its programme of fortnightly collections. This question relates to monitoring. I accept that targets are important and that we can pride ourselves on such achievements, but the important point to remember, if we are to monitor the situation seriously, is that such collections have unwelcome sideeffects—as we heard from Ann—such as fly-tipping and so on. From my understanding of these early days, the nature of the buildings in some towns which we consider to be large—such as Llandudno, where there are many flats—cause all sorts of problems for collections. You can imagine the problems that arise if you have a dozen flats, and it is difficult to forge ahead with effective collection.

Mae agwedd arall ar hyn yng Nghonwy hefyd, gan fod gennym y canran uchaf yng Nghymru o bobl oedrannus—fel fi. Mae rhai o'r bobl oedrannus hyn yn ei chael yn anodd i symud y bocsys a'r bagiau ac ati i flaen y tŷ neu le bynnag y daw'r lorïau i'w casglu. Gan ein bod yn monitro hyn, a wnewch chi, fel Gweinidog, ystyried y sgîl effeithiau yn ofalus? Maent yn ymwneud â sut mae'r dull o gasglu yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl ac ar drefi fel Llandudno, lle mae ychydig yn anos—dyma fy apêl ar ran Conwy—ac sydd efallai'n golygu bod angen mwy o adnoddau arnom i sicrhau bod y peth yn llwyddo.

There is also another aspect to this in Conwy, because we have the highest percentage of in Wales of elderly people—like me. Some of these elderly people find it difficult to move boxes and bags and so on to the front of their houses, or to wherever it is that they are collected by the lorries. Since we are monitoring this, will you, as Minister, give careful consideration to those implications? They relate to how the collection method directly affects people and towns such as Llandudno, where it is a little more difficult—this is my appeal on behalf of Conwy—and where it might mean that we need more resources to ensure that we succeed.

1.10 p.m.

**Jane Davidson:** I will be working closely with the Welsh Local Government Association on these issues, so I am sure that the voice of Conwy, as one of the six authorities taking this approach forward, will be clearly heard. We know that councils are doing more and more to establish sustainable waste management services, and fortnightly collections could contribute towards that. One way in which councils could reduce the risk of smells or vermin infestation, which is another concern that people have, is to combine the fortnightly collection of rubbish with the weekly collection of food waste, as food waste is a crucial issue here. In my local authority and that of Janice, Leighton and Christine, namely Rhondda Cynon Taf, there has been some imaginative work on the recycling of food waste, for example. We need to bring all these agendas together. However, I put a plea out to Members: there are hard decisions to make in many of the areas for which I now have responsibility. They are about changing major habits and cultures, but we have to make those changes if we are to be able to take renewable energy forward, cut greenhouse gas emissions and contribute towards addressing climate change.

**Jane Davidson:** Byddaf yn cydweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y materion hyn, felly, yr wyf yn siŵr y clywir llais Conwy yn glir, fel un o'r chwe awdurdod sy'n dwyn yr agwedd hon yn ei blaen. Gwyddom fod cynghorau'n gwneud mwy a mwy i sefydlu gwasanaethau rheoli gwastraff sy'n gynaliadwy, a gallai casglu bob pythefnos gyfrannu tuag at hynny. Un ffordd y gallai cynghorau leihau perygl drewdod neu lygod mawr, sy'n rhywbeth arall sy'n poeni pobl, yw cyfuno'r casgliad sbwriel bob pythefnos â chasglu gwastraff bwyd bob wythnos, gan fod gwastraff bwyd yn fater allweddol yma. Yn fy awdurdod lleol i a Janice, Leighton a Christine, sef Rhondda Cynon Taf, gwnaed tipyn o waith dychmygus gydag ailgylchu gwastraff bwyd, er enghraifft. Mae angen dod â'r holl agendâu hyn at ei gilydd. Fodd bynnag, erfyniaf ar Aelodau: mae penderfyniadau caled i'w gwneud mewn nifer o'r meysydd yr wyf yn awr yn gyfrifol amdanynt. Mae a wnelont â newid arferion a diwylliant oes, ond rhaid inni wneud y newidiadau hynny os ydym i allu mynd ag ynni adnewyddadwy ymlaen, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chyfrannu at ddelio â newid yn yr hinsawdd.

**Alun Cairns:** This is an extremely sensitive policy and many local authorities, of all colours, will no doubt be looking at it in seeking to improve recycling and to reduce their cost base. Many areas are trying out different sorts of pilot schemes, and we already know that the different recycling arrangements across local authorities work to a certain extent in some areas and do not work in others. What plans does the Minister have to bring all of this information together to come up with the best practice for different sorts of communities, urban and rural? Different arrangements may be needed for different housing: it is more difficult to manage the waste problems of flats, for example. What plans does the Minister have to bring all this together and come up with clear guidance for all local authorities so that we operate in the most efficient way possible?

**Alun Cairns:** Mae hwn yn bolisi hynod o sensitif a bydd sawl awdurdod lleol, o bob lliw, yn sicr yn edrych arno wrth geisio gwella ailgylchu a lleihau eu sylfaen gostau. Mae nifer o ardaloedd yn rhoi cynnig ar wahanol fathau o gynlluniau peilot, a gwyddom eisoes fod y gwahanol drefniadau ailgylchu ar draws awdurdodau lleol yn gweithio i ryw raddau mewn rhai ardaloedd ond yn methu mewn ardaloedd eraill. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i grynhoi'r holl wybodaeth hon ynghyd er mwyn dod o hyd i'r arfer gorau ar gyfer gwahanol fathau o gymunedau, trefol a gwledig? Efallai y bydd angen gwahanol drefniadau ar gyfer gwahanol dai: mae'n anoddach rheoli problemau gwastraff fflatiau, er enghraifft. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddod â hyn i gyd ynghyd a dyfeisio canllawiau clir i bob awdurdod lleol fel y byddwn yn gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl?

**Jane Davidson:** Since we launched our waste strategy in 2002, we have provided local authorities with almost £200 million in extra funding. You slipped in that phrase about reducing the cost base, but we know that environmentally friendly waste management is more expensive than traditional, local authority waste management with its reliance on cheap landfill. Councils are spending more on these services but you rightly suggest that we also need to ensure that this is done as efficiently as possible. I will be working with the Welsh Local Government Association, which has a group looking at issues around waste, to ensure that best practice is shared across Wales. When I bring the legislative competence Order to you, we will look to consolidate issues around the Assembly Government's powers and the actions that we can take too. Therefore, there are two exciting opportunities there.

**Jane Davidson:** Ers inni lansio'n strategaeth gwastraff yn 2002, yr ydym wedi darparu bron £200 miliwn o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol. Fe sonioch am leihau'r sylfaen gostau, ond gwyddom fod rheoli gwastraff mewn ffordd sy'n garedig i'r amgylchedd yn ddrutach na dulliau rheoli gwastraff traddodiadol awdurdodau lleol â'u dibyniaeth ar dirlenwi rhad. Mae cynghorau'n gwario mwy ar y gwasanaethau hyn, ond yr ydych yn iawn i awgrymu bod angen hefyd inni sicrhau gwneud hyn mor effeithlon ag y bo modd. Byddaf yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sydd wedi sefydlu grŵp i edrych ar faterion gwastraff, i sicrhau rhannu arferion gorau ar hyd a lled Cymru. Pan ddof â'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ger eich bron, byddwn yn ceisio cydgyfnerthu materion o amgylch pwerau Llywodraeth y Cynulliad a'r hyn y gallwn ni hefyd ei wneud. Felly, mae yan ddau gyfle cyffrous.

**EU Regulations**

**Rheoliadau'r UE**

**Q9 Brynle Williams:** Will the Minister make a statement on her priorities for enforcing EU regulations in Wales relating to agriculture? OAQ(3)0027(SRD)

**C9 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer gorfodi rheoliadau'r UE sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yng Nghymru? OAQ(3)0027(SRD)

**Jane Davidson:** The aim is to ensure that the needs of Welsh farming are reflected within the obligation placed on the Welsh Assembly Government to act in a way that is compatible with EU legislation.

**Jane Davidson:** Y nod yw sicrhau bod anghenion amaethyddiaeth Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y rhwymedigaeth a osodwyd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â deddfwriaeth yr UE.

**Brynle Williams:** As you are aware, European regulations require a TB testing regime for cattle. Those animals that have tested positive, without exception—and I emphasise that—have to be slaughtered. Are you prepared to commit to a decision over the TB reactor at Skanda Vale? If not, what advice will you give to other livestock owners who also have animals that have tested positive for TB?

**Brynle Williams:** Fel y gwyddoch, mae rheoliadau Ewrop yn mynnu trefn i brofi gwartheg am TB. Yn ddieithriad—a phwysleisiaf hynny—rhaid lladd yr anifeiliaid hynny sydd wedi profi'n bositif. A ydych yn barod i ymrwymo i benderfyniad am yr adweithydd TB yn Skanda Vale? Os na, pa gyngor a roddwch i berchnogion da byw eraill sydd hefyd yn berchen ar anifeiliaid sydd wedi profi'n bositif am TB?

**Jane Davidson:** I will be required, in my role as Minister, to take a decision on the TB reactor in Skanda Vale in due course, but I will not take such a decision until I have the appropriate briefing from Assembly

**Jane Davidson:** Bydd gofyn imi, yn fy rôl fel Gweinidog, wneud penderfyniad am yr adweithydd TB yn Skanda Vale maes o law, ond ni wnaf y penderfyniad hwnnw nes byddaf wedi cael y briff priodol gan

Government officials.

swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.

**Brynle Williams:** You are aware that there is a timescale within which animals are supposed to be removed once they have been tested. I am being pressurised by farmers—not by unions or politicians but by cow-keepers who are under restriction. They are concerned that a precedent is being set here. We have waited in anticipation of the Government settling down and getting into a routine to come to a decision. Like most people here, I find this a very unpalatable decision to make, but it has to be made sooner rather than later.

**Brynle Williams:** Gwyddoch fod amserlen ar gyfer symud anifeiliaid ar ôl iddynt gael eu profi. Mae ffermwyr yn pwyso arnaf—nid undebau na gwleidyddion, ond perchnogion buchod sydd dan gyfyngiad. Maent yn bryderus fod cynsail yn cael ei gosod yma. Yr ydym wedi aros gan ddisgwyl y byddai’r Llywodraeth yn setlo i lawr ac yn cael trefn ar bethau er mwyn gwneud penderfyniad. Fel y rhan fwyaf o’r bobl sydd yma, credaf fod y penderfyniad hwn yn un annymunol iawn i’w wneud, ond rhaid ei wneud cyn gynted â phosibl.

**Jane Davidson:** I am sure that those officials and lawyers that will advise me will be fully aware of the pressure of time. However, any decision made by this Assembly Government can only be challenged in the courts, and therefore it is important that I take a decision based on the best possible advice.

**Jane Davidson:** Yr wyf yn siŵr y bydd y swyddogion a’r cyfreithwyr hynny a fydd yn fy nghynghori yn gwbl ymwybodol o bwysau amser. Fodd bynnag, dim ond yn y llysoedd y gellir herio unrhyw benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad, ac o’r herwydd mae’n bwysig imi seilio fy mhenderfyniad ar y cyngor gorau posibl.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae gennyf gwestiwn mwy cyffredinol ar fater TB mewn gwartheg yng Nghymru. Fel y gwyddoch, mae hon yn broblem sy’n cynyddu, ac, yn fy etholaeth, mae nifer o fannau twym lle mae ffermydd yn cael eu heffeithio ac yn methu cyflawni eu busnes arferol oherwydd y problemau yn ymwneud â TB mewn gwartheg. Yn ôl y wasg, mae’n debyg y bydd y Gweinidog yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn San Steffan yn gwneud datganiad yr wythnos nesaf ynglŷn â’r modd y mae TB yn ymledu drwy fywyd gwyllt yn y Deyrnas Unedig. A ydych wedi cynnal trafodaethau gyda’r Gweinidog yn DEFRA, a beth yw eich bwriadau wrth ymdrin â’r broblem hon er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei rheoli yng Nghymru, gan arwain at sefyllfa lle y gallwn sicrhau ei bod yn cael ei dileu yn y pen draw?

**Rhodri Glyn Thomas:** I have a more general question on the issue of bovine TB in relation to Wales. As you will be aware, this is an increasing problem, and in my constituency there are several hot spots where farms have been affected and where it is not business as usual because of the problems relating to bovine TB. According to press reports, the Minister in the Department for Environment, Food and Rural Affairs in Westminster will make a statement next week on the way TB is spread by wildlife in the United Kingdom. Have you had discussions with the DEFRA Minister, and what do you intend to do to tackle this issue and ensure that bovine TB is controlled in Wales, leading to a situation where we can ensure that it is eradicated eventually?

**Jane Davidson:** My officials are in very close touch with DEFRA, as they are in terms of other parts of the UK, because issues around animal health do not respect national boundaries. I will meet Ministers from across the UK in London on Monday, and I am sure that this issue will be raised.

**Jane Davidson:** Mae fy swyddogion mewn cysylltiad agos iawn â DEFRA, fel y maent o ran rhannau eraill o’r Deyrnas Unedig, oherwydd nid yw materion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid yn parchu ffiniau cenedlaethol. Byddaf yn cyfarfod â Gweinidogion o bob rhan o’r DU yn Llundain ddydd Llun, ac yr wyf yn siŵr y caiff y mater hwn ei godi.

## Canllawiau Cynllunio

**C10 Alun Ffred Jones:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu canllawiau cynllunio? OAQ(3)0010(SRD)

**Jane Davidson:** Mae'r polisïau cynllunio ar gyfer Cymru wedi'u pennu yn y ddogfen 'Polisi Cynllunio Cymru' ac yn y ddogfen 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru', a gyhoeddwyd yn 2002 a 2000 yn y drefn honno, ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae datblygu'r polisïau hyn yn broses barhaus er mwyn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau sy'n newid, canfyddiadau gwaith ymchwil, newidiadau yn y ddeddfwriaeth ac amcanion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae gennyf gwestiwn fwy cyffredinol ar fater TB mewn gwartheg yng Nghymru. Fel y gwyddoch, mae hon yn broblem sy'n cynyddu, ac, yn fy etholaeth, mae nifer o fannau twym lle mae ffermydd yn cael eu heffeithio ac yn methu cyflawni eu busnes arferol oherwydd y problemau yn ymwneud â TB mewn gwartheg. Yn ôl y wasg, mae'n debyg y bydd y Gweinidog yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn San Steffan yn gwneud datganiad yr wythnos nesaf ynglŷn â'r modd y mae TB yn ymledu drwy fywyd gwyllt yn y Deyrnas Unedig. A ydych wedi cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog yn DEFRA, a beth yw eich bwriadau wrth ymdrin â'r broblem hon er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei rheoli yng Nghymru, gan arwain at sefyllfa lle y gallwn sicrhau ei bod yn cael ei dileu yn y pen draw?

**Alun Ffred Jones:** Mae'n dda clywed bod yr holl faterion hyn yn cael eu hailystyried yn gyson. Un o'r pethau sydd wedi newid yw'r sefyllfa dai, gan fod llai o bobl ifanc erbyn hyn yn gallu prynu tai, a hynny fel prynwyr am y tro cyntaf. Un o'r rhesymau dros hynny yw bod prisiau tir yn aml gyfuwch â 40 y cant o bris codi tŷ am y tro cyntaf, a gall fod yn fwy na hynny. Oherwydd bod hynny'n ffaith ac yn ganlyniad i'r drefn gynllunio bresennol, a ydych yn barod i adolygu'r canllawiau cynllunio er mwyn sicrhau bod mwy o dir rhad yn dod ar gael ar gyfer codi tai i brynwyr am y tro cyntaf yn arbennig?

## Planning Guidelines

**Q10 Alun Ffred Jones:** Does the Minister have any plans to review planning guidelines? OAQ(3)0010(SRD)

**Jane Davidson:** Planning policies for Wales are set out in 'Planning Policy Wales' and 'Minerals Planning Policy Wales', published in 2002 and 2000 respectively, and are subject to continual review. Developing these policies is an ongoing process to accommodate changing circumstances, research findings, legislative changes and the Assembly Government's objectives for Wales.

**Rhodri Glyn Thomas:** I have a more general question on the issue of bovine TB in relation to Wales. As you will be aware, this is an increasing problem, and in my constituency, there are several hot spots where farms have been affected and where it is not business as usual because of the problems related to bovine TB. According to press reports, the Minister in the Department for Environment, Food and Rural Affairs in Westminster will make a statement next week on the way in which TB is spread by wildlife in the United Kingdom. Have you had discussions with the DEFRA Minister, and what do you intend to do in order to tackle this issue and ensure that bovine TB is controlled in Wales so that we eventually find ourselves in a situation where it is eradicated?

**Alun Ffred Jones:** It is good to hear that these matters are regularly revisited. One thing that has changed is the position regarding housing, with fewer young people able to access the housing market as first-time buyers. One of the reasons for that is that land prices are often as much as, and more than, 40 per cent of the price of a new build. Given that fact, which is the result of the current planning system, are you prepared to review planning guidelines in order to ensure that more inexpensive land becomes available for new builds, particularly for first-time buyers?

**Jane Davidson:** I am sure that my colleague, Leighton Andrews, will be very interested in taking forward the whole agenda on affordable housing, and we will be working cross-departmentally on issues around land, planning and housing for the future. As a Labour Government, we have already given a commitment to legislating on issues around affordable housing.

**Jane Davidson:** Yr wyf yn siŵr y bydd gan fy nghydweithiwr, Leighton Andrews, ddiddordeb mawr mewn bwrw ymlaen â'r agenda tai fforddiadwy yn ei chyfanrwydd, a byddwn yn gweithio ar draws yr adrannau ar faterion yn ymwneud â thir, cynllunio a thai ar gyfer y dyfodol. Fel Llywodraeth Lafur, yr ydym eisoes wedi ymrwymo i ddeddfu ar faterion sy’n gysylltiedig â thai fforddiadwy.

**Darren Millar:** Since May 2006, there have been some 24 planning applications for the conversion or redevelopment of individual properties into flats and apartments in the town of Colwyn Bay in my constituency. This has amounted to a net increase of over 200 dwellings in that period. North Wales Police, Conwy County Borough Council social services department and the local town council are all in agreement that this wide-scale redevelopment is negatively impacting on the centre of Colwyn Bay socially and as a result of the severe infrastructural demands that it places on the town. Do you agree that in areas where there is a demonstrably sufficient amount of housing available, there should be limits placed on the redevelopment of individual properties into flats and apartments, and, furthermore, local development plans should include guidance on this matter?

**Darren Millar:** Er mis Mai 2006, cafwyd rhyw 24 o geisiadau cynllunio i addasu neu ailddatblygu tai unigol yn fflatiau ac yn rhandai yn nhref Bae Colwyn yn fy etholaeth i. Mae hyn wedi arwain at gynnydd net o fwy na 200 o anheddau yn y cyfnod hwnnw. Mae Heddlu Gogledd Cymru, adran gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a’r cyngor tref lleol oll yn gytûn fod yr ailddatblygu hwn, ar raddfa mor eang, yn cael effaith negyddol ar ganol Bae Colwyn o safbwynt cymdeithasol, ac oherwydd y gofynion trwm y mae’n eu gosod ar y dref, o safbwynt isadeiledd. A gytunwch y dylid gosod cyfyngiadau ar y broses o ailddatblygu eiddo unigol yn fflatiau ac yn rhandai mewn ardaloedd lle mae'n amlwg bod digon o dai ar gael, ac yn ogystal â hyn, y dylai cynlluniau datblygu lleol gynnwys arweiniad ar y mater hwn?

1.20 p.m.

**Jane Davidson:** The responsibility for local development plans lies with local authorities. I cannot comment on individual planning applications as they may well come before the Minister for determination. However, an opportunity to look at appropriate policies for each local area is contained in the development of local development plans.

**Jane Davidson:** Awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am gynlluniau datblygu lleol. Ni allaf wneud sylwadau am geisiadau cynllunio unigol oherwydd mae’n ddigon posibl y deuant ger bron y Gweinidog i’w penderfynu. Fodd bynnag, mae cyfle i edrych ar bolisïau priodol ar gyfer pob ardal leol wrth ddatblygu cynlluniau datblygu lleol.

**Jenny Randerson:** With regard to retrospective planning applications, it is becoming increasingly obvious in my constituency that some developers routinely develop first and apply for planning consent later. They are legally allowed to do that. Minister, have you considered the issue in the round, and will you consider introducing new guidelines and regulations to ensure that those who routinely flout the planning laws and who make retrospective applications pay

**Jenny Randerson:** O ran ceisiadau cynllunio ôl-weithredol, mae’n dod yn fwyfwy amlwg yn fy etholaeth i fod rhai datblygwyr yn rheolaidd yn datblygu i ddechrau ac yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio wedyn. Mae ganddynt hawl gyfreithiol i wneud hynny. Weinidog, a ydych wedi ystyried y mater yn ei gyfanrwydd, ac a ystyriwch gyflwyno canllawiau a rheoliadau newydd i sicrhau bod y rheini sy’n diystyru'r deddfau cynllunio yn rheolaidd, a'r rheini sy'n gwneud

some sort of penalty for doing so, perhaps, at the very least, an increased application fee?

ceisiadau ôl-weithredol, yn cael rhyw fath o gosb am wneud hynny, ac o leiaf yn gorfod talu ffioedd ceisiadau uwch efallai?

**Jane Davidson:** I am sure that, seeing all the nodding heads in the Chamber while you were speaking, many Members have had to deal with the kind of situation you described. I am therefore happy to say that I will ask officials to look at this, and I will write to you.

**Jane Davidson:** O weld yr holl bennau'n amneidio yn y Siambr pan oeddech yn siarad, yr wyf yn siŵr bod nifer o Aelodau wedi gorfod delio â'r math hwn o sefyllfa a ddisgrifiech. Yr wyf, felly, yn falch dweud y byddaf yn gofyn i swyddogion edrych ar hyn, a byddaf yn ysgrifennu atoch.

**Y Llywydd:** Grwpiwyd cwestiwn 11 gyda chwestiwn 7, a grwpiwyd cwestiwn 12 gyda chwestiwn 2.

**The Presiding Officer:** Question 11 was grouped with question 7, and question 12 was grouped with question 2.

**Lles Anifeiliaid**

**Livestock Welfare**

**C13 Rhodri Glyn Thomas:** Pryd fydd y Gweinidog yn cyfarfod nesaf gyda Gweinidogion y DU i drafod materion lles anifeiliaid? OAQ(3)0059(SRD)

**Q13 Rhodri Glyn Thomas:** When will the Minister next meet with UK Ministers to discuss livestock welfare issues? OAQ(3)0059(SRD)

Gwn eich bod wedi ateb y cwestiwn unwaith a taw 'wythnos nesaf' yw'r ateb, ond yr oedd yn rhaid imi ofyn y cwestiwn.

I know you have already answered this question once and that the answer is 'next week', but I was obliged to ask the question.

**Jane Davidson:** Nid oes gennyf gyfarfodydd penodol wedi'u trefnu gyda Gweinidogion y DU i drafod materion yn ymwneud â lles da byw. Byddaf yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidogion y DU, ac mae'n bosibl y byddwn yn trafod y mater hwn. Mae swyddogion o'r pedair gwlad yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn rhoi gwybodaeth i'w Gweinidogion. Er hynny, fel y dywedais, byddaf yn cwrdd â Gweinidogion o bob rhan o Brydain yr wythnos nesaf.

**Jane Davidson:** I have no specific meetings scheduled with UK Ministers to discuss livestock welfare issues. I will hold regular meetings with UK Ministers, which may include this subject. Officials meet regularly across all four nations to inform their respective Ministers. Having said that, as I have already said, I shall be meeting Ministers from all parts of Britain next week.

**Rhodri Glyn Thomas:** Gan ddychwelyd at fater TB mewn gwartheg, derbyniaf yr hyn a ddywedasoch yn eich ateb i gwestiwn atodol gennyf i ynghynt, ond gobeithiaf y gwyddoch pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa, yn enwedig yn yr ardaloedd sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth, ac yn y maes llaeth yn benodol. Mae canfyddiad bod y Llywodraeth Lafur flaenorol yn amharod i hyd yn oed ystyried y posibilrwydd o ddifa moch daear. Dywedwch eich bod yn Weinidog sy'n dibynnu ar dystiolaeth; pe bai'r dystiolaeth yn glir fod gan foch daear ran allweddol yn y broses o ledaenu TB ym mywyd gwyllt Cymru, a fyddech yn barod i ystyried, a hyd yn oed

**Rhodri Glyn Thomas:** To return to the issue of bovine TB, I accept what you said in response to my earlier supplementary question, but I hope you appreciate the seriousness of the situation, especially in areas that depend on agriculture, and more particularly in the dairy industry. There is a perception that the previous Labour Government was not prepared to even consider the possibility of culling badgers. You say you are a Minister who relies on evidence. Therefore, if it was to become clear that badgers play a key role in the spreading of TB within the wildlife population in Wales, would you be prepared

wneud, y penderfyniad hwnnw?

to consider, and even make, that decision?

**Jane Davidson:** We will need to see what evidence there is. One of the challenges for any Minister holding this portfolio is that you do not just have responsibility for animal health, but you also have responsibility for the environment and wildlife.

**Jane Davidson:** Bydd angen inni weld pa dystiolaeth sydd ar gael. Un her sy'n wynebu unrhyw Weinidog sydd â'r portffolio hwn yw bod gennych gyfrifoldeb am yr amgylchedd ac am fywyd gwyllt, yn ogystal ag am iechyd anifeiliaid.

**Brynle Williams:** Ar y mater hwnnw, gan eich bod wedi dweud eich bod eisiau tystiolaeth, yr oedd enghraifft yn sir Benfro ryw wyth mlynedd yn ôl lle lladdwyd 300 o wartheg. Cymerodd hi dri mis i ailstocio, a hynny gyda gwartheg oedd wedi cael profion er mwyn sicrhau eu bod yn rhydd o TB. Yr unig beth y gwnaethpwyd dim byd yn ei gylch oedd bywyd gwyllt. O ganlyniad, cafodd y 300 hynny o wartheg eu difa hefyd y llynedd. Os nad yw hynny'n ddigon o dystiolaeth, beth fyddai'n ddigon? Yr ydym wedi chwarae o gwmpas gyda hyn yn ddigon hir erbyn hyn, ac mae'n amser inni fynd at hyn o ddifrif. Nid oes neb eisiau lladd moch daear, ond rhaid inni sylweddoli bod yn rhaid inni wneud rhywbeth ynghylch y clwyf hwn sy'n lledu drwy Gymru gyfan. Gobeithiaf y gwnewch chi symud ymlaen yn gyflym.

**Brynle Williams:** On the same point, given that you said that you require evidence, there was an example in Pembrokeshire some eight years ago where 300 cattle were culled. It took the farmer three months to restock, and these were cattle that had been tested and proved free of TB. The only aspect not tackled at the time was the wildlife question. As a result, the new stock also had to be culled, and that was carried out last year. If that is not adequate evidence, what does constitute adequate evidence? We have played around with the problem long enough, and it is now time for us to address the matter seriously. No-one wants to see all badgers culled, but we must recognise that steps must be taken to deal with a disease which is spreading throughout the whole of Wales. I hope you will move forward quickly on this matter.

**Jane Davidson:** The previous Minister established a special group to specifically look at issues around bovine TB, because this Government understands the serious nature of the problem. There is no argument about the serious nature of bovine TB. However, there have been different arguments about how we should deal with many of the issues. I will undertake to look at all of the arguments and work with Assembly Members in finding the best outcome for Wales.

**Jane Davidson:** Sefydlodd y Gweinidog blaenorol grŵp arbennig i edrych ar faterion yn ymwneud yn benodol â TB mewn gwartheg, oherwydd mae'r Llywodraeth hon yn deall natur ddifrifol y broblem. Nid oes dadl ynghylch natur ddifrifol TB mewn gwartheg. Fodd bynnag, cafwyd gwahanol ddadleuon ynghylch sut y dylem ddelio â nifer o'r problemau. Byddaf yn ymgymryd â'r gwaith o edrych ar yr holl ddadleuon, ac yn gweithio gydag Aelodau'r Cynulliad i gael y canlyniad gorau i Gymru.

### The Dairy Industry

### Y Diwydiant Llaeth

**Q14 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on measures to support the dairy industry? OAQ(3)0037(SRD)

**C14 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau i gefnogi'r diwydiant llaeth? OAQ(3)0037(SRD)

**Jane Davidson:** Consultation responses on a strategic action plan for the Welsh dairy industry are being considered. The plan will set out activities to be taken forward through a partnership between the Welsh Assembly Government, the Milk Development Council

**Jane Davidson:** Mae ymatebion i ymgynghori ar gynllun strategol ar gyfer diwydiant llaeth Cymru yn cael eu hystyried. Bydd y cynllun yn gosod allan weithgareddau a fydd yn digwydd mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Cyngor

and the industry to ensure a viable and sustainable dairy industry in Wales.

Datblygu Llaeth a'r diwydiant er mwyn sicrhau diwydiant llaeth cynaliadwy a dichonadwy yng Nghymru.

**Mark Isherwood:** Women's Institute members voted at their annual general meeting in 2005 to raise public awareness of the unfair difference between the retail price of milk and the price paid to the farmer. In April, I had the privilege of speaking in Mold at the Women's Institute and Farmers Union of Wales Great Milk Debate, one of a series of debates held nationwide, as I am sure that you are aware. Following this, and further to points raised by the audience on the nights—which was a strictly non-party political event, as I am sure that you are aware—what action do you propose to establish a new code of conduct between supermarkets and suppliers, and to establish a new strategy for the Welsh dairy sector in close consultation with the farming unions?

**Mark Isherwood:** Pleidleisiodd aelodau o Sefydliad y Merched yn eu cyfarfod cyffredinol blynyddol yn 2005 i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwahaniaeth annheg ym mhris adwerthu llaeth o'i gymharu â'r pris a delir i'r ffermwr. Ym mis Ebrill, cefais yr anrhydedd o fynd i'r Wyddgrug i siarad yn Nadl Fawr Sefydliad y Merched ac Undeb Amaethwyr Cymru ynghylch llaeth—un o gyfres o ddadleuon a gynhelir yn genedlaethol, fel y gwyddoch, yr wyf yn siŵr. Yn dilyn hyn, ac i ychwanegu at y pwyntiau a godwyd gan y gynulleidfa ar y nosweithiau—nid oedd gan y digwyddiad ddim oll i'w wneud â phleidiau gwleidyddol, fel y gwyddoch yr wyf yn siŵr—pa gamau yr ydych yn eu cynnig i sefydlu cod ymddygiad newydd rhwng archfarchnadoedd a chyflenwyr, ac i sefydlu strategaeth newydd ar gyfer sector llaeth Cymru drwy ymgynghori'n agos ag undebau'r ffermwyr?

**Jane Davidson:** We are already on the way in terms of a strategic action plan for the Welsh dairy industry that will look at creating a dairy industry that is strong, dynamic, enthusiastic and optimistic. That is an important agenda. I fully understand that morale has declined. The average farm-gate price for milk delivered in March 2007 was 17.75p per litre, and similarly last year was 18.11p per litre. Therefore, I realise the challenges faced by the dairy industry. We are keen to look at how we have the large world-class processing facilities producing commodity products and high volumes of added-value products supplied by high-performing, highly skilled dairy farmers producing milk profitably and professionally. We are also keen to look at the strong, vibrant niche processing sector with the many scale and on-farm processors trading off niche attributes such as organic Welsh identity, local providence and tradition. Therefore, we want to continue to work along both routes, and we also want to see what interventions we can make, where appropriate, with supermarkets.

**Jane Davidson:** Yr ydym eisoes ar ben ffordd i gael cynllun gweithredu strategol ar gyfer diwydiant llaeth Cymru—cynllun a fydd yn edrych ar greu diwydiant llaeth cryf, deinamig, brwdfrydig ac optimistaidd. Mae'r agenda honno'n bwysig. Yr wyf yn deall yn llwyr fod morâl wedi disgyn. Ym mis Mawrth 2007, ar gyfartaledd 17.75c y litr oedd pris llaeth wrth gât y fferm, ac 18.11c y litr y llynedd. Yr wyf, felly, yn deall y sialensiau sy'n wynebu'r diwydiant llaeth. Yr ydym yn awyddus i edrych ar y ffordd y gallwn gael y cyfleusterau prosesu mawr o safon fyd-eang i gynhyrchu bwydydd a nifer fawr o gynhyrchion gwerth ychwanegol sy'n cael eu cyflenwi gan ffermwyr medrus a llwyddiannus iawn sy'n cynhyrchu llaeth mewn ffordd broffesiynol ac sy'n gwneud elw. Yr ydym hefyd yn awyddus i edrych ar y sector prosesu cryf a ffyniannus sydd yn y farchnad arbenigol, gyda nifer o broseswyr—sydd naill ai'n prosesu ar y fferm neu ar raddfa fawr—yn masnachu ar sail nodweddion arbenigol, megis delwedd Gymreig organig, tarddiad lleol a thraddodiad. Felly, yr ydym yn awyddus i ddal i ddilyn y ddau lwybr, a gweld hefyd pa ymyriadau y gallwn eu gwneud gydag archfarchnadoedd, lle mae hynny'n briodol.

**Prosiectau Ynni**

**C15 David Lloyd:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Gweinidogion y Deyrnas Unedig ynglŷn â chanllawiau cynllunio ar gyfer prosiectau ynni? OAQ(3)0008(SRD)

**Energy Projects**

**Q15 David Lloyd:** What discussions has the Minister had with UK Ministers regarding planning guidelines for energy projects? OAQ(3)0008(SRD)

**Jane Davidson:** As a matter of policy, the Welsh Assembly Government is seeking to secure the devolution of responsibility for decision making on major energy projects to Wales. I will be meeting the Secretary of State for Trade and Industry to discuss this issue.

**Jane Davidson:** Fel mater o bolisi, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio sicrhau datganoli'r cyfrifoldeb dros lunio penderfyniadau ynghylch prosiectau ynni allweddol i Gymru. Byddaf yn cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant i drafod y mater hwn.

**David Lloyd:** A fyddech yn cefnogi'r alwad am ymchwiliad cyhoeddus i holl gynllun y bibell nwy naturiol hylifedig yn ne Cymru?

**David Lloyd:** Would you support the call for a public inquiry into the liquefied natural gas pipeline scheme in Wales?

**Jane Davidson:** I cannot currently comment on a specific project that is ongoing, but I am happy to write to you about it.

**Jane Davidson:** Ni allaf wneud sylwadau am brosiect penodol sydd ar y gweill ar hyn o bryd, ond byddwn yn falch o ysgrifennu atoch yn ei gylch.

**Darren Millar:** I hope that you are aware of the innovative offshore tidal impoundment scheme that is being proposed for positioning off the coast of Kinmel Bay in my constituency. It is a scheme that is worthy of serious study and one which would represent a strategically vital contribution from north Wales in building up coastal capacity to anticipate the twenty-first century energy challenge and, of course, to protect the local coast from the sort of flooding that it experienced some years ago.

In your response to Dai Lloyd, you referred to the devolvement of powers from Westminster. Is there a potential timescale that you can attach to the devolvement of those powers so that I can reassure my constituents that this sort of scheme can have the green light from the Welsh Assembly Government?

**Darren Millar:** Gobeithio eich bod yn ymwybodol o'r cynllun cronni llanw arloesol y bwriedir ei leoli oddi ar y lan ym Mae Cinmel yn fy etholaeth. Mae'n gynllun sy'n haeddu ei astudio o ddifrif, a byddai'n gyfraniad strategol hanfodol gan y Gogledd wrth gynyddu gallu'r arfordir i gynhyrchu er mwyn achub y blaen ar her ynni'r unfed ganrif ar hugain ac, wrth gwrs, i amddiffyn yr arfordir lleol rhag y llifogydd a ddigwyddodd yma rai blynyddoedd yn ôl.

Wrth ymateb i Dai Lloyd, cyfeiriech at ddatganoli grym o San Steffan. A oes amserlen bosibl y gallwch ei chysylltu â datganoli'r grymoedd hynny, er mwyn imi allu sicrhau fy hetholwyr y gall y math hwn o gynllun gael sêl bendith Llywodraeth Cynulliad Cymru?

1.30 p.m.

**Jane Davidson:** It would be hard for you to reassure your constituents on any individual scheme that has not been fully tested against whether it is delivering, whether it reduces greenhouse gases, whether it is commercially

**Jane Davidson:** Byddai'n anodd i chi sicrhau eich etholwyr am unrhyw gynllun unigol sydd heb ei brofi'n llawn i weld a yw'n llwyddo, a yw'n lleihau nwyon tŷ gwydr, a yw'n ymarferol yn fasnachol ac yn

and technically viable, and so on. That is the point of the work by the Sustainable Development Commission in looking at issues around tidal power.

dechnegol, ac yn y blaen. Dyna yw diben gwaith y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wrth edrych ar faterion yn ymwneud â phŵer y llanw.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ateb pob cwestiwn ar y rhestr.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister, for answering all the questions on the agenda.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
## Questions to the Minister for Education, Culture and Welsh Language

### GCSE Attainment Levels

### Lefelau Cyrhaeddiad mewn TGAU

**Q1 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on attainment levels at GCSE in Wales? OAQ(3)0001(ECW)

**C1 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau cyrhaeddiad mewn TGAU yng Nghymru? OAQ(3)0001(ECW)

**The Minister for Education, Culture and the Welsh Language (Carwyn Jones):** Performance has improved year on year since 1998, and the percentage of pupils gaining five or more good GCSEs rose by six percentage points to reach 54 per cent in 2006.

**Y Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg (Carwyn Jones):** Mae'r perfformiad wedi gwella bob blwyddyn er 1998, a chynyddodd canran y disgyblion sy'n cael pump neu ragor o raddau TGAU da chwe phwynt canran i 54 y cant yn 2006.

**Mark Isherwood:** In January, Estyn stated that it was concerned by the low number of pupils leaving school in Wales with good qualifications in core GCSE subjects. Last week, Assembly Government figures were released that showed that the proportion of teenagers getting five good GCSEs in Wales is lower than in England, and that more Welsh teenagers were leaving school at the age of 16 without any qualifications at GCSE or GNVQ level than their English counterparts. A spokesperson for the Assembly Government was quoted as saying,

**Mark Isherwood:** Ym mis Ionawr, mynegwyd pryder gan Estyn am nifer isel y disgyblion yng Nghymru a oedd yn gadael yr ysgol gyda chymwysterau da ym mhynciau craidd TGAU. Yr wythnos diwethaf, dangosodd ffigurau a ryddhawyd gan Lywodraeth y Cynulliad fod cyfran y bobl ifanc yng Nghymru sy'n cael pum gradd TGAU dda yn is nag yn Lloegr, a bod mwy o blant Cymru yn ei harddegau'n gadael yr ysgol yn 16 oed heb ddim cymwysterau TGAU na GNVQ o'u cymharu â'u cyd-ddisgyblion yn Lloegr. Yn ôl llefarydd ar ran Llywodraeth y Cynulliad,

'we must look beyond our own borders to challenge what we are doing and identify how we might do better'.

rhaid i ni edrych y tu hwnt i'n ffiniau ein hunain er mwyn herio'r hyn a wnawn ac i nodi sut y gallwn wneud yn well.

What does that mean, and what practical action do you propose in this respect?

Beth a olygir wrth hyn, a pha gamau ymarferol y bwriadwch eu cymryd yn y chyswllt hwn?

**Carwyn Jones:** We have undertaken a review of the school curriculum and assessment arrangements to focus on a more skills-based approach, and that will be introduced in September 2008. We have taken powers to promote transition planning,

**Carwyn Jones:** Yr ydym wedi cynnal adolygiad o'r cwricwlwm ysgol a'r trefniadau asesu er mwyn canolbwyntio ar ddull sy'n fwy seiliedig ar sgiliau. Cyflwynir hynny ym mis Medi 2008. Yr ydym wedi defnyddio pwerau i hybu cynlluniau pontio, fel y gellir

so that the good performance that we have at key stage 2 in Wales is carried through to key stage 3 and key stage 4. We have developed the Aiming for Excellence at Key Stage 3 programme for raising standards in that area, and it has brought about significant improvements in literacy and numeracy. We have a proposal for legislation for 14 to 19-year-olds through learning pathways, and we have RAISE, raising attainment and individual standards in education in Wales, which focuses on breaking the link between deprivation and low attainment.

mynd â'r perfformiad da yng nghyfnod allweddol 2 yng Nghymru ymlaen i gyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Yr ydym wedi datblygu'r rhaglen Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3 er mwyn codi safonau yn y maes hwnnw, ac mae wedi sicrhau gwelliannau sylweddol mewn llythrennedd a rhifedd. Mae gennym gynnig i geisio deddfwriaeth ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed drwy lwybrau dysgu, ac mae gennym y cynllun Rhagori, sef codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad isel.

**Alun Davies:** Will the Minister confirm that he has no plans to introduce academic selection in Wales?

**Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nad oes ganddo gynlluniau i gyflwyno proses o ddewis yn ôl gallu academaidd yng Nghymru?

**Carwyn Jones:** None whatsoever.

**Carwyn Jones:** Dim o gwbl.

**Alun Davies:** Thank you for that reply, which came quicker than I had anticipated. I am delighted to hear that, particularly in light of the comments made by the newly appointed Conservative spokesman for education, who said on his blog on 21 May that 'we have always supported selection'. He goes on to make a somewhat plaintive plea for selection.

**Alun Davies:** Diolch yn fawr am eich ateb, a ddaeth lawer ynghynt nag oeddwn wedi ei ddisgwyl. Yr wyf yn falch iawn clywed hynny, yn enwedig yn dilyn y sylwadau a wnaed gan lefarydd newydd y Ceidwadwyr ar addysg. Yn ei flog ar 21 Mai, dywedodd eu bod wedi cefnogi dewis ar sail gallu erioed. Aiff ymlaen i ddadlau'n gwynfanus dros ddewis ar sail gallu.

'How will we…satisfy our core principle of selection?'

Sut allwn ni...gyflawni ein hegwyddor graidd o ddewis ar sail gallu?

Perhaps you agree with me, Minister, that his best opportunity is to join with Plaid and the Liberals so that they put him in charge of Welsh education and throw thousands of Welsh schoolchildren back on to the rubbish heap.

Efallai y cytunwch â mi, Weinidog, mai ei gyfle gorau yw ymuno â Phlaid Cymru a'r Democratiaid fel y gallant ei wneud yn gyfrifol am addysg yng Nghymru a thaflu miloedd o ddisgyblion Cymru yn ôl ar y domen sbwriel.

**Carwyn Jones:** The twists and turns that we have seen within the Conservative Party on this issue show just how unfit they are to govern, both in London and Cardiff.

**Carwyn Jones:** Mae'r holl ansicrwydd yn y Blaid Geidwadol ar y mater hwn wedi dangos nad ydynt yn addas i lywodraethu, nac yn Llundain nac yng Nghaerdydd.

**Nerys Evans:** Yr oedd y ffigurau y cyfeiriodd Mark Isherwood atynt hefyd yn dangos gwahaniaethau mawr yn y canlyniadau TGAU dros gymunedau Cymru. Er ein bod yn falch nad oes gennym dablau swyddogol yng Nghymru, dangosodd y data wahaniaethau sylfaenol rhwng ardaloedd cefnog maestrefol ac ardaloedd difreintiedig.

**Nerys Evans:** The figures that Mark Isherwood referred to also showed huge differences in GCSE results throughout communities in Wales, and although we are pleased that we do not have official league tables in Wales, the data have shown basic differences between wealthy urban areas and disadvantaged areas. What work does the

Pa waith y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgymryd ag ef i ddadansoddi'r canlyniadau hyn yn fwy manwl? A fyddai'r Gweinidog yn barod i ystyried y posibilrwydd o ddileu'r system bresennol TGAU a Lefel Uwch a chyflwyno bagloriaeth ehangach?

**Carwyn Jones:** Mae'r fagloriaeth Gymreig wrthi'n cael ei datblygu, a byddai honno'n rhan o unrhyw ddeddfwriaeth a ddaw gerbron y Cynulliad o ran y strwythur addysg 14-19. Mae'n rhan o'r holl gynlluniau. O ran y problemau mewn ardaloedd difreintiedig, soniais am y rhaglen Rhagori sydd gennym, a buddsoddwyd £16 miliwn ynddi i sicrhau—fel mae'r enw Saesneg yn awgrymu—fod safonau yn codi ymhlith y grŵp hwnnw o bobl sydd yn y gorffennol heb wneud cystal â'r boblogaeth gyffredinol. Mae'n bwysig inni fel plaid sicrhau ein bod yn torri'r cyswllt rhwng y sawl sy'n ddifreintiedig a diffyg cymwysterau.

**Jeff Cuthbert:** Minister, do you agree that, while it is important that young people in Wales get the best results that they can in the work that they are pursuing, whether academic or vocational, it is also right that we do not focus only on the issue of achievement at GCSE and A-level? We should also focus on ensuring that young people have the appropriate vocational route available to them and ensure that that is part of our policy of ensuring parity of esteem by offering a realistic choice between academic and vocational education throughout the 14-19 learning pathways, as is right for that child.

**Carwyn Jones:** I could not agree more, Jeff. Going back to 1999, the publication of the education and training action plan first raised the need to ensure parity of esteem between the academic and the vocational. Much has been done in the meantime to seek to achieve that, but it is also right to say that more needs to be done.

In other countries, the vocational and the academic have that parity and those countries tend to do better at developing the right level of skills for their people. We must continue to ensure that vocational qualifications are seen as being as valid, which they clearly are, as attainable and as valuable as academic

Government intend to undertake to analyse these results in more detail? Would the Minister be prepared to look at the possibility of scrapping the current GCSE and A-level system and introducing a new, broader baccalaureate qualification?

**Carwyn Jones:** The Welsh baccalaureate is being developed and would form part of any legislation brought before the Assembly on the structure of 14-19 education. That is all in place. Regarding the problems with disadvantaged areas, I mentioned the RAISE programme which we have in place, and £16 million has been invested in that to ensure, as the English name suggests, that standards are raised for that group of people who, in the past, have not done as well as people in general. It is important for us as a party to ensure that we break the link between deprivation and lack of qualifications.

**Jeff Cuthbert:** Weinidog, a ydych yn cytuno, er ei bod hi'n bwysig i bobl ifanc yng Nghymru gael y canlyniadau gorau posibl yn yr hyn a wnânt, boed mewn yn academaidd neu'n alwedigaethol, oni ddylem beidio â chanolbwyntio'n unig ar gyflawniadau TGAU a Safon Uwch? Dylem hefyd ganolbwyntio ar sicrhau bod y llwybr galwedigaethol priodol ar gael i bobl ifanc, a gwneud yn siŵr bod hynny'n rhan o'n polisi o sicrhau parch cydradd drwy gynnig dewis realistig rhwng addysg academaidd ac addysg alwedigaethol drwy gydol y llwybrau dysgu 14-19, fel sy'n briodol i'r plentyn hwnnw.

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn cyd-fynd yn llwyr â chi, Jeff. Pan gyhoeddwyd y cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant ym 1999, tynnwyd sylw am y tro cyntaf fod angen sicrhau parch cydradd rhwng cymwysterau academaidd a rhai galwedigaethol. Gwnaethpwyd camau breision yn y cyfamser i geisio sicrhau hyn, ond mae'n wir dweud hefyd bod angen gwneud mwy.

Mewn gwledydd eraill, mae'r un parch i gymwysterau academaidd a rhai galwedigaethol, ac mae'r gwledydd hynny'n dueddol o wneud yn well wrth ddatblygu'r lefel iawn o sgiliau ymysg eu pobl. Rhaid i ni barhau i sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn cael eu hystyried yn

qualifications.

gymwysterau dilys—ac mae'n amlwg eu bod—eu bod o fewn cyrraedd a'r mor werthfawr â chymwysterau academaidd.

**Further Education Colleges**

**Colegau Addysg Bellach**

**Q2 Nick Ramsay:** Will the Minister make a statement on the funding available for further education colleges? OAQ(3)0064(ECW)

**C2 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid sydd ar gael ar gyfer colegau addysg bellach? OAQ(3)0064(ECW)

**Carwyn Jones:** Yes. Between 2005-06 and 2006-07, capital budgets for the further education sector increased from £6.218 million to £22.375 million. Further education institutions have received a £10.5 million increase for 2007-08.

**Carwyn Jones:** Gwnaf. Rhwng 2005-06 a 2006-07, cynyddodd y cyllidebau cyfalaf ar gyfer y sector addysg bellach o £6.218 miliwn i £22.375 miliwn. Cafodd sefydliadau addysg bellach £10.5 miliwn yn fwy yn 2007-08.

**Nick Ramsay:** Minister, I am sure that you will join me in commending Coleg Gwent's work. It is the largest FE college in Wales, which enrols around 37,000 learners each year, as well as employing around 1,500 staff. A large number are at the Usk campus in my constituency, so this issue is close to my heart.

**Nick Ramsay:** Weinidog, yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi i gymeradwyo gwaith Coleg Gwent. Hwn yw'r coleg Addysg Bellach mwyaf yng Nghymru sy'n cofrestru oddeutu 37,000 o ddysgwyr bob blwyddyn ac sy'n cyflogi oddeutu 1,500 o staff. Mae nifer ohonynt yng nghampws Brynbuga yn fy etholaeth i, felly, mae'r mater hwn yn agos at fy nghalon.

Coleg Gwent has an exciting and innovative view of its future development, which seems to be stifled at the moment by the poor provisional FE funding settlement for the coming year. Can you give an assurance to the staff and students at Coleg Gwent that you will do all that you can to provide a more substantial funding settlement for Coleg Gwent and for similar further education colleges over the coming year and years to help all of these institutions to realise their full potential?

Mae gan Goleg Gwent gynlluniau cyffrous ac arloesol o ran ei ddatblygiad i'r dyfodol, ond mae'n ymddangos bod hyn yn cael ei ffrwyno ar hyn o bryd gan y setliad dros dro sâl ar gyfer ariannu Addysg Bellach flwyddyn nesaf. A allwch chi roi sicrwydd i staff a myfyrwyr Coleg Gwent y gwnewch bopeth o fewn eich gallu i ddarparu setliad ariannol mwy sylweddol i Goleg Gwent a cholegau addysg bellach tebyg dros y flwyddyn a'r blynyddoedd nesaf, i helpu pob un o'r sefydliadau hyn i gyrraedd eu potensial llawn?

**Carwyn Jones:** I would not agree that the increase has been insubstantial—it is a 4.58 per cent increase, which is significant in terms of the present inflation rate. Secondly, we have the national planning and funding system, which seeks to enable parity of esteem between academic and vocational qualifications, as Jeff Cuthbert has already mentioned, and that system is designed to iron out the variable rates of funding for the same activity seen across Wales.

**Carwyn Jones:** Nid wyf yn cytuno nad oedd hwn yn gynnydd sylweddol—mae'n gynnydd o 4.58 y cant, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r gyfradd chwyddiant bresennol. Yn ail, mae gennym system genedlaethol o gynllunio ac ariannu, sy'n ceisio sicrhau parch cyfartal rhwng cymwysterau academaidd a rhai galwedigaethol, sef yr hyn y soniodd Jeff Cuthbert amdano. Lluniwyd y system hon i ddileu'r anghysonderau yng nghyfraddau'r cyllid ar gyfer yr un gweithgareddau ledled Cymru.

**Janet Ryder:** To follow up on the funding

**Janet Ryder:** Hoffwn sôn ychydig mwy am

formula that Education and Learning Wales devised, which is now fully your responsibility, it was designed not only to iron out disparity in funding across Wales, but also to introduce a system that evaluated colleges and schools on a level playing field. I am sure that you are aware that one criticism in the latest Estyn report was that colleges and schools are still competing for pupils and resources. How will you overcome that competition between schools and colleges, given that you want to develop 14-19 pathways where schools and colleges work together?

y fformiwla gyllido a luniwyd gan Dysgu ac Addysgu Cymru, sydd bellach dan eich cyfrifoldeb chi yn llwyr. Fe'i lluniwyd nid yn unig i ddileu'r anghysonderau cyllido ledled Cymru, ond hefyd i gyflwyno system a oedd yn gwerthuso colegau ac ysgolion ar lwyfan teg. Yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod mai un feirniadaeth yn adroddiad diweddaraf Estyn oedd bod colegau ac ysgolion yn dal i fod yn cystadlu am ddisgyblion ac adnoddau. Sut fyddwch chi'n datrys y gystadleuaeth hon rhwng ysgolion a cholegau, gan gofio'ch bod am ddatblygu llwybrau 14-19 lle mae ysgolion a cholegau yn gweithio gyda'i gilydd?

**Carwyn Jones:** That will be the challenge in developing the pathway and in the legislation that will be brought before the Assembly. It is right to say that there is an element of competition there. Some years ago, colleges tended to concentrate on the vocational and schools on the academic, but we are seeking to do the opposite of that now. However, in future, we will clearly need to minimise duplication, if I can put it that way, which will be the big challenge when the legislation is introduced.

**Carwyn Jones:** Dyna fydd yr her wrth ddatblygu'r llwybr ac yn y ddeddfwriaeth a ddaw gerbron y Cynulliad. Mae'n wir dweud bod yna elfen o gystadleuaeth. Rai blynyddoedd yn ôl, tueddai colegau i ganolbwyntio ar gymwysterau galwedigaethol ac ysgolion ar gymwysterau academaidd, ond erbyn hyn yr ydym yn ceisio gwneud y gwrthwyneb i hynny. Fodd bynnag, yn y dyfodol mae'n amlwg y bydd rhaid i ni leihau dyblygu, os caf ei alw'n hynny, a dyna fydd yr her fawr pan gyflwynir y ddeddfwriaeth.

**Janet Ryder:** Some of the work that is being done on the 14-19 pathways would allow a pupil to spend part of his or her working week in a school and part of it in a college, which means that you will have to split the funding for that pupil so that some of it goes to the college. Will you double-fund that pupil so that the school gets its full allocation for that pupil, or will you make the school lose half of its budget, should that pupil choose to go to college? If you split the funding, what will you do to assess the impact on the whole secondary school in question?

**Janet Ryder:** Byddai rhywfaint o'r gwaith sydd ar y gweill gyda'r llwybrau 14-19 yn caniatáu i ddisgybl dreulio rhan o'i wythnos waith yn yr ysgol a rhan mewn coleg, sy'n golygu y bydd rhaid ichi rannu'r cyllid ar gyfer y disgybl hwnnw er mwyn i'r coleg gael rhywfaint o'r arian. A fyddwch yn cyllido'r disgybl hwn ddwywaith er mwyn i'r ysgol gael y swm llawn ar gyfer y disgybl, neu a fyddwch yn gorfodi'r ysgol i golli hanner ei chyllideb os bydd y disgybl hwnnw'n penderfynu mynd i'r coleg? Os rhannwch y cyllid, beth fyddwch chi'n ei wneud i asesu'r effaith ar yr ysgol uwchradd gyfan dan sylw?

**Carwyn Jones:** Clearly, we want to be in a position where no loss of income arises from a situation such as that which you describe It is difficult to give a fuller answer unless a particular example is put forward. However, you have certainly made me aware of the issue, and we will deal with it.

**Carwyn Jones:** Yn amlwg, yr ydym am fod mewn sefyllfa lle na fydd neb yn colli incwm dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwch. Mae'n anodd rhoi ateb llawnach oni roddir enghraifft benodol. Fodd bynnag, yr ydych yn sicr wedi tynnu fy sylw at y mater, a byddwn yn delio ag ef.

1.40 p.m.

**Alun Cairns:** Further education colleges often complement some of the activities of higher education colleges, but they are often in competition. For a student deciding on the best path to achieve their educational goals, tuition fees are often a consideration with regard to applications to higher education. How sustainable are tuition fees in the longer term?

**Alun Cairns:** Mae colegau addysg bellach yn aml yn ategu rhai o weithgareddau colegau addysg uwch, ond yn aml maent yn cystadlu â'i gilydd. Pan fydd myfyriwr yn ceisio penderfynu ar y llwybr gorau i gyrraedd ei nodau addysgol, mae ffioedd dysgu'n aml yn ystyriaeth wrth wneud cais i addysg uwch. Pa mor gynaliadwy yw ffioedd dysgu yn y tymor hwy?

**Carwyn Jones:** Tuition fees will remain for some time; that has to be the case. I note what was voted on in the Assembly some time ago with regard to top-up fees, but tuition fees will remain in place in Wales. We know the cost of abolishing them and we are not in a position to do that.

**Carwyn Jones:** Bydd ffioedd dysgu'n dal i fodoli am gryn amser; rhaid i hynny fod. Yr wyf yn cofio'r bleidlais yn y Cynulliad beth amser yn ôl parthed ffioedd atodol, ond bydd ffioedd dysgu'n dal i fodoli yng Nghymru. Gwyddom faint fydd y gost o'u diddymu, ac nid ydym mewn sefyllfa i wneud hynny.

**Alun Cairns:** I am grateful to the Minister for his answer. I would like to focus specifically on the funding arrangements for top-up fees in Wales. The UK Government's plan to review such fees in 2009 puts the Assembly in quite a difficult position. What plans does the Minister have to review the arrangements in Wales in light of possible changes in England?

**Alun Cairns:** Diolch yn fawr, Weinidog, am eich ateb. Hoffwn ganolbwyntio'n benodol ar y trefniadau cyllido ar gyfer ffioedd atodol yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu adolygu'r ffioedd hyn yn 2009,ac mae hynny'n rhoi'r Cynulliad mewn sefyllfa go anodd. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i adolygu'r trefniadau yng Nghymru yn sgil newidiadau posibl yn Lloegr?

**Carwyn Jones:** There are no plans to review those arrangements at present, but we are mindful of the situation in England and of the effect that it may have in Wales. However, we need to have an idea of proposals coming forth in England and consider those in terms of the way forward for the HE sector in Wales.

**Carwyn Jones:** Nid oes cynlluniau i adolygu'r trefniadau hynny ar hyn o bryd, ond yr ydym yn ymwybodol o'r sefyllfa yn Lloegr a'r effaith y gall hynny ei chael yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd angen i ni gael syniad o'r cynigion sy'n dod gerbron yn Lloegr ac ystyried y rheiny gyda golwg ar y ffordd ymlaen i'r sector Addysg Uwch yng Nghymru.

### Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden

### Sport and Recreation Activities

**C3 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau i hybu chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn ein cymunedau? OAQ(3)0021(ECW)

**Q3 Paul Davies:** Will the Minister outline his priorities to promote sport and recreation activities in our communities? OAQ(3)0021(ECW)

**Carwyn Jones:** Mae'r blaenoriaethau hynny ar gael yn **'**Dringo'n Uwch'.

**Carwyn Jones:** Those priorities are available in 'Climbing Higher'.

**Paul Davies:** Yr wyf yn siŵr bod pawb yn y lle hwn am weld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar chwaraeon mewn ysgolion yn ogystal â chynnydd mewn gweithgareddau hamdden yn ein cymunedau. Rhan ganolog o strategaeth iechyd a lles unrhyw lywodraeth

**Paul Davies:** I am sure everyone here wishes to see more emphasis on sports in schools, as well as an increase in recreational activities in our communities. A central part of any government's strategy for health and wellbeing would be to increase the number of

fyddai cynyddu nifer y cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Yn anffodus, yn yr wyth neu naw mlynedd diwethaf, ar gyfartaledd, collwyd un maes chwarae y dydd ym Mhrydain. Mae colli meysydd chwarae yn cael effaith fawr ar ein cymunedau.

sports and recreational facilities. Unfortunately, in the past eight or nine years, on average one playing field per day has been lost in Britain. The loss of playing fields is having a considerable effect on our communities.

Mae grŵp o bobl yn fy etholaeth ar hyn o bryd yn ymladd yn erbyn colli man agored gwyrdd oherwydd eu bod yn gwerthfawrogi pa mor bwysig ydyw i'w hiechyd a'u lles. Derbyniaf fod is-ddeddfwriaeth yn y Cynulliad wedi ei chryfhau i amddiffyn meysydd chwarae o dan arweinyddiaeth y grŵp Ceidwadol. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei strategaeth i amddiffyn ymhellach y meysydd chwarae presennol, a dweud wrthym pa fesurau penodol y bydd yn eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod meysydd chwarae newydd ar gael mewn datblygiadau newydd?

A group of people in my constituency are currently battling to retain a green open space, because they appreciate its importance to their health and wellbeing. I accept that subordinate legislation in the Assembly has been strengthened to protect playing fields, under the leadership of the Conservative group. Will the Minister outline his strategy to protect further our existing playing fields and tell us what specific measures he will introduce to ensure that new playing fields are available in new developments?

**Carwyn Jones:** Cyflwynwyd y newid gan y Llywodraeth Lafur; yr oedd yn rhan o ddogfen TAN 16. Felly, o'r ochr hon ddaeth y fenter honno. O ran colli meysydd chwarae, nid fu'n broblem ddifrifol yng Nghymru fel y bu yn Lloegr. Nid yw hynny'n golygu y dylem wneud dim byd yn ei gylch. O ran sicrhau bod gennym gyfleusterau ar gyfer y dyfodol, ym 1999, £7 miliwn oedd cyllideb chwaraeon y Cynulliad; mae'r gyllideb wedi cynyddu i £25 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hynny'n dangos buddsoddiad sylweddol ar gyfer chwaraeon yng Nghymru at y dyfodol.

**Carwyn Jones:** That change was introduced by the Labour Government; it was part of the TAN 16 document. Therefore, that initiative came from this side. With regard to losing playing fields, it has not been as serious a problem in Wales as is in England. That does not mean we should do nothing about it. With regard to ensuring that we have facilities for the future, in 1999 the Assembly's sports budget was £7 million; it has increased to £25 million for the next financial year. That shows a considerable investment in sports in Wales for the future.

**Lorraine Barrett:** This week, I had the pleasure of cutting the ribbon on Lower Penarth Community Hall's new cycle rack, which has been provided by a grant from the Sports Council for Wales under the Welsh Assembly Government's active lifestyles fund. It is there to encourage the hundreds of users of the hall to cycle to their meetings and events. It was great to see the young Brownies arrive on their cycles and park their bikes there. Do you agree that small initiatives like that are important to encourage us all to have a more active lifestyle and to increase the level of recreational activity in Wales?

**Lorraine Barrett:** Yr wythnos hon cefais y fraint o dorri'r rhuban wrth resel feiciau newydd Neuadd Gymunedol Penarth Isaf, a ddarparwyd drwy gymorth grant gan Gyngor Chwaraeon Cymru o'r gronfa ffyrdd gweithgar o fyw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cronfa yw hon i annog y cannoedd o bobl sy'n defnyddio'r neuadd i seiclo i'w cyfarfodydd a'u digwyddiadau. Pleser oedd gwylio'r Brownies ifanc yn cyrraedd ar eu beiciau ac yn eu parcio yno. A ydych yn cytuno bod cynlluniau bach fel hyn yn bwysig i annog pob un ohonom i fyw bywyd mwy gweithgar a chynyddu lefelau gweithgareddau hamdden yng Nghymru?

**Carwyn Jones:** I could not agree more.

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn cyd-fynd yn

There are two major factors when it comes to encouraging people to cycle. The first is whether a traffic-free route is available—and I think that the fact that some routes are not traffic-free is a deterrent for some cyclists, though not the more dedicated. The second is whether there is somewhere to store a bike safely when you arrive at your destination. Initiatives such as the one in Penarth that you described are invaluable in encouraging more people to cycle.

llwyr. Mae yna ddau ffactor pwysig i'w cofio wrth geisio annog pobl i seiclo. Yn gyntaf, a oes llwybr di-draffig ar gael—a chan nad yw rhai llwybrau yn ddi-draffig, gall hynny, yn fy marn i, fod yn rhwystr i rai seiclwyr, er nad y rhai mwy selog. Yr ail yw a oes rhywle i gadw beic yn ddiogel ar ôl ichi gyrraedd pen eich taith. Mae mentrau fel yr un ym Mhenarth a ddisgrifiwyd gennych yn anhepgor er mwyn annog mwy o bobl i feicio.

**Bethan Jenkins:** Ar ymweliad diweddar ag ystâd newydd Tre-gof yn Llansamlet, yr oeddwn yn pryderu wrth weld y diffyg cyfleusterau hamdden ar gyfer y preswylwyr. A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn hanfodol i iechyd a lles y preswylwyr, yn enwedig y plant, fod ganddynt gyfleusterau hamdden digonol? A fyddwch yn ymgymryd â'r mater i sicrhau bod y cyfleusterau hyn ar gael yn y dyfodol?

**Bethan Jenkins:** On a recent visit to the new estate of Tregof Village in Llansamlet, I was concerned to note the shortage of leisure facilities for its residents. Does the Minister agree that it is vital to the health and wellbeing of the residents, especially the children, that they have access to adequate leisure facilities? Will you take this matter up to ensure that such facilities are made available in future?

**Carwyn Jones:** O ran cyfleusterau, mae gan awdurdodau lleol gyfle pan fydd ystâd newydd yn cael ei hadeiladu i sicrhau lles cynllunio gan y datblygwyr a'r adeiladwyr. Er enghraifft, mewn rhannau o Gymru, adeiladwyd ysgolion a sefydlwyd meysydd chwarae newydd gan y datblygwyr a'r cwmnïau adeiladu. Fy neges, felly, yw ei bod yn bwysig dros ben bod awdurdodau lleol yn sicrhau cyfleusterau hamdden i blant ac oedolion pan fydd ystâd newydd o dai yn cael ei hadeiladu.

**Carwyn Jones:** With regard to facilities, when a new estate is built, local authorities have an opportunity to ensure that developers and constructors provide planning gain. For example, in some parts of Wales where schools have been built, new playing fields have been created by the developers and the construction firms. My message, therefore, is that it is extremely important that local authorities ensure the provision of leisure facilities for children and adults when a new housing estate is being built.

**Kirsty Williams:** Young people in the town of Brecon have identified two things that they would like to pursue: the first is a skateboarding park and the second is an amateur boxing gym. The police and local youth service feel that this would go a long way towards addressing some of the anti-social behaviour that we have in Brecon, as well as contributing to the Government's stated aim of making our young people healthier. Unfortunately, both projects will not be able to progress without adequate funding. What can your Government do to work with local authorities to ensure that projects that come from the grass roots, often from young people themselves, can be developed to ensure that those young people feel that they have a stake in their community and that their views are being listened to in

**Kirsty Williams:** Mae pobl ifanc yn nhref Aberhonddu wedi nodi dau beth y byddent yn hoffi eu cael: y cyntaf yw parc sgrialu a'r ail yw campfa bocsio amatur. Teimla'r heddlu a'r gwasanaeth ieuenctid lleol y byddai hyn o fudd mawr wrth ddelio â rhai o'r arferion gwrthgymdeithasol sydd gennym yn Aberhonddu, ac y byddai hefyd yn cyfrannu at nod honedig y Llywodraeth o wneud ein pobl ifanc yn iachach. Yn anffodus, ni fydd modd i'r naill brosiect na'r llall fynd yn ei flaen heb swm digonol o arian. Beth y gall eich Llywodraeth ei wneud er mwyn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod modd datblygu prosiectau sy'n cael eu cynnig ar lawr gwlad, yn aml gan y bobl ifanc eu hunain, i wneud yn siŵr bod y bobl ifanc hyn yn teimlo'u bod yn rhan o'r gymuned, a bod rhywun yn gwrando ar eu

the provision of services for young people?

barn hwy wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc?

**Carwyn Jones:** I would be grateful if you would write to me with more details about the situation that you described, so that I can give you a fuller answer.

**Carwyn Jones:** Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ysgrifennu ataf i roi mwy o fanylion am y sefyllfa a ddisgrifiwch, er mwyn imi allu rhoi ateb llawnach ichi.

**Mental Health Issues**

**Materion Iechyd Meddwl**

**Q4 Leanne Wood:** Does the Minister have any plans to introduce measures regarding the stigma of mental health issues in the education system? OAQ(3)0044(ECW)

**C4 Leanne Wood:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyflwyno mesurau ynghylch stigma problemau iechyd meddwl yn y system addysg? OAQ(3)0044(ECW)

**Carwyn Jones:** We have consulted on a national strategy for school-based counselling services. We are at present developing guidance for schools on promoting the emotional and mental health of pupils. The opportunity for discussing mental health issues is also being considered as part of the personal and social education curriculum.

**Carwyn Jones:** Yr ydym wedi ymgynghori ynglŷn â strategaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau cynghori mewn ysgolion. Ar hyn o bryd yr ydym yn datblygu canllawiau i ysgolion ar hybu iechyd emosiynol a meddyliol disgyblion. Mae'r cyfle i drafod materion iechyd meddwl hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol.

**Leanne Wood:** I am sure that you are aware that stigma can prevent people from getting the treatment that they need for mental illness, and can result in harassment, discrimination, prevent people from being able to get jobs, and can lead to increased isolation and can contribute to self harm. Do you agree that the new, punitive mental health legislation coming from Westminster can only exacerbate the problem?

**Leanne Wood:** Mae'n siŵr eich bod yn gwybod y gall stigma atal pobl rhag cael y driniaeth y mae arnynt ei hangen ar gyfer salwch meddwl, ac y gall arwain at aflonyddu, gwahaniaethu a rhwystro pobl rhag cael swyddi, a gall wneud i bobl deimlo'n fwy unig a chyfrannu at hunan-niweidio. A ydych yn cytuno na all y ddeddfwriaeth gosbedigaethol, newydd ar iechyd meddwl sy'n dod o San Steffan ond gwneud y broblem yn waeth?

**Carwyn Jones:** At present, that is a non-devolved matter. It is important that we increase the counselling services that are available to young people in Wales. It has struck me during presentations that I have seen that, quite often, young people who have sometimes quite serious mental health issues, when confident enough to mention their problems, have had those problems dismissed as teenage growing pains. It will be important for us over the next five to 10 years to be able to identify what are, in reality, mental health issues, rather than dismissing them as something that people will grow out of.

**Carwyn Jones:** Ar hyn o bryd, mae hwn yn fater nad yw wedi ei ddatganoli. Mae'n bwysig inni gynyddu nifer y gwasanaethau cynghori sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru. Mae wedi fy nharo, yn ystod cyflwyniadau yr wyf wedi eu gweld, fod pobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl pur ddifrifol weithiau, pan fyddant yn ddigon hyderus i grybwyll eu problemau, yn aml iawn wedi gweld diystyru'r problemau hynny fel poenau tyfu'r arddegau. Mae'n bwysig i ni, yn ystod y pump i 10 mlynedd nesaf, allu adnabod yr hyn sydd, mewn gwirionedd, yn broblemau iechyd meddwl, yn hytrach na'u diystyru fel rhywbeth y bydd pobl yn tyfu allan ohonynt.

**Christine Chapman:** Speaking with

**Christine Chapman:** Wrth siarad â

colleagues from Friends R Us, which is a support group for carers and suffers of mental health problems in my constituency, I am often told of the stigma that sufferers frequently experience, and they sometimes feel that some health professionals are not always as aware of the needs of people with mental health problems as they should be. Will you ensure that all training and professional development of health workers continues to raise awareness of the needs of people who suffer from mental illness?

chyfeillion o Friends R Us, grŵp cymorth ar gyfer gofalwyr a dioddefwyr problemau iechyd meddwl yn fy etholaeth, clywaf yn aml am y stigma a deimlir yn fynych gan ddioddefwyr, a theimlant weithiau nad yw rhai gweithwyr iechyd proffesiynol bob amser mor ymwybodol o anghenion pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ag y dylent fod. A wnewch chi sicrhau bod pob hyfforddiant a rhaglen datblygiad proffesiynol ar gyfer gweithwyr iechyd yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o anghenion pobl sydd â salwch meddwl?

**Carwyn Jones:** I would be straying a little into my colleague Edwina Hart’s portfolio if I were to give a full answer on that. However, in terms of the effect on children, we are at present seeking to train as many counsellors as possible to ensure that they are available, in a phased way, to schools across Wales.

**Carwyn Jones:** Byddwn yn crwydro ychydig i bortffolio fy nghyd-Aelod, Edwina Hart, pe bawn yn rhoi ateb llawn ar hynny. Fodd bynnag, o ran yr effaith ar blant, yr ydym ar hyn o bryd yn ceisio hyfforddi cynifer ag sy’n bosibl o gynghorwyr er mwyn sicrhau eu bod ar gael, yn raddol, i ysgolion ym mhob cwr o Gymru.

**David Melding:** Looked-after children have a high propensity to mental illness: about half of them have a diagnosable mental health condition, and this is a big factor in the breakdown of educational placements. Do you agree that it is important that we train staff at schools properly so that they can recognise mental illness when they see it and take measures to support those children because they suffer from this debilitating illness and do not receive the education that they need. That has a big impact on their future lives. Perhaps one immediate way of doing this is to increase the number of school nurses.

**David Melding:** Mae plant sy’n cael gofal yn dueddol iawn o gael salwch meddwl: mae gan oddeutu hanner y plant hyn gyflwr iechyd meddwl adnabyddadwy, ac mae hyn yn ffactor allweddol wrth ddadansoddi lleoliadau addysgol. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig inni hyfforddi staff mewn ysgolion yn briodol, er mwyn iddynt allu adnabod salwch meddwl pan fyddant yn ei weld, a chymryd camau i gefnogi’r plant hynny oherwydd eu bod yn dioddef gan y salwch gwanychol hwn ac yn methu cael yr addysg y mae arnynt ei hangen. Mae hyn yn cael effaith fawr ar eu dyfodol. Un ffordd i wneud hyn ar fyrder, efallai, yw cynyddu nifer y nyrsys ysgol.

1.50 p.m.

**Carwyn Jones:** I will refer you to the answer that I would give you to question 12, as your supplementary question is linked to it. The sum of £1 million has been given to local authorities for each year between 2006-07 and 2007-08 to provide additional support for the education of looked-after children. New duties will be placed on local authorities to consider the education needs of children when they are placed. The point that you raise is a fair one. We know that, in terms of educational attainment, looked-after children lag some way behind the general population

**Carwyn Jones:** Yr wyf am eich cyfeirio at yr ateb y byddwn yn ei roi i chi ar gwestiwn 12, gan fod eich cwestiwn atodol yn gysylltiedig ag ef. Mae £1 filiwn wedi ei roi i awdurdodau lleol bob blwyddyn rhwng 2006-07 a 2007-08 i ddarparu rhagor o gefnogaeth i addysg plant sy’n cael gofal. Bydd gan awdurdodau lleol ddyletswyddau newydd i ystyried anghenion addysgol plant wrth gael eu lleoli. Mae’r pwynt a godwch yn un teg. Gwyddom fod plant sy’n cael gofal, o ran cyrhaeddiad addysgol, gryn dipyn ar ei hôl hi o’u cymharu â phlant yn gyffredinol yn y wlad

of children in this country. We need to address that, and quickly.

hon. Mae angen inni roi sylw i hyn, a hynny ar fyrder.

You mentioned that a substantial number of looked-after children have mental health issues, and, as part of ensuring a better education for them, it is exceptionally important to ensure that the issues that may hold them back in their education are properly addressed.

Soniech fod gan nifer fawr o'r plant sy'n cael gofal broblemau iechyd meddwl, ac fel rhan o'r gwaith o sicrhau gwell addysg iddynt, mae'n hynod bwysig inni sicrhau rhoi sylw priodol i'r problemau a all fod yn llesteirio'u haddysg.

**Jenny Randerson:** People aged 16 to 18 with mental health problems fall into some appalling black hole whereby they are not eligible for child and adolescent mental health services and are not fully recognised as adults. Will you undertake to address this issue with the Minister for Health and Social Services in light of possible new health legislation as it will apply to Wales?

**Jenny Randerson:** Mae pobl 16 i 18 oed sydd â phroblemau iechyd meddwl yn disgyn i ryw dwll du dychrynllyd lle nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc nac yn cael eu cydnabod yn llwyr fel oedolion. A wnewch ymrwymo i roi sylw i'r mater hwn gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng ngoleuni'r posibilrwydd o ddeddfwriaeth iechyd newydd fel y bydd yn berthnasol i Gymru?

**Carwyn Jones:** I am aware of the difficulty that may exist, and I will seek to discuss the matter with my colleague Edwina Hart.

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn ymwybodol o'r anhawster a all fod, a byddaf yn ceisio trafod y mater gyda'm cyd-Aelod Edwina Hart.

### Physical Education Activities

### Gweithgareddau Addysg Gorfforol

**Q5 William Graham:** Will the Minister outline how physical education activities in Welsh schools are supported? OAQ(3)0004(ECW)

**C5 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y cefnogir gweithgareddau addysg gorfforol mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(3)0004(ECW)

**Carwyn Jones:** Schools are provided with guidance on the programme of study for physical education at each key stage. In addition, we have made £2.65 million available to the Sports Council for Wales for 2007-08 to support local authorities in improving the range and quality of PE in schools.

**Carwyn Jones:** Darperir canllawiau i ysgolion ar y rhaglen astudio ar gyfer addysg gorfforol yn ystod pob cyfnod allweddol. Yn ychwanegol at hyn, yr ydym wedi rhyddhau £2.65 miliwn i Gyngor Chwaraeon Cymru yn 2007-08 i gefnogi awdurdodau lleol i wella ystod ac ansawdd addysg gorfforol mewn ysgolion.

**William Graham:** I am sure that you will agree that sports day activity allows the whole school to participate. Can you increase the support available to schools? In particular, I am looking at the case of Lliswerry Comprehensive School in Newport, which was charged the equivalent of one third of its annual sports budget to hire the local stadium for its sports day.

**William Graham:** Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod gweithgareddau diwrnod mabolgampau'n caniatáu i'r ysgol gyfan gymryd rhan. A allwch gynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion? Yr wyf yn edrych, yn fwyaf arbennig, ar achos Ysgol Gyfun Llys-wern yng Nghasnewydd. Codwyd swm yn cyfateb i un rhan o dair o'i chyllideb chwaraeon flynyddol arni am logi'r stadiwm lleol ar gyfer ei diwrnod mabolgampau.

**Carwyn Jones:** That is a commercial matter, but I would hope that even commercial organisations, where they allow the use of a stadium, would look favourably on reducing the fees payable by schools, for the benefit not only of schools but sport in general. However, as I say, it is a commercial matter.

**Carwyn Jones:** Mater masnachol yw hwn, ond byddwn yn gobeithio y byddai cyrff masnachol hyd yn oed, lle maent yn caniatau defnyddio stadiwm, yn ystyried gostwng y ffioedd a delir gan ysgolion, er lles nid yn unig ysgolion, ond hefyd chwaraeon yn gyffredinol. Fodd bynnag, fel y dywedais, mater masnachol yw hwn.

**Gareth Jones:** Yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno a chydnabod bod gwaith da yn digwydd yn ein hysgolion o ran addysg gorfforol a chwaraeon. Fodd bynnag, clywsom yn gynharach mai'r hyn sydd yn amrywio o le i le drwy Gymru yw'r gynhaliaeth tu allan i'r ysgol, yn ein cymunedau. Gwneir llawer o waith da gan wirfoddolwyr mewn clybiau ac ati i sicrhau bod pobl ifanc yn dal ati yn egnïol i ymgymryd â chwaraeon felly. Fodd bynnag, mae hynny'n amrywio o un rhan o Gymru i'r llall, ac mae her i ni sicrhau bod y darlun yn fwy gwastad. Chi, fel Gweinidog, sy'n gallu helpu gyda hynny. A oes gennych gynlluniau i sicrhau bod hyn ar gael, cymaint ag sydd yn bosibl, i'r rhan fwyaf o'n disgyblion a phobl ifanc?

**Gareth Jones:** I am sure we would all agree about and recognise the good work being done in our schools in physical education and sports. However, we heard earlier that what varies from place to place throughout Wales is the provision outside schools, in our communities. A great deal of good work is done by volunteers in clubs and so on to ensure that young people continue to participate actively in sports. However, that varies from one part of Wales to another, and the challenge for us is to ensure a more level playing field. You, as Minister, can help with that. Do you have plans to ensure that, as far as possible, this is available to most of our pupils and young people?

**Carwyn Jones:** Mae sawl grant ar gael drwy'r Cynulliad neu Gyngor Chwaraeon Cymru i sicrhau bod cyfleusterau ar gael drwy Gymru. Mae'n bwysig bod gan bobl y cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon. Gwn fod canran y bobl sydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon wedi cynyddu i 34 y cant o 28 y cant, ac mae hynny i'w groesawu. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig sicrhau bod grantiau ar gael i bob rhan o Gymru fel bo modd hybu talent ym mhobman hefyd.

**Carwyn Jones:** Several grants are available through the Assembly or the Sports Council for Wales to ensure that facilities are available throughout Wales. It is important that people have the opportunity to participate in sports. The percentage of people participating in sport has increased to 34 per cent from 28 per cent, which is to be welcomed. Having said that, it is important that the grants are available to all parts of Wales so that we can also promote talent in all parts of Wales.

### School Buildings

### Adeiladau Ysgol

**Q6 Chris Franks:** Will the Minister make a statement on resources available to local authorities for school buildings? OAQ(3)0046(ECW)

**C6 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer adeiladau ysgolion? OAQ(3)0046(ECW)

**Carwyn Jones:** Local authorities receive shares of Assembly Government school buildings improvement grant money, which amounts to £81.685 million, and which is ring-fenced. In addition, they receive annual allocations of general capital funding, of which a notional amount of £60 million is for

**Carwyn Jones:** Mae awdurdodau lleol yn cael arian o grant gwella adeiladau ysgolion Llywodraeth y Cynulliad, sy'n werth £81.685 miliwn, ac sydd wedi ei glustnodi. Yn ychwanegol at hyn, cânt ddyraniadau blynyddol o arian cyfalaf cyffredinol, ac mae swm tybiannol o £60 miliwn o hwnnw ar

education. Authorities are also able to use capital receipts and prudential borrowing.

gyfer addysg. Gall awdurdodau hefyd ddefnyddio derbyniadau cyfalaf a benthyca darbodus.

**Chris Franks:** A huge number of schools need substantial repairs or rebuilding. Saving money by reorganisation due to falling rolls may help to address the problem, but only to a limited extent, and only in certain areas. For instance, in the Vale of Glamorgan, you will be aware that there is a buoyant school population, but an enormous financial demand to fund the school investment strategy. I am sure that you will note that Jane Hutt and John Smith MP have supported spending significant sums on Vale secondary schools. However, neither is clear about where the resources will be found for such worthy schemes. Cardiff is also suffering from a lack of investment across large sections of the city.

**Chris Franks:** Mae angen gwaith atgyweirio sylweddol neu adeiladau newydd mewn llawer iawn o ysgolion. Gall arbed arian drwy ad-drefnu oherwydd gostyngiad yn nifer y disgyblion helpu mynd i'r afael â'r broblem, ond dim ond i ryw raddau, a dim ond mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft, ym Mro Morgannwg gwyddoch fod yno boblogaeth ysgol lewyrchus, ond bod pwysau ariannol aruthrol i ariannu'r strategaeth buddsoddi mewn ysgolion. Yr wyf yn siŵr y cofiwch fod Jane Hutt a John Smith AS wedi cefnogi gwario symiau sylweddol ar ysgolion uwchradd y Fro. Fodd bynnag, nid yw'r naill na'r llall yn glir o ble y daw adnoddau ar gyfer cynlluniau mor deilwng. Mae Caerdydd hefyd yn dioddef oherwydd diffyg buddsoddi mewn rhannau helaeth o'r ddinas.

Simply, we need new and refurbished school buildings, which will cost more money than councils have available in many cases. We need answers, as some schools will be unable to deliver the curriculum in their current accommodation. There has been a massive school building programme in England, using the private finance initiative. This has, understandably, not been seen as an attractive option in Wales, given the long-term financial disadvantages. Indeed, the financial implications of using PFI are currently being questioned. Does the Minister share my concern that, in areas where it is necessary to replace school buildings, other areas in the local authority budget can suffer? Is the Minister willing to offer extra resources to local authorities to assist with this problem?

Yn syml iawn, mae arnom angen adeiladau newydd a rhai sydd wedi eu hadnewyddu, a bydd hynny mewn llawer achos yn costio mwy nag sydd ar gael gan gynghorau. Mae arnom angen atebion, oherwydd bydd rhai ysgolion yn methu â darparu'r cwricwlwm yn eu hadeiladau presennol. Cyflwynwyd rhaglen enfawr ar gyfer adeiladau ysgolion yn Lloegr, gan ddefnyddio'r fenter cyllid preifat. Nid yw hyn, wrth reswm, wedi ei ystyried yn ddewis atyniadol yng Nghymru, o gofio'r anfanteision ariannol hirdymor. Yn wir, mae goblygiadau ariannol defnyddio'r fenter cyllid preifat yn cael eu hamau ar hyn o bryd. A yw'r Gweinidog, fel finnau, yn pryderu y gallai meysydd eraill yng nghyllideb awdurdodau lleol ddioddef mewn ardaloedd lle mae angen adeiladau newydd mewn ysgolion? A yw'r Gweinidog yn barod i gynnig adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol i helpu gyda'r broblem hon?

**Carwyn Jones:** The answer to the final question is 'yes', and we have done that. Each local authority is getting £9 million on top of what it would otherwise have got, and that money is to be used primarily for building new schools. There has been a difficulty in local authorities drawing down that money, and I would encourage local authorities to do that. I know that in the Vale the council has now been given approval for

**Carwyn Jones:** Yr ateb i'r cwestiwn olaf yw 'ydwyf', ac yr ydym wedi gwneud hyn. Mae pob awdurdod lleol yn cael £9 miliwn yn ychwanegol at yr hyn y byddai wedi ei gael fel arall, ac mae'r arian hwn i'w ddefnyddio'n bennaf ar gyfer adeiladu ysgolion newydd. Mae awdurdodau lleol wedi cael anhawster i ddefnyddio'r arian hwn, a byddwn yn annog awdurdodau lleol i wneud hyn. Gwn fod y cyngor yn y Fro

using the £9 million lump sum to redevelop Cowbridge and St Cyres comprehensive schools. The balance of the cost of the works at those schools, and the works at Llantwit Major, will be provided by the authority. Therefore, extra money has been provided, and, in the Vale of Glamorgan, two comprehensive schools—and I know Cowbridge quite well in terms of its state of affairs—will benefit from that.

bellach wedi cael caniatâd i ddefnyddio'r cyfandaliad o £9 miliwn i ailddatblygu ysgolion cyfun y Bont-faen a St Cyres. Bydd gweddill cost y gwaith yn yr ysgolion hyn, a'r gwaith yn Llanilltud Fawr, yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod. Felly, mae arian ychwanegol wedi ei ddarparu, ac ym Mro Morgannwg bydd dwy ysgol gyfun—a gwn yn bur dda am sefyllfa'r Bont-faen—yn elwa o hynny.

**Ann Jones:** When will resources be available to local authorities to install sprinkler systems in all new school buildings, and any extensions or any alterations to school buildings that are taking place under the school buildings programme that we successfully announced in our last term? It is vital that we have sprinkler systems in place as soon as possible; they prevent a lot of damage, and also a lot of heartache for pupils whose work is often damaged when there is a fire.

**Ann Jones:** Pryd y bydd adnoddau ar gael i awdurdodau lleol i osod systemau chwistrellu ym mhob ysgol newydd, ac mewn unrhyw estyniadau neu addasiadau mewn adeiladau ysgol sy'n digwydd dan y rhaglen adeiladau ysgolion a gyhoeddwyd yn llwyddiannus gennym yn ystod ein tymor diwethaf? Mae'n hanfodol inni gael systemau chwistrellu cyn gynted ag y bo modd; maent yn atal llawer o ddifrod, a llawer o ofid hefyd i ddisgyblion pan fydd eu gwaith yn aml yn cael ei ddifrodi mewn tân.

**Carwyn Jones:** As you have championed the installation of sprinklers in schools, I know that this subject is close to your heart. Schools have a general capital budget, which is received, via the local authorities, from the Assembly. I want to see how that money is planned to be used for sprinklers, and, if any difficulties arise, to ensure that they are addressed. However, you are right to say that we must ensure that our schools are safe—in all ways, but, particularly in terms of your interest, from fire.

**Carwyn Jones:** Gan eich bod wedi cefnogi gosod chwistrellwyr mewn ysgolion, gwn fod y pwnc hwn yn agos at eich calon. Mae gan ysgolion gyllideb gyfalaf gyffredinol a gânt, drwy'r awdurdodau lleol, gan y Cynulliad. Yr wyf am weld sut y bwriedir defnyddio'r arian hwnnw ar gyfer chwistrellwyr, ac os cyfyd unrhyw anawsterau, sicrhau bod sylw'n cael ei roi iddynt. Fodd bynnag, yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud ei bod yn rhaid inni sicrhau bod ein hysgolion yn ddiogel—ym mhob ffordd, ond yn enwedig rhag tân, o gofio'ch diddordeb.

**Darren Millar:** I am sure that I do not need to remind you, Minister, of the role that schools play in community life. That role far exceeds that of purely providing an education, particularly in rural areas of my constituency, where many villages have lost a significant number of community facilities in recent years. For instance, a recent scheme to modernise libraries in the county borough of Conwy has proposed the closure of several libraries across my constituency, most of which are in rural areas. What is your Government doing to encourage the use of school buildings outside of normal school hours, for the purposes, for example, of library provision? What financial aid will you make available to schools that provide these

**Darren Millar:** Yr wyf yn siŵr nad oes angen i mi eich atgoffa, Weinidog, am rôl ysgolion ym mywyd y gymuned. Mae'r rôl hon yn mynd lawer ymhellach na darparu addysg, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yn fy etholaeth i, lle mae nifer o bentrefi wedi colli nifer sylweddol o gyfleusterau cymunedol yn ddiweddar. Er enghraifft, mae cynllun yn ddiweddar i foderneiddio llyfrgelloedd ym mwrdeistref sirol Conwy wedi cynnig cau nifer o lyfrgelloedd yn fy etholaeth, y mwyafrif mewn ardaloedd gwledig. Beth mae eich Llywodraeth chi'n ei wneud i annog defnyddio adeiladau ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol, er enghraifft, ar gyfer darpariaeth llyfrgell? Pa gymorth ariannol y byddwch yn ei ddarparu i ysgolion

additional community services?

sy'n darparu'r gwasanaethau cymunedol ychwanegol hyn?

2.00 p.m.

**Carwyn Jones:** We have a specific community schools fund, which has been in place for some years. That fund provides money for initiatives such as that which you described. It is important for all school buildings to be used by the community, and all new schools are built with that in mind. I had the pleasure of visiting Ysgol y Bedol in the Amman valley, where two schools have been closed and a brand new one has been opened. That school was very much used by the local community—it had a gym and a library—and that is the sort of school that we need in the future. I also intend, over the course of the next week or so, to invite local authorities and others to consider the future of small schools, and, in particular, how school buildings might be utilised more fully than they are currently. However, it is also worth saying that we cannot get away from the fact that if the situation remains as it is, by 2014, there will be 100,000 surplus places in our schools and there will be difficult decisions ahead when it comes to dealing with that.

**Carwyn Jones:** Mae gennym gronfa benodol ar gyfer ysgolion cymunedol, sy'n bodoli ers rhai blynyddoedd. Mae'r gronfa hon yn darparu arian ar gyfer mentrau megis yr un a ddisgrifiwch. Mae'n bwysig i bob adeilad ysgol gael ei ddefnyddio gan y gymuned, a chodir pob ysgol newydd gan gadw hynny mewn cof. Cefais y pleser o ymweld ag Ysgol y Bedol yn nyffryn Aman, lle caewyd dwy ysgol ac agor un newydd sbon. Yr oedd yr ysgol honno'n cael ei defnyddio'n helaeth gan y gymuned—yr oedd ynddi gampfa a llyfrgell—a dyna'r math o ysgol y mae arnom ei hangen yn y dyfodol. Yn ystod yr wythnos nesaf bwriadaf hefyd wahodd awdurdodau lleol ac eraill i ystyried dyfodol ysgolion bychain, ac yn benodol sut i wneud defnydd llawnach o adeiladau ysgol nag a wneir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, y mae'n werth dweud hefyd na allwn ddianc rhag y ffaith, os erys y sefyllfa fel y mae, y bydd 100,000 o lefydd gwag yn ein hysgolion erbyn 2014 a bod penderfyniadau anodd o'n blaenau pan ddaw'n fater o fynd i'r afael â hynny.

**The Welsh Arts Review**

**Yr Adolygiad o'r Celfyddydau yng Nghymru**

**Q7 Eleanor Burnham:** Will the Minister tell us what plans the Welsh Assembly Government has to implement the recommendations of the Welsh arts review? OAQ(3)0035(ECW)

**C7 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu argymhellion yr adolygiad o'r celfyddydau yng Nghymru? OAQ(3)0035(ECW)

**Carwyn Jones:** I plan to meet with the Arts Council of Wales and the WLGA shortly to discuss how best to proceed with the implementation of the review**.**

**Carwyn Jones:** Bwriadaf gyfarfod â Chyngor Celfyddydau Cymru a CLlLC ar fyrder i drafod sut orau i fwrw ymlaen i weithredu'r adolygiad.

**Eleanor Burnham:** You may remember that there was a recommendation to form some sort of strategy board by the forthcoming recess. How do you view the situation, and what do you intend to do in that regard?

**Eleanor Burnham:** Efallai y cofiwch fod argymhelliad wedi ei wneud i lunio rhyw fath o fwrdd strategaeth erbyn y gwyliau nesaf. Beth yw eich barn am y sefyllfa, a beth yw eich bwriad yn hynny o beth?

**Carwyn Jones:** First, I value the work of the arts council, particularly its developmental work. I will be addressing the arts council

**Carwyn Jones:** Yn gyntaf, yr wyf yn rhoi gwerth ar waith cyngor y celfyddydau, yn enwedig ei waith datblygu. Byddaf yn

conference in Aberystwyth tomorrow. My primary aim will be to extend the arts to those who are currently not partaking of them, if I can put it that way, to ensure that as many people as possible in Wales have an opportunity to participate. I am sure that we can all agree on that.

annerch cynhadledd cyngor y celfyddydau yn Aberystwyth yfory. Fy mhrif nod fydd ymestyn y celfyddydau i'r rheini nad ydynt yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd, os caf ei roi felly, er mwyn gofalu bod gan gynifer â phosibl o bobl yng Nghymru gyfle i gymryd rhan. Yr wyf yn siŵr y gallwn i gyd gytuno ar hynny.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, a gytunwch â mi bod eich rhagflaenydd, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, wedi cyflawni cryn gamp drwy uno'r gymuned gelfyddydol yng Nghymru, a hynny, yn anffodus, mewn gwrthwynebiad llwyr i sut yr oedd yn gweithredu o fewn ei bortffolio? Sut y bwriadwch ailadeiladu'r berthynas â'r gymuned honno ac ailsefydlu ymddiriedaeth y gymuned yn y Llywodraeth a sut y mae'n ymdrin â'r byd celfyddydol yng Nghymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, do you agree with me that your predecessor, the Minister for Culture, Welsh Language and Sport, achieved a great deal in uniting the arts community in Wales, and that, unfortunately, in complete opposition to the way he operated within his portfolio? How do you intend to rebjuild the relationship with that community and re-establish the trust of that community in the Government and in the way it deals with the arts world in Wales?

**Carwyn Jones:** Fel y dywedais eisoes, byddaf yn rhoi araith yng nghynhadledd cyngor y celfyddydau yfory, a gobeithiaf y caiff ei chroesawu.

**Carwyn Jones:** As I have already said, I will address the arts council's conference tomorrow, which I hope will be welcomed.

**The Modernisation of School Buildings**

**Moderneiddio Adeiladau Ysgol**

**Q8 Peter Black:** What discussions has the Minister had with local councils regarding the modernisation of school buildings? WAQ(3)0058(ECW)

**C8 Peter Black:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda chynghorau lleol ynghylch moderneiddio adeiladau ysgolion? WAQ(3)0058(ECW)

**Carwyn Jones:** I intend to meet local councils in the coming months to discuss this issue, but I have said publicly that it is important to ensure that the school buildings investment grant is fully utilised by schools.

**Carwyn Jones:** Bwriadaf gwrdd â chynghorau lleol yn y misoedd i ddod i drafod y pwnc hwn, ond dywedais yn gyhoeddus ei bod yn bwysig sicrhau bod ysgolion yn gwneud defnydd llawn o'r grant buddsoddi mewn adeiladau ysgol.

**Peter Black:** I noted what you said in answer to a previous question about the school buildings investment grant and the £9 million that was made available to local authorities. Would you accept that the report produced by the WLGA last July indicated that the amount of money that is being put into school buildings so far by the Assembly Government and local councils is completely insufficient to get school buildings up to the standard required by the target date that was set in your previous manifesto? Do you not accept that we need more resources in addition to that school buildings grant if we

**Peter Black:** Nodais yr hyn a ddywedasoch mewn ateb i gwestiwn blaenorol am y grant buddsoddi mewn adeiladau ysgol a'r £9 miliwn a oedd ar gael i awdurdodau lleol. A fyddech yn derbyn bod yr adroddiad a gynhyrchwyd gan CLlLC fis Gorffennaf diwethaf yn dweud bod swm yr arian a roddir ar gyfer adeiladau ysgol hyd yma gan Lywodraeth y Cynulliad a chynghorau lleol yn hollol annigonol i godi safon adeiladau ysgol i'r hyn sy'n angenrheidiol erbyn y dyddiad targed a osodwyd yn eich maniffesto blaenorol? Onid ydych yn derbyn bod arnom angen mwy o adnoddau yn ychwanegol at y

are to meet that challenge?

grant hwnnw ar gyfer adeiladau ysgol os ydym am ateb yr her honno?

**Carwyn Jones:** It is important that the resources that are currently available are fully utilised, which is not the case at the moment. It is clear that we have a backlog of repairs in terms of school buildings; that has been the case for many years. We know that throughout the 1980s, in particular, next to nothing was put into schools, and that is a legacy that we continue to live with. Money has been made available through the school buildings investment grant, but that has not been fully utilised yet. Local councils across Wales must utilise it to ensure that those improvements are made.

**Carwyn Jones:** Mae'n bwysig i'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd gael eu defnyddio i'r eithaf; nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'n amlwg fod gennym nifer o achosion wedi cronni o drwsio adeiladau ysgolion; felly y bu ers llawer blwyddyn. Gwyddom, trwy gydol y 1980au yn arbennig, na roddwyd fawr ddim i ysgolion, a'n bod yn dal i fyw gyda'r waddol honno. Darparwyd arian trwy'r grant buddsoddi mewn adeiladau ysgolion, ond ni ddefnyddiwyd yr arian hwnnw yn llawn eto. Rhaid i gynghorau lleol ledled Cymru ei ddefnyddio i sicrhau gwneud y gwelliannau hynny.

**Peter Black:** Are you saying, therefore, that once that money has been utilised, no more money is available? Are you going to visit councils to talk to them about the school buildings programme without putting anything extra on the table for them? Can you confirm that when you talk to councils, you will be able to assist them in meeting some sort of target to get school buildings up to scratch?

**Peter Black:** Ai dweud yr ydych, felly, na fydd dim mwy o arian ar gael ar ôl i'r arian hwnnw gael ei ddefnyddio? A fyddwch yn ymweld â chynghorau i siarad â hwy am y rhaglen adeiladau ysgolion heb roi dim mwy ar y bwrdd iddynt? A fedrwch gadarnhau, pan fyddwch yn siarad â'r cynghorau, y byddwch yn medru eu helpu i gwrdd â rhyw fath o darged i godi safon adeiladau ysgolion?

**Carwyn Jones:** We all want to get school buildings up to scratch, but it is also important that, when there is money already on the table, that money is used. There are examples across Wales where that is not the case. I am aware of a particular example in my constituency where the money has been available for four years, but the school has not started to use it. That does not help when it comes to looking at further resources, even though we all know that further resources are needed. However, it is important that those resources are used when they are on the table.

**Carwyn Jones:** Yr ydym i gyd am godi safon adeiladau ysgolion, ond mae'n bwysig hefyd, lle mae arian eisoes ar gael, i'r arian hwnnw gael ei ddefnyddio. Mae achosion ledled Cymru lle nad yw hynny'n digwydd. Gwn am enghraifft benodol yn f'etholaeth i lle bu arian ar gael ers pedair blynedd, ond nad yw'r ysgol wedi dechrau ei ddefnyddio. Nid yw hynny o gymorth pan ddaw'n fater o edrych ar fwy o adnoddau, er y gwyddom i gyd fod angen mwy o adnoddau. Fodd bynnag, mae'n bwysig i'r adnoddau hynny gael eu defnyddio pan fyddant ar gael.

**David Lloyd:** Heb anghofio'r problemau ariannol, beth yn union yr ydych yn ei wneud i annog creu rhagor o ysgolion cyfrwng Cymraeg?

**David Lloyd:** Without forgetting the financial problems, what exactly are you doing to encourage the setting up of more Welsh-medium schools?

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn nodi'r twf mewn ysgolion Cymraeg sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn ysgolion Cymraeg. Mae hefyd yn bwysig i sicrhau nad yw hyn yn cael

**Carwyn Jones:** I note the growth in Welsh-medium school over the last few years. It is important that local authorities secure adequate provision of places in Welsh-medium schools. It is also important to ensure that this is not seen as some sort of an

ei weld fel rhyw fath o ffrae gyda'r rhai sydd am gadw ysgol Saesneg mewn un ardal ac sydd yn meddwl bod ysgol Saesneg yn cael ei chau oherwydd bod ysgol Gymraeg yn agor. Mae'n bwysig nad yw hynny'n digwydd. Yr wyf wedi nodi ymateb rhai rhieni yng Nghaerdydd, a hefyd yn Abertawe os wyf yn cofio'n iawn, lle bu helynt ynglŷn â'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod lleoedd ar gael ym mhob ysgol.

argument with those who wish to keep English-medium schools open in certain areas and who think that an English-medium school is being closed as a result of opening a Welsh-medium school. It is important that that does not happen. I have noted the response of some parents in Cardiff, and also in Swansea, I believe, where there has been trouble on this issue. However, it is important that local authorities ensure that places are available in all schools.

**Andrew R.T. Davies:** I congratulate you on your new appointment in the Cabinet; I hope that the cutting tendencies that you brought to your last Cabinet job—that is, on the Tir Mynydd proposals—are not carried with you to the education portfolio.

**Andrew R.T. Davies:** Carwn eich llongyfarch ar eich penodiad newydd yn y Cabinet; gobeithio na fyddwch yn dod â'r tueddiadau i dorri a welwyd yn eich swydd ddiwethaf yn y Cabinet—hynny yw, ar y cynigion Tir Mynydd—gyda chi i'r portffolio addysg.

I invite you to visit Cowbridge Comprehensive School in my constituency. Although there are many schools demanding new buildings, the situation and plight of the school in Cowbridge is outstanding. The lower school, in particular, has problems with raw sewage and a rat infestation. That children are being taught in that environment in the twenty-first century demands action, sooner rather than later. I heard your response to a previous question and I am glad that the money has supposedly been sent through, or granted, to the Vale of Glamorgan Council, but we need ministerial, council and rainbow coalition work to get these agenda items through, so that a new school is delivered to the town—

Fe'ch gwahoddaf i ymweld ag Ysgol Gyfun y Bont-faen yn f'etholaeth. Er bod nifer o ysgolion yn crefu am adeiladau newydd, mae sefyllfa a chyflwr yr ysgol yn y Bont-faen yn enbydus. Mae gan yr ysgol isaf, yn arbennig, broblemau gyda charthion heb eu trin a phla o lygod mawr. Mae'r ffaith fod plant yn cael eu dysgu dan amodau felly yn yr unfed ganrif ar hugain yn galw am weithredu, a hynny ar fyrder. Clywais eich ateb i gwestiwn blaenorol ac yr wyf yn falch fod yr arian wedi ei anfon, neu ei ganiatáu, mi dybiaf, i Gyngor Bro Morgannwg. Ond mae arnom angen gwaith gan weinidogion, y cyngor a chlymblaid yr enfys i gael yr eitemau hyn ar yr agenda drwodd fel y caiff y dref ysgol newydd—

**The Presiding Officer:** Order. The Minister has no responsibility for any coalitions, as far as I am aware.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes gan y Gweinidog gyfrifoldeb am unrhyw glymbleidiau, hyd y gwn i.

**Carwyn Jones:** I refer Andrew to the answer that I gave earlier to Chris Franks. It is hoped that work will begin next year on replacing Cowbridge Comprehensive School. It is a pity that the Tories were not against school cuts back in the 1980s, when they caused this situation at Cowbridge school and so many other schools across Wales. [*Interruption*.]

**Carwyn Jones:** Cyfeiriaf Andrew at yr ateb a roddais yn gynharach i Chris Franks. Y gobaith yw y bydd y gwaith yn dechrau y flwyddyn nesaf ar gael adeilad newydd i Ysgol Gyfun y Bont-faen. Mae'n drueni nad oedd y Torïaid yn gwrthwynebu toriadau mewn ysgolion yn ôl yn y 1980au, pan achoswyd y sefyllfa hon ganddynt yn y Bont-faen a chynifer o ysgolion eraill ledled Cymru. [*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** I call Chris Franks to ask his question.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Chris Franks i ofyn ei gwestiwn.

**Chris Franks:** I hope that no-one shouts at me, Presiding Officer.

**Chris Franks**: Gobeithio na fydd neb yn gweiddi arnaf, Mr. Llywydd.

**The Presiding Officer:** I can assure you that I will protect you, since you are also my ward councillor.

**Y Llywydd:** Gallaf eich sicrhau y byddaf yn eich amddiffyn, gan mai chi hefyd yw'r cynghorydd dros fy ward.

**Chris Franks:** I look after a lot of people.

**Chris Franks:** Yr wyf yn gofalu am lawer o bobl.

### School Organisation

### Trefniadaeth Ysgolion

**Q9 Chris Franks:** Will the Minister make a statement on local authority plans for school organisation? OAQ(3)0047(ECW)

**C9 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer trefniadaeth ysgolion? OAQ(3)0047(ECW)

**Carwyn Jones:** As I mentioned earlier, we have a difficulty in the sense that we already have many thousands of surplus places in our schools. In 2014, we will have—at present projections—100,000 surplus places. Change is difficult; let us not pretend otherwise. Clearly, there will be a need to ensure that local authorities, in their plans for the future, plan for the fact that there are surplus places.

**Carwyn Jones:** Fel y soniais eisoes, mae gennym anhawster yn yr ystyr bod gennym eisoes filoedd lawer o lefydd dros ben yn ein hysgolion. Yn 2014, bydd gennym—yn ôl y rhagamcanion diweddaraf—100,000 o lefydd dros ben. Mae newid yn anodd; waeth i ni heb â chymryd arnom i'r gwrthwyneb. Yn amlwg, bydd angen sicrhau bod awdurdodau lleol, yn eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, yn cynllunio ar gyfer y ffaith fod yno lefydd dros ben.

**Chris Franks:** I am sure that the Minister is aware of the serious problems of overcrowding in many Welsh-medium schools, for instance, in Ysgol Gymraeg Treganna in Cardiff, there is a severe lack of capacity. A similar situation exists in Gartholwg and Aberdare. These examples highlight the problem of the slow rate of progress in the provision of Welsh-medium schools at both primary and secondary levels. There is a shortage of places right now and there are not enough places for pupils in September. What conversations do you intend to have with your colleagues in Cardiff and Rhondda Cynon Taf councils to see when this issue will be addressed?

**Chris Franks:** Yr wyf yn siŵr fod y Gweinidog yn ymwybodol o broblemau difrifol gorlenwi mewn llawer ysgol gyfrwng-Cymraeg, er enghraifft, yn ysgol Gymraeg Treganna yng Nghaerdydd, y mae diffyg lle difrifol. Tebyg yw'r sefyllfa yn ysgol Gartholwg ac Aberdâr. Mae'r enghreifftiau hyn yn tynnu sylw at broblem arafwch y ynnydd wrth ddarparu ysgolion cyfrwng-Cymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd. Mae yna brinder llefydd y funud hon, ac nid oes digon o lefydd i ddisgyblion ar gyfer mis Medi. Pa sgyrsiau y bwriadwch eu cael gyda'ch cydweithwyr yng nghynghorau Caerdydd a Rhondda Cynon Taf i weld pryd yr ymdrinnir â'r mater hwn?

Secondly, there appears to be a measurable change in demography, with the latest UK data showing a future trend of an increasing birth rate to at least 2.1 children per family. Rolls may not continue to fall, and surplus places may be a historical blip. Do you accept that school are not simply buildings, but social and cultural assets? Do you agree

Yn ail, mae'n ymddangos bod yna newid mesuradwy mewn demograffeg, gyda'r data diweddaraf am y DU yn dangos tuedd yn y dyfodol o gynnydd yn y gyfradd genedigaethau hyd at o leiaf 2.1 o blant ym mhob teulu. Efallai na fydd niferoedd ar y llyfrau'n dal i gwympo ac y gall fod mai chwiw hanesyddol yw llefydd dros ben. A

that closing so many schools as a simple response to falling rolls is unacceptable?

ydych yn derbyn nad adeiladau yn unig yw ysgolion, ond asedau cymdeithasol a diwylliannol? A ydych yn cytuno nad yw cau cynifer o ysgolion fel ymateb syml i gwymp mewn niferoedd yn dderbyniol?

2.10 p.m.

I thank you for your comments about the £9 million relating to the Vale of Glamorgan. Quite honestly, Minister, that is wholly inadequate as Cowbridge alone, as my colleague has mentioned, could swallow up most of that money. The strategy that has been endorsed by all parties in the Vale of Glamorgan faces a severe funding crisis and all parties are looking to the Assembly Government to provide additional resources. Do you agree with that statement?

Diolch am eich sylwadau am y £9 miliwn i Fro Morgannwg. A bod yn hollol onest, Weinidog, mae hynny'n hollol annigonol oherwydd gallai'r Bont-faen yn unig, fel y crybwyllodd fy nghydweithiwr, lyncu'r rhan fwyaf o'r arian hwnnw. Mae'r strategaeth a gefnogwyd gan bob plaid ym Mro Morgannwg yn wynebu argyfwng cyllido difrifol, ac y mae pob plaid yn edrych at Lywodraeth y Cynulliad i ddarparu adnoddau ychwanegol. A ydych yn cytuno â'r datganiad hwnnw?

**Carwyn Jones:** The fact that Cowbridge Comprehensive School and St Cyres School are seeing such major work being done to them is a tremendous step forward for the people who live in Cowbridge and its surrounding areas, and in Penarth. That is something that we can welcome. No-one is pretending that we can deal with the entire maintenance backlog overnight, but significant progress is now being made in terms of dealing with school buildings, at a far greater rate than was the case 10, 15 or 20 years ago, and we should acknowledge that.

**Carwyn Jones:** Mae'r ffaith fod Ysgol Gyfun y Bont-faen ac Ysgol St Cyres yn gweld gwaith mor fawr yn cael ei wneud arnynt yn gam enfawr ymlaen i'r bobl sy'n byw yn y Bont-faen a'r cyffiniau, ac ym Mhenarth. Y mae hynny'n rhywbeth y gallwn ei groesawu. Nid oes neb yn cymryd arno y gallwn ddelio â'r holl waith cynnal a chadw sydd wedi cronni dros nos, ond y mae camau breision bellach yn cael eu cymryd o ran mynd i'r afael ag adeiladau ysgol, a hynny'n gyflymach o lawer nag oedd yn digwydd 10, 15 neu 20 mlynedd yn ôl, a dylem gydnabod hynny.

On school places, schools must be able to deliver an education. If a school is not able to deliver an education, it is difficult to justify it remaining open in that regard. It is also worth considering that, when we look to invest in buildings, we must be careful not to invest in buildings that may not be schools any more in five or 10 years' time. That is clearly a consideration for local authorities. Having said that, I understand the emotional attachments that people have to schools, particularly in rural areas where, quite often, the school is the last public building available in a village. As I said earlier, I am looking at more innovative ways of using small schools' buildings, but we must not kid ourselves into thinking that we can somehow keep every school open while the rolls are falling. That would not be an efficient use of money and

O ran llefydd mewn ysgolion, rhaid i ysgolion allu ddarparu addysg. Oni all ysgol ddarparu addysg, mae'n anodd cyfiawnhau ei chadw ar agor yn hynny o beth. Mae'n werth ystyried hefyd, pan fyddwn yn bwriadu buddsoddi mewn adeiladau, y dylem ochel rhag buddsoddi mewn adeiladau na fyddant, efallai, yn ysgolion ymhen pum neu 10 mlynedd. Mae hynny'n amlwg yn ystyriaeth i awdurdodau lleol. Wedi dweud hynny, deallaf yr ymlyniad emosiynol sydd gan bobl at ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mai'r ysgol, yn aml iawn, yw'r adeilad cyhoeddus olaf sydd ar gael mewn pentref. Fel y dywedais yn gynharach, yr wyf yn edrych ar ffyrdd mwy arloesol o ddefnyddio adeiladau ysgolion bach, ond ni ddylem ein twyllo'n hunain i feddwl y gallwn, rywsut, gadw pob ysgol ar agor tra

other schools would suffer as a result.

bydd y niferoedd yn cwympo. Ni fyddai hynny'n defnyddio arian yn effeithlon, a byddai ysgolion eraill yn dioddef o ganlyniad.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** On that last point, I agree with the Minister that there are tough decisions that have to be made in terms of falling school rolls in some communities in Wales. Powys has just published proposals regarding the closure of schools at Howey, Carno and elsewhere, including in other parts of the area that I represent where the Welsh language is an issue. We are faced with the prospect of losing schools where the Welsh language is the medium of instruction. Has the Minister had an opportunity to see the proposals in 'The All-Wales Accord' that would have given more money to the small schools fund, to allow us to enact some of the imaginative means that he may have been referring to, such as federation and so on? Would he welcome, and will he be pressing for, more money to go into that budget, because it is currently pretty inadequate? Faced with the sort of proposals that we are looking at, coming forward from the whole of Wales, it is a small fund to deal with a large problem.

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** Ar y pwynt olaf hwnnw, cytunaf â'r Gweinidog fod penderfyniadau anodd i'w gwneud o ran gostyngiad yn niferoedd disgyblion mewn rhai cymunedau yng Nghymru. Mae Powys newydd gyhoeddi cynigion ar gyfer cau ysgolion yn Hawau, Carno a mannau eraill, gan gynnwys rhannau eraill o'r ardal a gynrychiolaf lle mae'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth. Yr ydym yn wynebu colli ysgolion lle mae'r iaith Gymraeg yn gyfrwng dysgu. A gafodd y Gweinidog gyfle i weld y cynigion yn 'Cytundeb Cymru Gyfan' a fyddai wedi rhoi mwy o arian i'r gronfa ysgolion bach, i ganiatáu inni weithredu rhai o'r dulliau dychmygus yr oedd efallai'n cyfeirio atynt, megis ffedereiddio, ac ati? A fyddai'n croesawu mwy o arian yn y gyllideb honno, ac a fydd yn pwyso am hynny, oherwydd ar hyn o bryd y mae'n dra annigonol? Yn wyneb y mathau o gynigion yr ydym yn edrych arnynt, o safbwynt Cymru gyfan, cronfa fechan ydyw i ymdrin â phroblem fawr.

**Carwyn Jones:** As I said earlier, I am looking at innovative ways of trying to ensure the future of as many small schools as possible and we already have the community schools fund in place to deal with that. With regard to 'The All-Wales Accord', my leisure time tends to be taken up reading history and politics rather than fiction.

**Carwyn Jones:** Fel y dywedais yn gynharach, yr wyf yn edrych ar ffyrdd arloesol i geisio sicrhau dyfodol cynifer o ysgolion bach ag sydd modd, ac y mae'r gronfa ysgolion cymunedol eisoes gennym i ddelio â hynny. Parthed 'Cytundeb Cymru Gyfan', tueddu yr wyf fi yn fy amser hamdden i ddarllen hanes a gwleidyddiaeth yn hytrach na ffuglen.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiynau 10, OAQ(3)0010(SRD), ac 11, OAQ(3)0018(SRD), i'w hateb yn ysgrifenedig.

**The Presiding Officer:** Questions 10, OAQ(3)0010(SRD), and 11, OAQ(3)0018(SRD), are transferred for written answer.

### Educational Attainment

### Cyrhaeddiad Addysgol

**Q12 David Melding:** What measures are in place to improve the educational attainment of looked-after children in Wales? OAQ(3)0056(ECW)

**C12 David Melding:** Pa fesurau sydd ar waith i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n cael gofal yng Nghymru? OAQ(3)0056(ECW)

**Carwyn Jones:** I refer you to the answer that I gave to the supplementary question that you

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i'r cwestiwn atodol a ofynnwhyd

asked earlier. I would simply say that we see that looked-after children are underachieving compared with the general school population, and it is certainly a priority for us to address that.

gennych yn gynharach. Byddwn yn dweud yn syml ein bod yn gweld bod plant sy'n cael gofal yn tangyflawni o'u cymharu â'r boblogaeth ysgol yn gyffredinol, ac yn sicr mae'n flaenoriaeth inni ymdrin â hynny.

**David Melding:** Minister, you are right that looked-after children underachieve massively, according to every measure. I will not rehearse all the figures now as I know that your officials will brief you.

**David Melding:** Weinidog, yr ydych yn iawn i ddweud bod plant sy'n cael gofal yn tangyflawni'n enbyd, yn ôl pob mesur. Ni af dros y ffigyrau'n awr, oherwydd gwn y bydd eich swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ichi.

I hope that you will look at this area afresh. Your predecessor had a great commitment to it, and I was always prepared to acknowledge that; however, I think that we need to drill down more and look at some of the targets and aspirations for looked-after children and set them broadly in line with the general population. Key to that is to start with the 11-to-14-year-old group, when they go into secondary schools, which is also when a lot of children enter care. That is the key period. The one thing that we can do for looked-after children is to improve their life chances by giving them a decent education. Alas, there is not a lot that we can do in some other areas, but we can do a lot there.

Gobeithio y byddwch yn edrych ar y maes hwn o'r newydd. Yr oedd gan eich rhagflaenydd ymrwymiad mawr iddo, ac yr oeddwn bob amser yn barod i gydnabod hynny; fodd bynnag, tybiaf fod angen inni gloddio'n ddyfnach ac edrych ar rai o'r targedau a'r dyheadau ar gyfer plant sy'n cael gofal, a'u gosod yn fras ar yr un gwastad â'r boblogaeth yn gyffredinol. Un peth sy'n allweddol i hynny yw cychwyn gyda'r oedran 11 i 14 oed, pan fyddant yn mynd i'r ysgol uwchradd, sef yr adeg hefyd pan fyd nifer o blant yn mynd i mewn i'r system gofal. Dyna'r cyfnod allweddol. Yr un peth y medrwn ei wneud i blant sy'n cael gofal yw gwella'u cyfle mewn bwyd trwy roi addysg iawn iddynt. Ysywaeth, nid oes llawer y medrwn ei wneud mewn rhai meysydd eraill, ond medrwn wneud llawer yn y maes hwnnw.

**Carwyn Jones:** That is correct. In addition to the answers that I have given during the course of the afternoon, I can tell you that an education stakeholder group, which comprises Assembly officials and others, is looking at this to see how to strengthen arrangements for the education and training of looked-after children. That group will produce an action plan, which will be consulted upon during the course of this year. That will form an important element of the development of an overall strategy for enhancing the life chances of looked-after children.

**Carwyn Jones:** Mae hynny'n wir. Yn ogystal â'r atebion a roddais yn ystod y prynhawn, gallaf ddweud wrthych fod grŵp rhanddeiliaid addysg, sy'n cynnwys swyddogion y Cynulliad ac eraill, yn edrych ar hyn i weld sut y gellir cryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant i blant sy'n cael gofal. Bydd y grŵp hwnnw'n creu cynllun gweithredu, a bydd ymgynghori arno yn ystod y flwyddyn. Bydd hynny'n elfen bwysig wrth ddatblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n cael gofal.

**Funding Secondary Education**

**Cyllido Addysg Uwchradd**

**Q13 Nick Bourne:** Will the Minister make a statement on the funding of secondary education in Wales? OAQ(3)0015(ECW)

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido addysg uwchradd yng Nghymru? OAQ(3)0015(ECW)

**Carwyn Jones:** Revenue funding for pre-16

**Carwyn Jones:** Caiff cyllid refeniw ar gyfer

education is provided through the local government revenue settlement. Sixth-form provision is funded by grants to local authorities. Capital funding is provided through a range of Assembly Government grants.

addysg cyn 16 oed ei ddarparu drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer chweched dosbarth ei hariannu drwy grantiau i awdurdodau lleol. Darperir cyllid cyfalaf drwy nifer o grantiau gan Lywodraeth y Cynulliad.

**Nick Bourne:** Has the Minister taken a view on the fact that, in Wales, only 54 per cent of GCSE pupils achieve grades A to C compared with 59 per cent in England? Clearly there is nothing innate in that. Does he think that it is something to do with the funding gap, because schools in Wales are not getting as much as schools in England, as acknowledged in the last budget round by Ministers with whom he is now sitting? What will he do to redress that imbalance?

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi ffurfio barn am y ffaith mai 54 y cant yn unig o ddisgyblion TGAU yng Nghymru sy'n ennill graddau A i C o'u cymharu â 59 y cant yn Lloegr? Yn amlwg nid oes dim byd cynhenid yn hynny. A yw'n credu bod a wnelo hyn â'r bwlch cyllido, gan nad yw ysgolion Cymru yn cael cymaint o arian ag ysgolion Lloegr, fel y cydnabu'r Gweinidogion y mae'n eistedd gyda hwy yn awr yng nghylch diwethaf y gyllideb? Beth a wnaiff i geisio mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwnnw?

**Carwyn Jones:** I would dispute that there is a funding gap and I do not think that the results are to do with a funding gap. The situation has improved greatly since 1998. This is not some kind of competition with England, but we aim to further improve the number of our children who get five or more good GCSEs and, as I outlined in my answer to Mark Isherwood's first question, there are several plans in place to address that.

**Carwyn Jones:** Anghytunaf â'r honiad fod yna fwlch cyllido, ac nid wyf yn credu bod a wnelo'r canlyniadau â bwlch cyllido. Mae'r sefyllfa wedi gwella gryn dipyn er 1998. Nid rhyw fath o gystadleuaeth â Lloegr yw hyn. Yn hytrach, yr ydym yn anelu at gynyddu nifer y plant sy'n ennill pum gradd dda neu fwy mewn arholiadau TGAU, ac fel yr amlinellais yn fy ateb i gwestiwn cyntaf Mark Isherwood, mae nifer o gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hynny.

**Rhodri Glyn Thomas:** A ydych yn ymwybodol o'r problemau ariannol mae ysgolion gwledig sydd â chweched dosbarth cymharol fach yn eu hwynebu? Mewn mannau lle mae cryn bellter rhwng un ysgol a'r ysgol nesaf, byddai'n anodd rhannu darpariaeth chweched dosbarth. Beth fyddwch yn ei wneud i gynorthwyo'r ysgolion hynny i gynnig ystod eang o bynciau i'w myfyrwyr chweched dosbarth?

**Rhodri Glyn Thomas:** Are you aware of the financial problems faced by rural schools with relatively small sixth forms? In areas where there is a substantial distance between schools, it would be difficult to share sixth form provision. What will you do to help those schools to offer a wide range of subjects to their sixth form students?

**Carwyn Jones:** Mae hon yn un o'r problemau sydd wedi fy nharo dros yr wythnosau diwethaf. A yw'n bosibl rhoi digon o ddewis i blant mewn sefyllfa wledig, lle mae llawer llai o blant mewn ysgol nag sydd mewn ysgol drefol? Yr wyf am ystyried hynny dros y misoedd nesaf, a byddaf yn siarad ag ysgolion gwledig i weld a oes ffordd o ddysgu, er enghraifft, drwy fideo-gynadledda, er mwyn sicrhau bod digon o ddewis ar gael i blant mewn ardaloedd

**Carwyn Jones:** This is one of the problems that have struck me over the past weeks. Is it possible to give sufficient choice to children in a rural setting, where there are far fewer children in a school than in an urban school? I will consider that over the coming months, and I will talk to rural schools to see if there is a way of using video-conferencing, for example, to ensure that sufficient choice is available to children in rural areas. I will be discussing this subject with schools and local

gwledig. Yr wyf am drafod y pwnc hwn gydag ysgolion ac awdurdodau lleol yn fuan.

authorities soon.

**Newidiadau i'r Cwricwlwm 14-19**

**Changes to the 14-19 Curriculum**

**C14 Gareth Jones:** Sut fydd y Gweinidog yn sicrhau bod y newidiadau i'r cwricwlwm 14-19 yn cael eu gweithredu'n llawn o dan y fframwaith presennol? OAQ(3)0023(ECW)

**Q14 Gareth Jones:** How will the Minister ensure that changes to the 14-19 curriculum are being implemented in full under the existing framework? OAQ(3)0023(ECW)

**Carwyn Jones:** Ar hyn o bryd, yr ydym yn parhau i gyflwyno cymhwyster bagloriaeth Cymru. Yr ydym yn gweithio gydag Estyn, ac, fel y gwyddoch, Gareth, mae Estyn yn monitro sut y caiff y cwricwlwm ei weithredu ar draws Cymru. Mae £32.5 miliwn ar gael yn ystod 2007 i 2008 i hyrwyddo a datblygu cynlluniau datblygu rhwydwaith blynyddol, ac mae cynlluniau i ddod â deddfwriaeth o flaen y Cynulliad ar ddatblygu addysg 14-19 yn gyffredinol.

**Carwyn Jones:** We currently continue to offer the Welsh baccalaureate qualification. We are working with Estyn, and, as you know, Gareth, Estyn monitors the way in which the curriculum is implemented across Wales. There is £32.5 million available during 2007 to 2008 to promote and develop annual network development schemes, and there are plans to bring legislation before the Assembly on developing 14-19 education in general.

**Gareth Jones:** Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod angen mynd i'r afael â chwricwlwm 14-19 ac ystyried y pwyslais gwahanol sydd ar yr elfennau galwedigaethol ac academaidd. Felly, bydd yn rhaid ichi gael gweledigaeth y bydd pawb arall yn ei rhannu, ac mae angen cydweithio i sicrhau'r ddarpariaeth. A ydych yn cytuno bod gennym benbleth mawr a her yng Nghymru? Er bod enghreifftiau o gydweithio yn ein sefydliadau, mae'r sefydliadau yr ydych yn ceisio rhannu'r weledigaeth a'r gofyn hwnnw â hwy yn rhai ar wahân, ac maent, i bob pwrpas, yn annibynnol. Mae ysgolion uwchradd heddiw yn annibynnol ac maent, o reidrwydd, yn gorfod cystadlu—nid yw hynny'n berthnasol i bob un, ond mae hynny'n digwydd. Yr ydych wedi sôn am golegau addysg bellach, ac mae'r rheini hefyd yn annibynnol.

**Gareth Jones:** I am sure you would agree that the 14-19 curriculum needs to be tackled and that the different emphasis on occupational and academic elements needs to be considered. So, you will need an agreed vision, and co-operation is needed to ensure the provision. Do you agree that Wales faces a huge dilemma and challenge? Despite the examples of co-operation in our institutions, the institutions with which you wish to share that vision and requirement are individual organisations, and they are, to all intents and purposes, independent. Today's secondary schools are independent, and they must compete, of necessity—it does not true of every school, but it does happen. You mentioned further education colleges, and those are also independent.

2.20 p.m.

Yr ydym felly yn ceisio rhannu gweledigaeth a newidiadau sylfaenol, sylweddol o bwys yng Nghymru tra'n ceisio gosod hynny ar fframwaith sydd, diolch i'n cyfeillion Ceidwadol o dan Mrs Thatcher, wedi sicrhau bod yr elfen gystadleuol honno yn perthyn i bob un o'r sefydliadau. Mae ceisio cael pawb i gyd-dynnu yn her arbennig.

We are therefore trying to share a vision and major fundamental, substantial changes in Wales while trying to place those changes on a framework that ensured, thanks to our Conservative friends under Mrs Thatcher, that the competitive element is ingrained in every institution. Trying to get everyone to co-operate will be a particular challenge.

**Carwyn Jones:** Mae'n wir dweud ar hyn o

**Carwyn Jones:** It is true to say that we

bryd mai sylfaen wirfoddol sydd gennym ar gyfer rhai ysgolion gan eu bod yn annibynnol i raddau, a cholegau addysg bellach yn yr un modd. Dyma pam mae'n bwysig cael deddfwriaeth a fydd yn sicrhau ffordd statudol ymlaen, fel bod pawb yn gwybod lle maent yn sefyll ac yn gorfod dilyn arweiniad statudol er mwyn sicrhau nad yw sefydliadau o'r farn y byddai rhywun yn llenwi'r bwlch pe baent yn cymryd llwybr penodol. Dyna pam y byddai deddfwriaeth yn bwysig, a byddai'n sicrhau maes chwarae gwastad.

currently have a voluntary basis for some schools because they are independent to an extent, and similarly for further education colleges. That is why it is important to have legislation that will ensure a statutory way forward, so that everyone knows where they stand, and have to follow statutory guidance to ensure that institutions do not believe that someone would fill the gap were they to follow a specific route. That is why legislation would be important, and would ensure a level playing field.

**Alun Cairns:** The Welsh baccalaureate has had an influence at the later stages of school education and that of some further education colleges. What policies does the Minister have in place to expand the choice and to potentially seek to extend the option to pupils to include the international baccalaureate, particularly bearing in mind that it is one of the policies being pursued in England?

**Alun Cairns:** Mae bagloriaeth Cymru wedi cael dylanwad ar y camau olaf mewn addysg mewn ysgolion a'r camau olaf mewn addysg mewn rhai colegau addysg bellach. Pa bolisïau y mae'r Gweinidog wedi eu rhoi ar waith i ehangu'r dewis ac i geisio cynnwys y fagloriaeth ryngwladol yn y dewisiadau i ddisgyblion, yn arbennig o gofio bod hwn yn un o'r polisïau sy'n cael ei roi ar waith yn Lloegr?

**Carwyn Jones:** The international baccalaureate is a different qualification, and despite the fact that the two qualifications share the same name there are differences between them, especially in terms of the way in which they are administered. We are actively seeking consortia to roll out the Welsh baccalaureate, which is establishing itself very well and is increasingly being recognised by employers and higher education institutions. Our plan is to ensure that the Welsh baccalaureate is rolled out even further. It is important to say that the Welsh baccalaureate is a success because so many institutions wish to pursue its course of study, and that is something that we are keen to encourage further.

**Carwyn Jones:** Mae'r fagloriaeth ryngwladol yn gymhwyster gwahanol, ac er bod i'r ddau gymhwyster yr un enw, mae gwahaniaethau rhyngddynt, yn arbennig yn y ffordd y cânt eu gweinyddu. Yr ydym yn ceisio sefydlu consortia i gyflwyno bagloriaeth Cymru, sy'n ymsefydlu'n dda iawn ac sy'n cael ei chydnabod yn gynyddol gan gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch. Bwriadwn sicrhau y caiff bagloriaeth Cymru ei chyflwyno'n ehangach. Mae'n bwysig dweud bod bagloriaeth Cymru'n llwyddiannus oherwydd bod cynifer o sefydliadau'n awyddus i'w dilyn, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn awyddus i'w annog ymhellach.

**Priorities**

**Blaenoriaethau**

**Q15 Nick Bourne:** Will the Minister outline his priorities for the next six months? OAQ(3)0014(0014)

**C15 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau am y chwe mis nesaf? OAQ(3)0014(0014)

**Carwyn Jones:** Where shall I start? First of all, it will be important to take forward modern apprenticeships in terms of the youth service strategy that we have planned. My other priorities include developing better food standards in schools and improving school buildings along the lines that I referred to earlier. It is also important for us

**Carwyn Jones:** Ble mae rhywun i ddechrau? Yn gyntaf, bydd yn bwysig datblygu prentisiaethau modern yng nghyd-destun ein strategaeth arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid. Mae fy mlaenoriaethau eraill yn cynnwys datblygu gwell safonau bwyd mewn ysgolion, a gwella adeiladau ysgolion ar y trywydd y soniais amdano'n gynharach. Mae

to develop a strategic vision for education in Wales in order to bring together the initiatives that we have and ensure that they fit together, one example being a seamless transition between the foundation phase and key stage 2. That is important.

hefyd yn bwysig inni ddatblygu gweledigaeth strategol ar gyfer addysg yng Nghymru er mwyn dod â'n mentrau ynghyd a sicrhau eu bod yn cydweddu â'i gilydd. Un enghraifft o hynny yw cyfnod pontio di-dor rhwng y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae hynny'n bwysig.

In terms of the arts, my priority is to get as much participation as possible from the general public to raise people's spirits and horizons in that regard. Another priority is to get greater participation in sport in Wales, which was a great ambition of my previous colleague, Alun Pugh.

O ran y celfyddydau, fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl yn cymryd rhan, er mwyn codi ysbryd ac ehangu gorwelion pobl yn hynny. Blaenoriaeth arall yw annog rhagor o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru, a oedd yn uchelgais fawr i'm cyn gyd-Aelod, Alun Pugh.

Last but not least, I want to further encourage and develop the use of the Welsh language in our communities and in formal situations across Wales.

Yn olaf, ond nid y lleiaf, hoffwn annog a datblygu defnyddio'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau ac mewn sefyllfaoedd ffurfiol ledled Cymru.

**Nick Bourne:** One matter that you did not touch on relates to the higher education sector, and I wish to draw your attention to that. You and I benefited from a first-class university education in Wales under Conservative Governments, for which we paid far less than we would now. Given the wide funding gap that was acknowledged by all parties in the Assembly during the budget round last year, and given the fact that that gap is growing, is the Minister proposing to ensure that the gap is at least narrowed year on year, provided he is still in post?

**Nick Bourne:** Mae un mater na wnaethoch sôn amdano yn ymwneud â'r sector addysg uwch, a hoffwn dynnu eich sylw at hynny. Cawsoch chi a minnau'r fraint o gael addysg prifysgol o'r radd flaenaf yng Nghymru o dan Lywodraethau Ceidwadol, am bris llawer is nag y byddem yn ei dalu heddiw. O gofio'r bwlch cyllido eang a gydnabuwyd gan bob plaid yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb y llynedd, ac o gofio bod y bwlch hwnnw'n ehangu, a yw'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau y bydd y bwlch hwnnw o leiaf yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn, ar yr amod y bydd yn dal yn ei swydd?

**Carwyn Jones:** I will be meeting the vice-chancellors of the universities in Wales next week to discuss all matters with regard to higher education. Fortunately, I received a good university education despite the constraints of poor government at the time.

**Carwyn Jones:** Byddaf yn cyfarfod ag is-gangellorion prifysgolion Cymru yr wythnos nesaf i drafod pob mater yn ymwneud ag addysg uwch. Yn ffodus, cefais addysg brifysgol dda er y cyfyngiadau yn sgil llywodraeth wael ar y pryd.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 36
## Motion under Standing Order No. 36

**The Minister for Budget and Business Management (Jane Hutt):** I propose that

**Y Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes (Jane Hutt):** Cynigiaf fod

*the National Assembly for Wales resolves, under Standing Order No. 36.8(viii), to bring forward item 3 on the agenda.*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu, o dan Reol Sefydlog Rhif 36.8(viii), ymdrin ag eitem 3 ar yr agenda.*

**Y Llywydd:** A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu'r cynnig? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** Does any Member object to the motion? I see that there are no objections. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion carried.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 2.24 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 2.24 p.m.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Morâl yn y GIG
### Morale in the NHS

**The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler):** I have selected amendment 1 in the name of Kirsty Williams.

**Y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler):** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams.

**Helen Mary Jones:** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*1. calls on the Assembly Government to take steps to address low staff morale within the NHS and to begin by:*

*a) implementing the full pay increase for nurses;*

*b) developing an appropriate application process for junior doctors;*

*c) developing a strategy to minimise abuse of NHS staff.* (NNDM3615)

**Helen Mary Jones:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gymryd camau i fynd i'r afael â morâl isel ymhlith staff yn y gwasanaeth iechyd gwladol, ac i ddechrau gwneud hynny drwy:*

*a) cyflwyno'r codiad cyflog llawn ar gyfer nyrsys;*

*b) datblygu proses ymgeisio briodol ar gyfer meddygon iau;*

*c) datblygu strategaeth i leihau camdriniaeth yn erbyn staff y gwasanaeth iechyd gwladol.* (NNDM3615)

It is a pleasure and a privilege to move the first opposition debate in the new Assembly under our new rules. In doing so, I welcome our new Dirprwy Lywydd to the Chair and give my formal congratulations to her on her election to the post; I am delighted that we now have a gender-balanced team to take the Chair, and that can only enhance the quality of our debates.

Braint ac anrhydedd yw cynnig dadl gyntaf yr wrthblaid yn y Cynulliad newydd dan ein rheolau newydd. Wrth wneud hynny, croesawaf ein Dirprwy Lywydd newydd i'r Gadair a'i llongyfarch yn ffurfiol ar gael ei hethol i'r swydd; yr wyf wrth fy modd fod gennym yn awr dîm sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng y ddau ryw i gymryd y Gadair, ac yn ddi-os ni all hynny ond gwella safon ein trafodaethau.

The national health service relies entirely on people. As with all our public services, it is

Mae'r gwasanaeth iechyd gwladol yn dibynnu'n gyfan gwbl ar bobl. Fel pob un o'n

entirely dependent on the quality and commitment of its staff. We are fortunate as a nation to be served by these dedicated individuals who are passionate about their work and deeply committed to the patients in their care. All Members, and all the people of our nation, will have reason to be grateful to the staff of our national health service. At one time or another, from supporting a dying parent, being there with us when we have our children, to caring for us when we are sick, we have all had reason to be grateful to national health service staff. We have tabled this debate because we submit that these staff deserve not just our gratitude, which I am sure all are prepared to give, but our practical support and real respect. It is therefore shocking to see morale in the health service at such a low ebb. I will not say that it is an all-time low; there are those on the other side of the Chamber who like to avoid history lessons, but some of us remember the condition of the national health service in the 1980s, so I would not go quite so far as to say that this is an all-time low, but it is certainly a low point indeed.

gwasanaethau cyhoeddus, mae'n gwbl ddibynnol ar safon ac ymrwymiad ei staff. Yr ydym yn ffodus fel cenedl i gael ein gwasanaethu gan yr unigolion ymroddedig hyn sy'n teimlo'n angerddol dros eu gwaith gydag ymrwymiad cryf i'r cleifion sydd yn eu gofal. Bydd gan bob Aelod, a holl bobl Cymru, reswm i fod yn ddiolchgar i staff ein gwasanaeth iechyd gwladol. Ar ryw adeg neu'i gilydd, o fod yn gefn i dad neu fam sy'n marw, bod yno gyda ni pan fyddwn yn cael ein plant, i ofalu amdanom pan fyddwn yn sâl, mae pob un ohonom wedi cael rheswm i fod yn ddiolchgar i staff y gwasanaeth iechyd gwladol. Yr ydym wedi cyflwyno'r ddadl hon gan ein bod yn dadlau bod y staff hyn yn haeddu ein cymorth ymarferol a pharch gwirioneddol yn ogystal â'n diolch, ac y mae pawb yn barod i'w rhoi, mae'n siŵr. Brawychus, felly, yw gweld morâl yn y gwasanaeth iechyd mor isel. Ni ddywedaf ei fod gyda'r isaf erioed; mae rhai ar ochr arall y Siambr sy'n awyddus i osgoi gwersi hanes, ond mae rhai ohonom yn cofio cyflwr y gwasanaeth iechyd gwladol yn y 1980au, felly, nid wyf am fynd mor bell â dweud ei fod ar ei isaf erioed, ond mae'n sicr yn isel iawn.

There are many reasons why this should be, and I am sure that all Assembly Members come across these reasons when visiting local hospitals and surgeries. One reason is the lack of control that clinical staff feel they have in making decisions that affect their patients. They feel swallowed up by bureaucracy, and professional bodies often feel that their representations are not listened to—I cite the Royal College of Nursing's representations on the emergency strategy as an example that was completely ignored; they did not appear in the document at all. On a day-to-day level, staff feel that they are not in control of the care of their patients.

Mae llawer rheswm dros hyn, ac mae'n siŵr fod pob Aelod o'r Cynulliad yn dod ar draws y rhesymau hyn wrth ymweld ag ysbytai a meddygfeydd lleol. Un rheswm yw'r diffyg rheolaeth y mae staff clinigol yn ei deimlo wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cleifion. Teimlant eu bod yn cael eu llyncu gan fiwrocratiaeth, ac mae cyrff proffesiynol yn aml yn teimlo na wrandewir ar eu sylwadau—nodaf sylwadau Coleg Brenhinol y Nyrsys ar y strategaeth frys fel enghraifft a anwybyddwyd yn llwyr; nid oeddent i'w gweld yn y ddogfen o gwbl. O ddydd i ddydd, teimla'r staff nad hwy sy'n rheoli gofal eu cleifion.

The whole reconfiguration issue, which we will not go into at any length today, has undoubtedly led to deep insecurity in many parts of the service. Again, this has led to clinicians feeling that they are not listened to when they talk about health service needs and the needs of patients in their communities. It has also meant that health professionals sometimes find themselves in the front line of public anger at some of these decisions, over

Yn ddi-os mae'r ailgyflunio, ac ni fanylaf ar hynny heddiw, wedi arwain at ansicrwydd mawr mewn llawer rhan o'r gwasanaeth. Eto, mae hyn wedi peri i glinigwyr deimlo na wrandewir arnynt pan siaradant am anghenion y gwasanaeth iechyd ac anghenion cleifion yn eu cymunedau. Mae hefyd wedi golygu bod gweithwyr iechyd proffesiynol weithiau yn y rheng flaen wrth wynebu dicter y cyhoedd ynghylch rhai o'r penderfyniadau

which they feel they have no control

hyn, sy’n benderfyniadau nad ydynt yn teimlo bod ganddynt reolaeth drostynt.

There is the issue of ‘Agenda for Change’, a fair pay system for national health service staff that has still not been fully implemented and is still not being fully funded. Many staff are enormously frustrated by that. Indeed, ‘Agenda for Change’ itself is not comprehensive, as it does not include those nursing staff employed directly by GPs’ surgeries for example. Although we have a pay system that has raised expectations of better pay, it has not been delivered on. We have seen rising levels of abuse of, and violence against, staff, and I will return to that theme. Also, there are specific issues, such as those we refer to in our motion.

Mae problem gyda’r ‘Agenda ar gyfer Newid’, system cyflogau teg i staff y gwasanaeth iechyd gwladol sy’n dal heb ei gweithredu’n llawn a heb ei hariannu’n llawn. Mae nifer o staff yn teimlo’n rhwystredig iawn ynghylch hynny. Nid yw’r ‘Agenda ar gyfer Newid’ ei hun yn gynhwysfawr, gan nad yw’n cynnwys y staff nyrsio hynny a gyflogir yn uniongyrchol gan feddygfeydd, er enghraifft. Er bod gennym system gyflogau sydd wedi codi disgwyliadau ynghylch gwell cyflog, nid yw wedi cyflawni hynny. Gwelsom gynnydd yn nifer y staff sy’n cael eu cam-drin ac sy’n dioddef trais, a dof yn ôl at y thema honno. Mae yna broblemau penodol hefyd, fel y rhai y cyfeiriwn atynt yn ein cynnig.

The failure to plan effectively for the workforce means that we train staff who then find that they cannot find jobs. We subsequently cut the number of training places, and then we find that we have to look to other countries for nursing staff in particular, along with therapists, physiotherapists, occupational therapists and so on. This is deeply frustrating to the young people who work, train and prepare for these demanding roles and then find that they cannot fulfil them. There is the fiasco of the junior doctors’ application process, which would have been funny if it was not so serious. Then there is the utterly unjust refusal to pay what is a moderate pay increase to our nurses.

Mae methu â chynllunio’n effeithiol ar gyfer y gweithlu yn golygu ein bod yn hyfforddi staff sydd wedyn yn methu cael swyddi. O ganlyniad yr ydym yn cwtogi ar nifer y lleoedd hyfforddi, ac yna’n gweld bod yn rhaid inni droi at wledydd eraill i gael staff nyrsio yn arbennig, ynghyd â therapyddion, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, ac ati. Mae hyn yn rhwystredig iawn i’r bobl ifanc sy’n gweithio, yn hyfforddi ac yn paratoi ar gyfer y rolau prysur hyn ac yna’n gsweld na allant eu cyflawni. Mae’r ffiasgo ynghylch y broses ymgeisio ar gyfer meddygon iau, a fyddai wedi bod yn ddoniol oni bai ei fod yn fater mor ddifrifol. Yna’r penderfyniad cwbl anghyfiawn i wrthod rhoi codiad cyflog cymedrol i’n nyrsys.

I am sure that we all agree that this situation with regard to staff morale is serious and that it cannot be allowed to continue. However, we will need more than warm words to address the matter. Our motion proposes three specific steps for the Government to take to begin to address these issues. These are steps that the Government could take, and we believe that it should.

Yr wyf yn siŵr y cytunwn i gyd fod y sefyllfa hon ynghylch morâl staff yn un ddifrifol ac na ellir caniatáu iddi barhau. Fodd bynnag, bydd angen mwy na geiriau caredig i fynd i’r afael â’r mater. Yn ein cynnig, amlinellir tri cham penodol i’r Llywodraeth eu cymryd er mwyn dechrau mynd i’r afael â’r problemau hyn. Mae’r rhain yn gamau y gallai’r Llywodraeth eu cymryd, a chredwn y dylai wneud hynny.

On the matter of nurses’ pay, it is shocking that we face the prospect of the Royal College of Nursing taking the unprecedented step of balloting its staff on industrial action.

O ran cyflogau nyrsys, mae’n frawychus ein bod yn wynebu’r posibilrwydd y bydd Coleg Brenhinol y Nyrsys yn cymryd cam na chymerwyd erioed o’r blaen, sef cynnal

It is not threatening to go on strike, because that is against its standing orders and, indeed, its principles, and nurses do not want to leave their patients without care. Therefore, it is talking about withdrawing unpaid overtime, which, to be quite honest, nurses should not be required to do anyway. It has been estimated that that would cost the national health service £3 million a week across Britain, and £1.3 million a week in Wales.

pleidlais ymysg ei staff ynghylch gweithredu diwydiannol. Nid yw'n bygwth mynd ar streic, oherwydd mae hynny'n groes i'w reolau sefydlog, ac yn wir yn groes i'w egwyddorion, ac nid yw nyrsys am adael eu cleifion heb ofal. Felly, mae'n sôn am wrthod gweithio goramser heb dâl, sy'n rhywbeth na ddylid gofyn i nyrsys ei wneud beth bynnag, a bod yn gwbl onest. Amcangyfrifir y byddai hynny'n costio £3 miliwn yr wythnos i'r gwasanaeth iechyd gwladol ledled Prydain, ac £1.3 miliwn yr wythnos yng Nghymru.

2.30 p.m.

The nurses are furious about the way in which they have been treated over this pay rise, and they have every right to be. After all, this is not an excessive award: 2.5 per cent is hardly generous, particularly to a group of workers who are pretty low-paid anyway. We should bear in mind that 68 per cent of nurses do extra work, over and above their core work—whether that is agency nursing, serving behind a bar, or working as waiting staff—because they cannot live on the money that they are paid, and they cannot look after their families. They are asking for only 2.5 per cent, which was recommended by an independent pay review. We believe that the Government of Wales should implement the independent pay review's recommendation at once, as the Scottish Executive has done and the Northern Ireland Executive is considering.

Mae'r nyrsys yn flin iawn am y ffordd y maent wedi eu trin o ran y codiad cyflog, ac mae ganddynt hawl i fod yn flin. Wedi'r cyfan, nid yw hwn yn ddyfarniad cyflog gormodol: ni ellid honni bod 2.5 y cant yn arbennig o hael, yn enwedig i grŵp o weithwyr sy'n cael cyflog digon isel yn y lle cyntaf. Dylem gofio bod 68 y cant o nyrsys yn gwneud gwaith ychwanegol, ar ben eu gwaith craidd—boed hwnnw'n waith nyrsio i asiantaethau, yn gweithio y tu ôl i far mewn tafarn, neu'n gweini mewn bwyty—oherwydd na allant fyw ar y gyflog a gânt, ac oherwydd na allant ofalu am eu teuluoedd. Dim ond am 2.5 y cant maent yn gofyn, swm a oedd wedi ei argymell gan adolygiad cyflog annibynnol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru dderbyn argymhelliad yr adolygiad cyflog annibynnol ar unwaith, fel y gwnaeth Gweithrediaeth yr Alban ac fel y mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn ei ystyried.

I should stress here that we are not asking you to deviate from that, though I am sure that many of us wish that we were in a position to offer our nurses a more generous pay settlement in Wales. However, the truth is that we acknowledge that that is not possible, and the nurses are asking only for what they have been told they are entitled to by an independent review. I do not think that that is a great deal to ask.

Dylwn bwysleisio yma nad ydym yn gofyn ichi wyro oddi wrth hynny, er fy mod yn siŵr y byddai nifer ohonom yn falch o fod mewn sefyllfa i gynnig setliad cyflog mwy hael i nyrsys yng Nghymru. Fodd bynnag, y gwir yw ein bod yn cydnabod nad yw hynny'n bosibl, a'r unig beth y mae'r nyrsys yn gofyn amdano yw'r hyn y dywed adolygiad annibynnol y mae ganddynt hawl iddo. Ni chredaf fod hynny'n gofyn llawer iawn.

There will be a cost, and the First Minister, in response spoke about that to earlier questions. That cost is an estimated £7 million. We would have to experience only a few weeks of industrial action to lose more than that from our national health service. It

Bydd cost ynghlwm wrth hyn, a soniodd y Prif Weinidog am hynny mewn ymateb i gwestiynau cynharach. Amcangyfrifir y bydd y gost yn £7 miliwn. Dim ond ychydig wythnosau o weithredu diwydiannol y byddai eu hangen i golli mwy na hynny o'n

is a small sum of money compared with the amount of unpaid work that nurses do. The Minister is right to raise affordability, and no-one is making excessive or undeliverable demands; certainly, we on these benches would be happy to work with the Minister and her officials to identify where this money might be found from existing budgets. However, I also put it to the Minister that most trusts will have budgeted for a pay rise of about 2.5 per cent—and it has been put to me that some trusts have actually budgeted for a little more—so it may be possible to meet at least part of the cost of this £7 million from existing budgets.

gwasanaeth iechyd gwladol. Mae'n swm bach o'i gymharu â'r holl waith di-dâl mae nyrsys yn ei wneud. Mae'r Gweinidog yn iawn i godi mater fforddiadwyedd, ac nid oes neb yn gofyn am rywbeth gormodol neu rywbeth na ellid ei gyflawni; yn sicr, byddem ni ar y meinciau hyn yn hapus i weithio gyda'r Gweinidog a'i swyddogion i weld sut y gellid dod o hyd i'r arian hwn o gyllidebau eraill. Fodd bynnag, yr wyf hefyd wedi dweud wrth y Gweinidog y bydd y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau wedi cyllidebu ar gyfer codiad cyflog o tua 2.5 y cant—a dywedwyd wrthyf fod rhai ymddiriedolaethau wedi cyllidebu ar gyfer ychydig yn fwy—felly, gall fod yn bosibl talu o leiaf ran o'r gost o £7 miliwn o gyllidebau presennol.

The Minister has also raised concerns about moves from the Treasury towards regional pay, and I acknowledge that those concerns are genuine. I will have more to say about that in my response to this debate. At this point, I urge the Minister to agree to meet the RCN to discuss again its position on regional pay. I am aware that she has already held one meeting, but it would be useful for her to have further discussions, particularly in light of developments in Scotland, where issues about how the pay rise could be implemented have been overcome, and in the light of further negotiations that the RCN is pursuing with the Treasury.

Mae'r Gweinidog wedi mynegi pryderon hefyd ynghylch cynlluniau'r Trysorlys ar gyfer cyflogau rhanbarthol, ac yr wyf yn cydnabod bod y pryderon hynny'n rhai gwirioneddol. Bydd gennyf ragor i'w ddweud am hynny yn fy ymateb i'r ddadl hon. Ar hyn o bryd, pwysaf ar y Gweinidog i gytuno i gwrdd â Choleg Brenhinol y Nyrsys i drafod unwaith eto ei safbwynt ar gyflogau rhanbarthol. Yr wyf yn ymwybodol ei bod wedi cael un cyfarfod eisoes, ond byddai'n ddefnyddiol pe bai hi'n cael trafodaethau pellach, yn enwedig yn sgil datblygiadau yn yr Alban, lle mae problemau ynglŷn â sut y gellid gweithredu'r codiad cyflog wedi eu goresgyn, ac yn sgil y negodi pellach y mae Coleg Brenhinol y Nyrsys am ei gael gyda'r Trysorlys.

We believe that the full pay rise could be and should be met, not only because it would make a practical difference to nurses with not a great deal but a little bit more in their pockets, but also because it would send a clear and practical message to nursing staff that we value them. Who knows? It might even put pressure on the Treasury, and make it see sense. If we have done it and Scotland has done it, the mean position being taken in the Treasury would be clearly highlighted.

Credwn y gellid ac y dylid talu'r codiad yn llawn, nid yn unig oherwydd y byddai'n gwneud gwahaniaeth ymarferol i nyrsys gael nid llawer ond ychydig yn rhagor yn eu pocedi, ond hefyd oherwydd y byddai'n cyfleu neges glir ac ymarferol i staff nyrsio ein bod yn eu gwerthfawrogi. Pwy a ŵyr? Gallai hyd yn oed roi pwysau ar y Trysorlys, a gwneud iddynt weld ychydig synnwyr. Os byddem ni wedi ei wneud a'r Alban wedi ei wneud, byddai hynny'n tynnu sylw at agwedd gybyddlyd y Trysorlys.

I now come to the issue of the junior doctors' application process. I will not set out in detail what went wrong, as my colleague, Dai Lloyd, will do so in his contribution to the

Dof yn awr at y broses ymgeisio ar gyfer meddygon iau. Nid wyf am fanylu am yr hyn a aeth o'i le, gan fod fy nghyd-aelod, Dai Lloyd, am wneud hynny yn ei gyfraniad at y

debate, but we all know that it was disastrous. It was demoralising, unfair, and, from the point of view of the national health service, it was completely ineffective. We took the risk of totally failing to match the best applicant to the job, and that has implications not only for the junior doctor in question but also for the patients who need treatment from him or her. We know that, fortunately, the same system will not be used next year—and thank goodness for that. We would all acknowledge that the previous system had its faults, as well, so I am not harking back to the old system and claiming that it was perfect—far from it. However, we have to be assured that work is being undertaken now to ensure that an effective system is in place for the next round, and I hope that the Minister will commit today to working with representatives of the profession, particularly those who represent junior doctors, to ensure that this fiasco is not repeated.

ddadl, ond gwyddom i gyd fod y peth yn drychineb. Yr oedd yn niweidiol i forâl, yn annheg, ac o safbwynt y gwasanaeth iechyd gwladol, yn gwbl aneffeithiol. Mentrwyd methu'n llwyr â rhoi'r ymgeiswyr gorau yn y swyddi, ac mae i hynny oblygiadau nid yn unig i'r meddyg iau dan sylw ond hefyd i'r cleifion sy'n gofyn iddo ef nei hi eu trin. Gwyddom, trwy lwc, na fydd yr un system yn cael ei defnyddio'r flwyddyn nesaf—a diolch byth am hynny. Byddem i gyd yn cydnabod bod gan y system flaenorol ei beiau, felly, nid wyf yn hiraethu am yr hen system a honni ei bod yn berffaith—yr oedd ymhell o fod yn berffaith. Fodd bynnag, yr ydym am gael sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud yn awr i sicrhau y bydd system effeithiol ar waith erbyn y rownd nesaf, a gobeithio y bydd y Gweinidog yn ymrwymo heddiw i weithio gyda chynrychiolwyr y proffesiwn, yn enwedig y rheini sy'n gweithio gyda meddygon iau, i sicrhau na fydd y llanast hwn yn ailddigwydd.

Violence and the abuse of staff in our health service are a serious problem. The headline figures may not look that grave, but it is clear that the number of incidents is rising. Incidents of violence against ambulance staff went up by 59 per cent between 2004-05 and 2005-06. There is also a huge issue with underreporting. I have been shocked to witness incidents in accident-and-emergency departments, where a member of staff has been shouted at, humiliated or threatened with violence, and yet nothing happened. The security guard is called and the person is ejected but no-one makes a report. It is an indictment of our system that staff working in the health service just take that as part of what they have to tolerate daily.

Mae'r trais a'r cam-drin staff yn y gwasanaeth iechyd yn broblem ddifrifol. Efallai nad yw'r prif ffigurau'n edrych mor ddifrifol â hynny, ond mae'n amlwg fod nifer yr achosion ar gynnydd. Bu cynnydd o 59 y cant yn nifer yr achosion yn erbyn staff ambiwlans rhwng 2004-05 a 2005-06. Mae yna broblem fawr hefyd am nad yw'r awdurdodau'n cael gwybod am nifer o ddigwyddiadau. Cefais fy mrawychu pan oeddwn yn dyst i ddigwyddiadau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, pan oedd cleifion yn gweiddi ar aelodau staff, yn eu bychanu neu'n eu bygwth â thrais, ac eto ni ddigwyddodd dim. Galwyd ar y swyddog diogelwch a throwyd y person hwnnw allan, ond nid oes neb yn ysgrifennu adroddiad. Mae'n arwydd o gyflwr ein system fod staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd yn derbyn hynny fel rhan o'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei ddioddef o ddydd i ddydd.

I was shocked to discover that, in one NHS trust—and it would be invidious of me to name it now, but I will inform the Minister—when staff are assaulted, they have to fill in their own forms. When working in the casualty department, they are expected to fill them in during their tea break, because they are too busy at other times. For my sins, I have been a health and safety officer, and so I

Cefais fy nychryn o ddarganfod, mewn un Ymddiriedolaeth GIG—a byddai'n annheg imi ei henwi yma, ond byddaf yn rhoi gwybod i'r Gweinidog—fod staff yn gorfod llenwi eu ffurflenni eu hunain pan ymosodir arnynt. Pan fyddant yn gweithio yn yr adran ddamweiniau, mae disgwyl iddynt eu llenwi yn ystod eu hegwyl, am eu bod yn rhy brysur ar adegau eraill. Am fy mhechodau, yr wyf

know that the normal working practice is for your line manager to complete the form with you, make sure that the incident is properly reported and that you get all the support that you need to get over it. That does not happen in our national health service.

wedi bod yn swyddog iechyd a diogelwch, ac felly gwn mai'r hyn sy'n arferol yw bod eich rheolwr llinell yn llenwi'r ffurflen gyda chi, yn sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gofnodi'n gywir a'ch bod yn cael yr holl gefnogaeth y mae ei hangen arnoch i ddod dros y profiad. Nid yw hynny'n digwydd yn ein gwasanaeth iechyd gwladol.

According to Royal College of Nursing figures, four out of 10 nurses have been physically assaulted at work. I am not talking about being shouted at and intimidated, but I am talking about being hit or pushed. That is almost half the workforce. Can we think of another working situation in which that would be tolerated or deemed acceptable? Many nursing staff are women, and many of them work in situations where they are also vulnerable to sexual attack, particularly those who work outside hospital settings.

Yn ôl ffigurau Coleg Brenhinol y Nyrsys, mae pedair nyrs o bob 10 wedi dioddef ymosodiad corfforol yn eu gwaith. Nid wyf yn sôn am weiddi a bygwth, ond sôn yr wyf am gael eu taro neu eu gwthio. Mae hynny bron i hanner y gweithlu. Allwch chi feddwl am waith arall lle byddai hynny'n cael ei oddef neu ei ystyried yn dderbyniol? Mae nifer o'r staff nyrsio'n ferched, a nifer ohonynt yn gweithio mewn sefyllfaoedd lle maent hefyd yn agored i ymosodiadau rhywiol, yn enwedig y rheini sy'n gweithio y tu allan i ysbytai.

We would acknowledge that steps have been taken by the Assembly Government and by some trusts and other NHS employers, but good practice is far from universal. We do not even have consistent definitions of what constitutes violence and aggression across the national health service in Wales. When does a raised voice because a patient is upset and frightened become an unacceptable level of aggression? We have not even agreed that across the service. In that context, I am more than happy to accept the amendment tabled by the Liberal Democrats, as long as it is not taken to imply that the action set out is the only thing needed to be done to develop an effective national strategy.

Byddem yn cydnabod bod Llywodraeth y Cynulliad a rhai ymddiriedolaethau a chyflogwyr eraill yn y GIG wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, ond mae arferion da ymhell o fod yn gyffredinol. Nid oes gennym hyd yn oed ddiffiniadau cyson o'r hyn yw trais ac ymddygiad ymosodol ar draws y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Pa bryd y mae codi llais am fod claf wedi cynhyrfu neu wedi dychryn yn datblygu'n lefel annerbyniol o ymddygiad ymosodol? Yn y cyd-destun hwn, yr wyf yn fwy na pharod i dderbyn y gwelliant a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, cyn belled na chymerir ei fod yn awgrymu mai'r cam a amlinellwyd yw'r unig beth y mae angen ei wneud i ddatblygu strategaeth genedlaethol effeithiol.

I am sure that the Minister and all of us will agree that action needs to be taken on this, and I hope that she will agree to develop a national strategy to counteract violence and abuse in the national health service, in consultation with staff and their representatives. Surely the very least that our staff deserve is to be safe in their workplaces.

Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog a phob un ohonom yn cytuno bod angen gweithredu ar hyn, a gobeithio y bydd yn cytuno i ddatblygu strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â thrais ac ymddygiad ymosodol yn y gwasanaeth iechyd gwladol, drwy ymgynghori â staff a'u cynrychiolwyr. Mae ein staff yn haeddu o leiaf cael bod yn ddiogel yn eu gweithle.

None of us can believe that the current situation is acceptable. We are losing too many of our brightest and best staff who take

Ni all neb ohonom gredu bod y sefyllfa bresennol yn dderbyniol. Yr ydym yn colli llawer gormod o'n staff mwyaf disglair a'n

up jobs abroad. Many others leave the profession altogether and many become ill through stress, some of whom never recover. We all agree that NHS staff deserve better than that, but the staff will want more than our agreement and they will certainly want more than our sympathy. To be perfectly honest, I think that they have had enough of that in recent years. They will want concrete, specific action to address their concerns. I hope that the Minister, in her contribution to this debate, can give assurances that they will get it.

staff gorau wrth iddynt dderbyn swyddi mewn gwledydd tramor. Mae nifer o rai eraill yn gadael y proffesiwn yn llwyr a bydd nifer yn mynd yn sâl oherwydd straen, rai ohonynt heb wella o gwbl. Yr ydym i gyd yn cytuno bod staff y GIG yn haeddu mwy na hynny, ond bydd y staff am gael mwy na'n cytundeb ni, ac yn sicr byddant am gael mwy na'n cydymdeimlad. A dweud y gwir, credaf eu bod wedi cael digon o hynny yn y blynyddoedd diwethaf. Byddant am weld gweithredu pendant a phenodol i fynd i'r afael â'u pryderon. Gobeithio y bydd y Gweinidog, yn ei chyfraniad at y ddadl hon, yn gallu rhoi sicrwydd y byddant yn cael hynny.

**Jenny Randerson:** I propose amendment 1 in the name of Kirsty Williams. Add at the end of point (c):

*by requiring all local health boards and trusts to have robust procedures in place to deal with those who intimidate staff and to support staff after such incidents.*

I propose this amendment, because I feel particularly strongly about violence against NHS staff. It is an affront to human dignity and an issue to which we must adopt a zero-tolerance approach in a civilized twenty-first-century society. We have to insist—and I use that word carefully—that all local health boards and trusts in Wales adopt a zero-tolerance approach, that they have the right procedures in place to deal with the issue, and that they support those staff who suffer violence.

In 2005, the Wales Audit Office report, 'Protecting NHS Trust staff from violence and aggression' stated,

'According to the British Crime Survey, nurses working in the health service were over three times more at risk of assault than teachers, and faced a risk of threats at work around twice as high as teachers'.

We get a great deal of publicity about violence against teachers, and rightly so; however, many nurses do not get the same

**Jenny Randerson:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu at ddiwedd pwynt (c):

*drwy fynnu bod gan bob bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedolaeth weithdrefnau cadarn ar waith i ddelio â'r sawl sy'n dychryn staff ac i gefnogi staff ar ôl digwyddiadau o'r fath.*

Yr wyf yn cynnig y gwelliant hwn gan fy mod yn teimlo'n arbennig o gryf ynghylch trais yn erbyn staff y GIG. Mae'n sarhad ar urddas yr unigolyn, ac mae'n fater sy'n gofyn am ddim goddefgarwch tuag ato mewn cymdeithas wâr yn yr unfed ganrif ar hugain. Rhaid inni fynnu—a defnyddiaf y gair yn ofalus—fod pob bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedolaeth yng Nghymru yn mabwysiadu agwedd o ddim goddefgarwch, bod ganddynt y gweithdrefnau cywir ar waith i ddelio â'r mater, a'u bod yn rhoi cefnogaeth i'r rheini sy'n dioddef trais.

Yn 2005, dywedodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Diogelu staff Ymddiriedolaethau'r GIG rhag trais ac ymddygiad ymosodol',

'Yn ôl Arolwg Troseddu Prydain, roedd nyrsys sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd yn wynebu deirgwaith cymaint o risg o ymosodiad arnynt ag athrawon, ac yn wynebu ddwywaith cymaint o risg o fygythiadau yn y gwaith ag athrawon.'

Gwelwn lawer iawn o gyhoeddusrwydd am drais yn erbyn athrawon, a da o beth yw hynny; fodd bynnag, nid oes llawer o nyrsys

publicity for the problems that they face. The report further states,

yn cael yr un cyhoeddusrwydd i'r problemau sy'n eu hwynebu hwy. Aiff yr adroddiad yn ei flaen i ddweud,

'In 2003-04, NHS Trust staff reported around 8,000 incidents of violence and aggression, the equivalent of 22 incidents occurring each day somewhere in Wales.'

'Yn 2003-04, cofnododd staff Ymddiriedolaethau'r GIG tuag 8,000 o ddigwyddiadau o drais ac ymddygiad ymosodol, sy'n cyfateb i 22 o ddigwyddiadau yn cymryd lle bob dydd rywle yng Nghymru.'

2.40 p.m.

Things have improved a bit: according to figures obtained from the Minister for Health and Social Service, there were 'only' 6,788 violent and aggressive incidents in 2005-06, but I would contend that those are 6,788 too many. Of the 6,788, 1,585 were in the Cardiff and Vale NHS Trust. That figure in particular worries me, as I think that the violence in our capital city and the surrounding area is far too prevalent.

Mae pethau wedi gwella rywfaint: yn ôl ffigurau a gafwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 'dim ond' 6,788 o achosion treisgar ac ymosodol a gofnodwyd yn 2005-06, ond byddwn yn dadlau bod hynny 6,788 yn ormod. O'r 6,788 o achosion, cofnodwyd 1,585 yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. Mae ffigur hwnnw'n destun pryder mawr imi, oherwydd credaf fod y trais yn ein prifddinas a'r ardal gyfagos lawer yn rhy gyffredin.

However, looking at the detail of these figures, it is the variability from one trust to another that is worrying, as I think that it reveals variability in reporting. For example, Ceredigion and Mid Wales NHS Trust reported just 13 incidents whereas Gwent Healthcare NHS Trust reported 1,381. I am prepared to accept that there is possibly more violence in Gwent, but I do not believe that there is 100 times more violence in Gwent, and we must take an honest and even approach to the reporting of such incidents.

Fodd bynnag, wrth edrych ar fanylion y ffigurau hyn, mae'r amrywiaeth rhwng y gwahanol ymddiriedolaethau hefyd yn rhywbeth i bryderu yn ei gylch, a chredaf fod hynny'n dangos yr amrywiaeth wrth roi gwybod am ddigwyddiadau. Er enghraifft, dim ond 13 o ddigwyddiadau a gofnodwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru tra mae 1,381 wedi eu cofnodi gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Ond ni chredaf fod 100 gwaith yn fwy o drais yng Ngwent, a rhaid inni fabwysiadu agwedd fwy gonest a chyson wrth gofnodi digwyddiadau o'r fath.

I am particularly concerned about the vulnerability of GPs and nurses visiting patients in their homes. They have no redress in many circumstances and they are at great risk. We hear most of all about violence in accident-and-emergency departments. Having spent the night at one as a patient as well as having visited as a politician, I know that it is an extremely intimidating situation for staff to have to work in. I became particularly aware of violence against ambulance staff. When we undertook our various reviews of the ambulance service last year, I was appalled by the level of violence and intimidation suffered by staff; there were

Yr wyf yn arbennig o bryderus am y peryglon sy'n wynebu meddygon teulu a nyrsys sy'n ymweld â chleifion yn eu cartrefi. Nid oes ganddynt ffordd o wneud iawn mewn llawer o amgylchiadau, ac maent yn wynebu peryglon mawr. Yr hyn y clywn amdano fwyaf yw trais yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys. Gan imi dreulio noson mewn un fel claf yn ogystal ag ymweld fel gwleidydd, gwn ei bod yn sefyllfa eithriadol o fygythiol i staff orfod gweithio ynddi. Deuthum yn arbennig o ymwybodol o drais yn erbyn staff ambiwlans. Pan wnaed ein hamrywiol arolygiadau o'r gwasanaeth ambiwlans y llynedd, rhyfeddwyd fi gan lefel

285 attacks in 2005-06. However, wherever it happens, assaults and the intimidation of NHS staff are unacceptable. All LHBs and trusts must be obliged to shoulder the responsibility of dealing with it, by making the public aware of a zero-tolerance approach, by publicising that approach widely to their staff, by liaising closely with the police, by regularly and invariably prosecuting offenders, and by supporting those who, despite all these efforts, become the victims of violence and intimidation.

y trais a’r bygythiadau yr oedd y staff yn gorfod eu dioddef; bu 285 o ymosodiadau yn 2005-06. Fodd bynnag, lle bynnag y digwydd, mae ymosodiadau a bygythiadau yn erbyn staff y GIG yn annerbyniol. Rhaid gorfodi pob BILl ac ymddiriedolaeth i ysgwyddo’r cyfrifoldeb am ddelio â’r broblem, trwy wneud y cyhoedd yn ymwybodol o bolisi o ddim goddefgarwch, trwy sicrhau bod eu staff yn ymwybodol ohono, trwy gydweithio’n agos â’r heddlu, trwy erlyn troseddwyr yn rheolaidd ac yn ddieithriad, a thrwy gefnogi’r rheini sydd, er yr holl ymdrechion hyn, yn dioddef trais a bygythiadau.

I will move on briefly to look at the other two strands that have been picked out as affecting staff morale: the full 2.5 per cent pay rise for nurses, as recommended by the independent pay review, should and must be implemented if we are to restore morale in our nurses. It has been the case in Scotland, so why should Welsh nurses be the poor relations of their colleagues in Scotland? Remember that for every £100 earned by a Scottish nurse, a Welsh nurse gets only £99. That might sound like a minor difference, but it is an important one in how much we value our nurses.

Symudaf ymlaen yn fyr i edrych ar ddwy agwedd arall y nodwyd eu bod yn effeithio ar forâl staff: dylai’r codiad cyflog llawn o 2.5 y cant i nyrsys, fel yr argymhellwyd gan yr adolygiad cyflog annibynnol, gael ei gyflwyno, a rhaid gwneud hynny os ydym am adfer morâl ein nyrsys. Dyna sydd wedi digwydd yn yr Alban, felly, pam ddylai nyrsys Cymru gael eu trin fel perthnasau tlawd eu cydweithwyr yn yr Alban? Cofiwch, am bob £100 y mae nyrs yn yr Alban yn ei ennill, dim ond £99 y mae nyrs yng Nghymru’n ei gael. Efallai bod hynny’n swnio fel gwahaniaeth pitw, ond mae’n wahaniaeth pwysig yn y ffordd yr ydym yn dangos rhoi gwerth ar ein nyrsys.

It takes a great deal to drive nurses into industrial action; it is not in their nature. They have to feel very strongly to do that. There is the potential for that industrial action—if and when it takes place—to cost the NHS dearly. It will cost the NHS dearly in financial terms, as Helen Mary has already pointed out, in terms of nurses’ goodwill, as they have been driven unwillingly to it, and in terms of patients’ goodwill, as well as patient safety and recovery. Giving nurses a pay increase in two parts is the equivalent of a below-inflation increase of 1.9 per cent. It is saving the Treasury a relatively small amount of money. It is a great pity that the First Minister is not here this afternoon. I was extremely disappointed with his replies yesterday on this issue. He was not prepared, it seemed, to countenance finding the money to pay this award. It is important that the Government takes a long hard look at this and addresses the issue.

Mae’n cymryd llawer i wthio nyrsys i weithredu’n ddiwydiannol; mae’n groes i’w natur. Rhaid iddynt deimlo’n gryf dros ben i wneud hynny. Mae perygl y bydd gweithredu diwydiannol—os a phan ddigwydd hynny—yn costio’n ddrud i’r GIG. Bydd yn costio’n ddrud yn ariannol i’r GIG, fel y dywedodd Helen Mary eisoes, ac o ran ewyllys da’r nyrsys, oherwydd byddant wedi eu gorfodi’n anfoddog i weithredu, ac o ran ewyllys da’r cleifion, yn ogystal â diogelwch ac adferiad cleifion. Mae talu codiad cyflog y nyrsys mewn dwy ran yn gyfystyr â chodiad cyflog o dan y gyfradd chwyddiant o 1.9 y cant. Mae’n arbed swm cymharol fach o arian i’r Trysorlys. Mae’n drueni mawr nad yw’r Prif Weinidog yma y prynhawn yma. Yr oeddwn yn hynod o siomedig â’i atebion ddoe ar y mater hwn. Nid oedd yn barod, yn ôl pob golwg, i ystyried dod o hyd i’r arian i dalu’r codiad hwn. Mae’n bwysig i’r Llywodraeth edrych yn drylwyr a gofalus ar hyn a mynd

i'r afael â'r mater.

Finally, I would like to raise the reform of the junior doctors' application system. Over a decade ago, at the college that I worked for, I was responsible for the Universities and Colleges Admissions Service application process. It was computerised and dealt with hundreds of thousands of applicants each year and there were no blips. I was completely unaware of any problems among my students. If it could be done more than 10 years ago for UCAS, why can it not be done now for a much smaller number of junior doctors, and a much smaller number of posts? It is possible to take a Welsh approach to this problem. Indeed, that has already been done, because, very sensibly, the Government has suspended the system here. We have to have a long hard look at this also. It is important that we deal with this. It is not just a case of being fair to junior doctors; we cannot afford to lose that talent. We cannot afford to have junior doctors who trained in Wales or the UK and who want to work in Wales having to go abroad.

Yn olaf, hoffwn godi mater diwygio system geisiadau meddygon iau. Dros ddegawd yn ôl, yn y coleg yr oeddwn yn gweithio iddo, yr oeddwn yn gyfrifol am broses geisiadau Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau. Yr oedd ar gyfrifiadur, a deliai â channoedd o filoedd o ymgeiswyr bob blwyddyn heb ddim anffawd. Nid wyddwn ddim byd am unrhyw broblemau ymysg fy myfyrwyr. Os oedd modd ei wneud dros 10 mlynedd yn ôl i UCAS, pam nad oes modd ei wneud yn awr i nifer llawer llai o feddygon iau, a nifer llawer llai o swyddi? Mae'n bosibl delio â'r broblem hon o safbwynt Cymru. Yn wir, mae hynny wedi ei wneud yn barod, oherwydd, yn synhwyrol iawn, mae'r Llywodraeth wedi atal y system yma. Rhaid inni edrych yn drylwyr a gofalus ar hyn hefyd. Mae'n bwysig inni ddelio â hyn. Nid mater o fod yn deg â meddygon iau yn unig yw hyn; ni allwn fforddio colli'r doniau hynny. Ni allwn ffordd gweld meddygon iau sydd wedi eu hyfforddi yng Nghymru neu'r DU ac sydd am weithio yng Nghymru yn gorfod mynd dramor.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn gyntaf, hoffwn ategu'r pwyntiau a godwyd gan Helen Mary Jones a Jenny Randerson. Fel Aelod etholedig, tynnwyd fy sylw, a sylw pawb arall yn y Siambr, at achosion etholaethol yn ymwneud â'r helyntion gyda'r system ar gyfer meddygon iau, ynglŷn ag ymosodiadau ar staff y gwasanaeth iechyd gwladol, a hefyd ynglŷn â phroblemau o ran morâl staff y gwasanaeth iechyd gwladol. Fodd bynnag, byddaf yn cyfyngu fy nghyfraniad i'r sefyllfa sy'n wynebu nyrsys yng Nghymru, oherwydd eu bod yn rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol sydd wedi cael ei chymryd yn ganiataol yn rhy hir. Credaf eu bod bellach yn wynebu sefyllfa lle mae eu morâl wedi suddo i'r eithafion isaf.

**Rhodri Glyn Thomas:** Firstly, I wish to support the points made by Helen Mary Jones and Jenny Randerson. As an elected Member, my attention, like everyone else in the Chamber, has been drawn to constituency cases with regard to the difficulties with the system for junior doctors, regarding attacks on national health service staff, and also regarding problems of staff morale in the national health service. However, I will confine my contribution to the situation facing nurses in Wales, since they are part of the national health service that has been taken for granted for far too long. I believe they now face a situation where their morale has sunk to its darkest depths.

Yr wyf wedi derbyn—fel mae'r Gweinidog ac Aelodau eraill, yr wyf yn siŵr—ohebiaeth gan nyrsys sy'n sôn am eu cyflwr fel pobl sydd wedi eu siomi, sy'n rhwystredig ac sy'n wirioneddol ddig am y ffordd y maent wedi cael eu trin. Mae'r cyfan yn cyrraedd cresendo gyda'r dyfarniad hwn ynghylch eu cyflogau. Derbyniaf y problemau yr ydych yn eu hwynebu, Weinidog, o ran ceisio canfod

I have received correspondence—as I am sure has the Minister and other Members—from nurses describing their condition as people who have been disappointed, who are frustrated, and who are truly angry at the way they have been treated. The whole matter has reached a crescendo with this pay settlement. I accept the problems that you face, Minister, with regard to trying to find the funds to

yr arian i roi'r dyfarniad cyflog hwn ar waith yn syth. Sylweddolaf hynny, ac ni ddylem anwybyddu'r pwynt. Fodd bynnag, gobeithiaf y cytunwch â dau beth: yn gyntaf, bod y dyfarniad hwn yn gwbl annigonol. Mae nyrsys wedi gweld staff eraill yn y GIG yn cael dyfarniadau cyflog a chytundebau gwaith llawer gwell. Mae nyrsys, yn gwbl haeddiannol, yn teimlo'n ddig am hynny. Mae'r dyfarniad o 2.5 y cant o gyflog nyrs ar gyfartaledd, sef £24,841 y flwyddyn, yn swm bach iawn yn y cyd-destun hwn. Wedi cael y dyfarniad, gwelant ei fod yn cael ei rhannu yn ddau. Bydd y darn cyntaf yn cael ei roi iddynt o fis Ebrill eleni, ond bydd yn rhaid iddynt aros tan fis Tachwedd am yr 1 y cant arall.

implement this pay settlement immediately. I realise that, and we should not lose sight of that point. However,I hope you will agree with two things, the first being that this settlement is totally inadequate. Nurses have seen other NHS staff receive much more favourable pay awards and work contracts. Nurses have been angered by that, and justifiably so. The award of 2.5 per cent of a nurse's average salary, which is £24,841 per annum, is small change indeed in this context. Having been awarded the settlement, they now see it being split in two. The first part will be awarded from April of this year, while they must wait until November for the other 1 per cent.

Gobeithiaf eich bod yn cytuno mewn egwyddor—nid wyf yn ceisio clymu eich dwylo—y dylai nyrsys fod wedi derbyn y 2.5 y cant o fis Ebrill ymlaen, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban. Credaf fod yr egwyddor honno yn un eithriadol o bwysig.

I hope you will agree in principle—I am not seeking to tie your hands—that the nurses should receive the full 2.5 per cent from April, as is the case in Scotland. I believe that that is an exceptionally important principle.

2.50 p.m.

Soniodd Helen Mary Jones am y gwaith di-dâl a wneir gan nyrsys—ar gyfartaledd, mae 16,000 o nyrsys yn gwneud chwech awr o waith yr wythnos yn ddi-dâl. Yn yr ohebiaeth a dderbyniais, nid yw'r nyrsys yn gofyn am gydnabyddiaeth am y gwaith di-dâl hwnnw. Yr hyn y maent am ei gael yw tâl diwrnod teg am fwy na diwrnod o waith. Felly, nid ydynt yn gofyn am rywbeth afresymol, yn wir, maent yn gofyn am rywbeth sydd yn fwy na rhesymol, ac mae arnynt angen y gydnabyddiaeth honno.

Helen Mary Jones mentioned the unpaid work which nurses do—on average, some 16,000 nurses do six hours of unpaid work per week. In the correspondence that I received, the nurses do not seek acknowledgement of that unpaid work. What they want is a fair day's pay for what amounts to more than a day's work. Therefore, they are not making unreasonable demands. Indeed, what they ask for is more than reasonable, and they need that recognition.

Cyfeiriaf yn fyr at rai o'r pethau sydd yn gwneud i nyrsys deimlo'n anniddig, yn rhwystredig ac yn siomedig ar hyn o bryd. Codwyd gobeithion nyrsys gan yr addewid o weithredu 'Agenda ar gyfer Newid' yn y gwasanaeth iechyd. Yr oedd yn cynnig cyflwyno strwythur galwedigaethol—cyfle i gydnabod eu sgiliau a'u cyfraniad, ac i roi strwythur proffesiynol yn ei le. Fodd bynnag, mae nifer helaeth o nyrsys heb eu hasesu o hyd ar gyfer 'Agenda ar gyfer Newid', ac mae ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r arian a fydd ar gael i gyfateb i 'Agenda ar gyfer Newid'. A allwch chi roi sicrwydd, Weinidog, y bydd yr arian hwnnw ar gael yn

I refer briefly to some of the things which make nurses feel uneasy, frustrated and disappointed at this time. Nurses' hopes were raised by the promise to implement 'Agenda for Change' in the health service. It proposed the introduction of a vocational structure—an opportunity to acknowledge their skills and their contribution, and to put a professional structure in place. However, very many nurses have yet to be assessed for 'Agenda for Change', and uncertainty remains over the funding available to match 'Agenda for Change'. Can you give an assurance, Minister, that that funding will be available in its entirety, and that the Government will

ei gyfanrwydd, ac y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod yr arian ar gael yng nghyllidebau'r ymddiriedolaethau er mwyn sicrhau bod nyrsys yn derbyn yr arian? A wnewch chi hefyd edrych ar y prosesau sydd yn eu lle i asesu nyrsys, er mwyn ceisio cyflymu'r broses?

ensure that the funding is available in trust budgets to ensure that nurses receive that money? Will you also examine the nurse assessment processes that are in place, to try to accelerate the process?

Fel y dywedodd Helen Mary Jones, nid yw 'Agenda ar gyfer Newid' yn gynhwysfawr, oherwydd nid yw'n ymwneud â nyrsys sydd yn gweithio yn y gymuned. Tynnaf eich sylw, Weinidog, at y ffaith bod llai o nyrsys yn y gymuned yn awr nag oedd yn 1999. Mae hynny'n destun pryder. Gobeithiaf ein bod ni i gyd yn rhannu'r awydd i weld gwasanaeth iechyd cymunedol yn cael ei ddatblygu yng Nghymru fel bod gwasanaethau ar gael i bobl yn eu cymunedau. Fodd bynnag, nid yw 'Agenda ar gyfer Newid' yn berthnasol i'r bobl sydd y tu allan i strwythurau'r gwasanaethau iechyd gwladol, sef y rheini sy'n gweithio yn y gymuned ac nid mewn ysbytai.

As Helen Mary Jones said, 'Agenda for Change' is not comprehensive, as it does not apply to nurses who work in the community. I draw your attention, Minister, to the fact that there are fewer nurses working in the community now than in 1999. That is a cause for concern. I hope we all share the desire to see a community health service being developed in Wales so that services are available to people in their communities. However, 'Agenda for Change' does not apply to those who fall outside the national health service structures, that is, those who work in the community and not in hospitals.

Yn olaf, cyfeiriaf at yr ansicrwydd sy'n wynebu staff yn y GIG ar hyn o bryd. Clywant sôn am newidiadau, ailstrwythuro, ailgyflunio gwasanaethau, a phob math o bethau felly. Mae'r holl bethau hyn yn digwydd, ac maent yn y canol yn ceisio cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r gwasanaeth iechyd—gadewch i ni fod yn glir am hyn—yn dibynnu ar y gwaith a gyflawnir gan nyrsys ac ar y ffaith eu bod yn mynd y filltir ychwanegol. Gobeithiaf, Weinidog—a derbyniaf mai newydd dderbyn y portffolio yr ydych—y byddwch yn medru rhoi arweiniad a sicrwydd iddynt, ac yn eu cynnwys yn eich trafodaethau. Mae Coleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru yn teimlo'n flin ei fod yn aml yn cael ei anwybyddu pan fo'r trafodaethau yn digwydd. Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau morâl y staff, oherwydd dibynna'r gwasanaeth iechyd arnynt, ac i wneud yr hyn y gallwn i'w cydnabod am eu gwaith.

Finally, I refer Members to the uncertainty facing NHS staff. They hear talk of changes, restructuring, reconfiguration of services, and all kinds of such things. All of these things are happening, and they find themselves caught in the middle trying to discharge their duties. Let us be clear that the health service depends on the work of nurses and on the fact that they go the extra mile. I hope, Minister—I appreciate that you have just taken charge of this portfolio—that you can give them a lead and reassurance, and include them in discussions. The Royal College of Nursing in Wales feels annoyed that it is often ignored when discussions take place. We have a duty to maintain staff morale, because the health service depends on them, and to do what we can to acknowledge them for their work.

**Jonathan Morgan:** I am delighted that we are having this debate today on the NHS and focusing on the morale of health service staff. I welcome this as the first opposition debate.

**Jonathan Morgan:** Yr wyf wrth fy modd ein bod yn cael y ddadl hon heddiw am y GIG ac yn canolbwyntio ar forâl staff y gwasanaeth iechyd. Croesawaf hon fel dadl gyntaf yr wrthblaid.

I have the utmost respect and admiration for

Mae gennyf y parch a'r edmygedd pennaf i'n

our medical professions, for those who work in primary care, secondary care and in our acute hospitals, and for their commitment, professionalism, care and skill. Despite Helen Mary Jones's personal views about not working with the Welsh Conservatives—her views on the future governance arrangements of the Assembly are well known—I agreed with almost everything that she said in her contribution, which perhaps would not come as a complete surprise to her. This motion has the full support of the Welsh Conservative group, and we are certainly concerned about these issues. I have noticed over the past four years, and since becoming the health spokesperson for the Welsh Conservative Party, that the health professions are a pretty placid bunch—the British Medical Association, the Royal College of Nursing, and various other professional bodies, are not militant groups of individuals; they are considered, professional and offer a considerable amount of expertise when dealing with the Assembly. However, I think that their trust in us and their patience have now reached a breaking point. The professions within the NHS face a huge number of problems, which the Assembly Government will need to get to grips with pretty quickly.

proffesiynau meddygol, i'r rhai sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol, gofal eilaidd ac yn ein hysbytai aciwt, ac i'w hymroddiad, eu proffesiynoldeb, eu gofal a'u sgil. Er gwaethaf barn bersonol Helen Mary Jones am beidio â gweithio gyda Cheidwadwyr Cymru—mae ei barn am drefniadau llywodraethu'r Cynulliad i'r dyfodol yn gwbl hysbys—yr oeddwn yn cytuno â phopeth bron a ddywedodd yn ei chyfraniad, ac ni fydd hynny efallai yn syndod llwyr iddi. Mae'r cynnig hwn yn cael ei gefnogi'n llwyr gan grŵp Ceidwadwyr Cymru, ac yr ydym yn sicr yn pryderu am y materion hyn. Yr wyf wedi sylwi dros y pedair blynedd diwethaf, ac ers dod yn llefarydd iechyd ar ran Plaid Geidwadol Cymru, fod y proffesiynau iechyd yn griw digon tawel—nid yw Cymdeithas Feddygol Prydain, Coleg Brenhinol y Nyrsys, ac amryw o gyrff proffesiynol eraill, yn grwpiau milwriaethus o unigolion; maent yn bwyllog, yn broffesiynol ac yn cynnig cryn lawer o arbenigedd wrth ymdrin â'r Cynulliad. Fodd bynnag, credaf fod eu hymddiriedaeth ynom a'u hamynedd ar dorri erbyn hyn. Mae'r proffesiynau o fewn y GIG yn wynebu nifer enfawr o broblemau, y bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad fynd i'r afael â hwy'n bur gyflym.

We will support the Liberal Democrat's amendment, but I hope that the Assembly Government will consider a broad range of measures that NHS trusts can examine for dealing with attacks on members of staff.

Byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, ond gobeithio y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried ystod eang o fesurau y gall ymddiriedolaethau GIG edrych arnynt er mwyn delio ag ymosodiadau ar aelodau staff.

Turning to the pay award, I said before the election that if the Assembly Government could afford the pay award, the Assembly Government ought to pay it. It is utterly disgraceful that the UK Government has chosen not to agree to the review body recommendation that the payment should be made payment in full. It will cost only £7 million; we know that for a fact. That has been confirmed to us, so it should be affordable as a payment to nurses in Wales. It would also demonstrate at an early point, Minister, your commitment to the nursing profession and that you, as the new Minister for Health and Social Services, are willing to rebuild bridges in Wales with those people in the nursing profession who have become

Gan droi at y dyfarniad cyflog, dywedais cyn yr etholiad os gall Llywodraeth y Cynulliad fforddio talu'r dyfarniad cyflog y dylai Llywodraeth y Cynulliad ei dalu. Mae'n gwbl warthus fod Llywodraeth y DU wedi dewis peidio â chytuno ag argymhelliad y corff adolygu y dylai'r taliad fod yn daliad llawn. Dim ond £7 miliwn y bydd yn ei gostio; gwyddom hynny fel ffaith. Mae hynny wedi ei gadarnhau inni, felly, dylai fod yn fforddiadwy fel taliad i nyrsys yng Nghymru. Byddai hefyd yn dangos yn gynnar, Weinidog, eich ymrwymiad i'r proffesiwn nyrsio a'ch bod chi, fel y Gweinidog newydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn barod i ailadeiladu pontydd yng Nghymru gyda'r bobl hynny yn y proffesiwn nyrsio

extremely disillusioned with this Labour Government.

sydd wedi cael eu dadrithio'n ofnadwy â'r Llywodraeth Lafur hon.

When we consider the situation, as the leader of the Welsh Conservatives pointed out yesterday, and as Helen Mary Jones said, with a bill looming of £1.3 million per week should nurses withdraw unpaid overtime, it is clear that, within a matter of weeks, a bill of £7 million would look pretty small in comparison to what we would have to pay out.

Wrth inni ystyried y sefyllfa, fel yr esboniodd arweinydd Ceidwadwyr Cymru ddoe, ac fel y dywedodd Helen Mary Jones, gyda bil o £1.3 miliwn yr wythnos ar y gorwel pe bai nyrsys yn atal goramser di-dâl, mae'n amlwg, o fewn mater o wythnosau, y byddai bil o £7 miliwn yn ymddangos yn ddigon bychan o'i gymharu â'r hyn y byddai'n rhaid inni ei dalu.

Let us remind ourselves of what the Royal College of Nursing thinks about the handling of the situation. The director of the Royal College of Nursing in Wales, Tina Donnelly, said recently that

Gadewch inni ein hatgoffa'n hunain o farn Coleg Brenhinol y Nyrsys am y ffordd y mae'r sefyllfa wedi cael ei thrafod. Dywedodd cyfarwyddwr Coleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru, Tina Donnelly, yn ddiweddar

'nurses feel devalued and disenfranchised and completely ignored by the government. The government slapped nurses on the back and said it applauded the work that we have done implementing reforms, then slaps nurses in the face with the pay award.'

'mae nyrsys yn teimlo eu bod wedi cael eu dibrisio a'u difreinio a'u bod yn cael eu hanwybyddu'n llwyr gan y llywodraeth. Mae'r llywodraeth wedi curo nyrsys ar eu cefnau gan ddweud ei bod yn canmol y gwaith yr ydym wedi'i wneud yn gweithredu'r diwygiadau, yna mae'n taro nyrsys yn eu hwynebau gyda'r dyfarniad cyflog.'

That is pretty damning, coming from the nursing profession. Although you can applaud the work of the Royal College of Nursing in sticking up for our nurses, that really does sum up how the nursing profession views this situation. It probably also sums up quite nicely nurses' determination to ensure that the Government responds and does something about this. Minister, you will have our support in paying the nurses their full pay award. It would demonstrate the commitment not only of this new Assembly Government—no matter how long it lasts—but the commitment of the new Assembly over the next four years to nurses if we can get that money through to nurses, who deserve that pay increase.

Mae hynny'n bur ddamniol, yn dod o du'r proffesiwn nyrsio. Er y gallwch ganmol gwaith Coleg Brenhinol y Nyrsys yn achub cam ein nyrsys, mae hynny mewn gwirionedd yn crynhoi sut mae'r proffesiwn nyrsio'n gweld y sefyllfa hon. Mae hefyd mae'n siŵr yn crynhoi'n bur dda benderfyniad y nyrsys i sicrhau bod y Llywodraeth yn ymateb ac yn gwneud rhywbeth am hyn. Weinidog, cewch ein cefnogaeth ni wrth dalu eu dyfarniad cyflog yn llawn i'r nyrsys. Byddai'n dangos ymrwymiad nid yn unig y Llywodraeth newydd hon yn y Cynulliad—ni waeth pa mor hir y bydd yn para—ond ymrwymiad y Cynulliad newydd dros y pedair blynedd nesaf i nyrsys os gallwn gael yr arian hwnnw i'r nyrsys, sy'n haeddu'r codiad cyflog hwnnw.

The shambles that has occurred in recent months with the modernising medical careers strategy, which was pursued by the UK Government, is absolutely astonishing. The modernising medical careers strategy rapidly

Mae'r traed moch sydd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf gyda'r strategaeth i foderneiddio gyrfaoedd meddygol, a roddwyd ar waith gan Lywodraeth y DU, yn gwbl ryfeddol. Buan iawn y daeth y

became known as the ‘massive medical cull’, because we were witnessing the prospect of losing between 5,000 and 10,000 junior doctors, who would happily leave the NHS to work abroad or who would simply not seek any job in the health profession in Britain because of the UK Government’s handling of the medical training application system.

strategaeth i foderneiddio gyrfaoedd meddygol i gael ei galw’n ‘gynllun difa meddygol enfawr’, oherwydd yr oeddem yn wynebu’r posibilrwydd o golli rhwng 5,000 a 10,000 o feddygon iau, a fyddai’n hapus i adael y GIG i weithio dramor, neu na fyddent yn ceisio unrhyw swydd yn y proffesiwn iechyd ym Mhrydain oherwydd y ffordd yr oedd Llywodraeth y DU yn ymdrin â’r system geisiadau hyfforddiant meddygol.

This process has been condemned by the British Medical Association and the Royal College of Surgeons. This is an opportunity for us in Wales to show that the Assembly Government is willing to take the lead on what has become a very important matter for junior doctors. Dr Tom Dolphin, deputy chairman of the BMA junior doctors committee said:

Mae’r broses hon wedi ei chondemnio gan Gymdeithas Feddygol Prydain a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon. Mae’n gyfle i ni yng Nghymru ddangos bod Llywodraeth y Cynulliad yn barod i arwain ar fater sydd wedi dod yn un hynod bwysig i feddygon iau. Dywedodd Dr Tom Dolphin, dirprwy gadeirydd pwyllgor meddygon iau BMA:

‘The system is going disastrously wrong. Highly qualified doctors with huge amounts of experience haven’t been offered any interviews. Others have been offered interviews in the wrong speciality or at the wrong level. There are reports that the confidential marking system has been leaked and that unqualified people are being asked to short-listing. People’s entire livelihoods are at stake.’

‘Mae’r system yn mynd ar chwâl yn drychinebus. Nid oes cyfweliadau wedi cael eu cynnig i feddygon sydd â chymwysterau uchel a llawer iawn o brofiad. Mae eraill wedi cael cynnig cyfweliadau yn yr arbenigedd anghywir neu ar y lefel anghywir. Mae adroddiadau bod y system farcio gyfrinachol wedi cael ei datgelu a bod pobl heb gymwysterau yn cael eu gwahodd ar restrau byr. Mae holl fywoliaeth pobl yn y fantol.’

That is a stark intervention by the BMA from senior doctors who are charged with negotiating with the UK Government on this very important matter. Furthermore, the Royal College of Surgeons decided on 25 May to withdraw from the MTAS review group that was being chaired by Professor Neil Douglas. The RCS went on to say:

Mae hynny’n ymyriad di-flewyn-ar-dafod ar ran y BMA gan uwch feddygon sy’n gyfrifol am drafod gyda Llywodraeth y DU ar y mater hynod bwysig hwn. Ar ben hynny, penderfynodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon ar 25 Mai dynnu’n ôl o grŵp adolygu MTAS dan gadeiryddiaeth yr Athro Neil Douglas. Aeth RCS ymlaen i ddweud:

3.00 p.m.

‘Surgery has unique requirements in terms of recruitment—the criteria for selection include diagnostic skills, clinical judgment and manual dexterity. It is neither practical, nor indeed safe, to select junior doctors with a view to a career in surgery without the opportunity for assessing whether they have the full mix of professional skills required.’

‘Mae i lawfeddygaeth ofynion unigryw o safbwynt recriwtio—mae’r meini prawf ar gyfer dethol yn cynnwys sgiliau diagnostig, barn glinigol a medrusrwydd llaw. Nid yw’n ymarferol, nac yn ddiogel ychwaith, i ddewis meddygon iau gyda golwg ar yrfa mewn llawfeddygaeth heb gael cyfle i asesu a ydynt yn meddu ar y cyfuniad llawn o’r sgiliau proffesiynol angenrheidiol.’

Therefore, the Royal College of Surgeons is

Mae Coleg Brenhinol y Llawfeddygon yn

extremely concerned about how this matter has been handled.

bryderus dros ben, felly, am y modd yr ymdriniwyd â'r mater hwn.

At the time, we welcomed the fact that the MTAS system was being put to one side, and we applauded the intervention by health officials in Wales. However, people in Wales, those people working in the medical professions, and junior doctors, would like to know what representations the Assembly Government made to its Westminster colleagues. They would also like to know what analysis the Assembly Government health department made as to the impact on junior doctors in Wales; for example, how many junior doctors applied through the MTAS system, and how many do we know have been lost from the NHS in Wales? People need answers to these questions; we would like to know what the impact has been on junior doctors and on the medical professions generally in Wales.

Ar y pryd, yr oeddem yn croesawu'r ffaith bod y system Gwasanaeth Ceisiadau am Hyfforddiant Meddygol (MTAS) yn cael ei rhoi o'r neilltu, ac yr oeddem yn cymeradwyo'r ymyrryd gan swyddogion iechyd yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai pobl yng Nghymru, y bobl hynny sy'n gweithio yn y proffesiwn meddygol, a meddygon iau, yn hoffi gwybod pa sylwadau a wnaeth Llywodraeth y Cynulliad i’w chydweithwyr yn San Steffan. Carent wybod hefyd pa ddadansoddiad a wnaed gan adran iechyd Llywodraeth y Cynulliad am yr effaith ar feddygon iau yng Nghymru; er enghraifft, sawl meddyg iau a gyflwynodd gais trwy’r system MTAS, a sawl meddyg iau y gwyddom iddynt gael eu colli o'r GIG yng Nghymru? Mae pobl am gael atebion i’r cwestiynau hyn; byddem yn hoffi gwybod pa effaith a fu ar feddygon iau ac ar y proffesiwn meddygol yn gyffredinol yng Nghymru.

Finally, I turn to the last part of the Plaid Cymru motion—the abuse of staff. We know that there has been an incredible increase in the number of attacks on members of staff—mostly nurses, because they are at the sharp-end in dealing with people when they present, particularly at accident and emergency departments. It is astonishing that, in this day and age, we leave the follow-up on these attacks, in terms of pursuing complaints and filling in paperwork, to those members of staff. NHS trusts are the employers of those staff, and, therefore, they have a legal and a moral duty to pursue those matters with the relevant authorities. It should not be left to members of the nursing profession to pursue those matters, particularly when they have 101 things on their plate in dealing with patients. Goodness knows when they have a chance to fill in forms, bearing in mind the mess that we see at accident and emergency departments around Wales from one weekend to the next.

Yn olaf, trof at ran olaf cynnig Plaid Cymru—sef cam-drin staff. Gwyddom am y cynnydd rhyfeddol yn nifer yr ymosodiadau ar aelodau staff—nyrsys yn bennaf, gan eu bod yn gweithio yn y rheng flaen wrth ddelio â phobl yn y fan a’r lle, yn enwedig yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae’n rhyfeddol ein bod ni, y dyddiau hyn, yn gadael y gwaith dilynol ar yr ymosodiadau hyn, o ran mynd ar drywydd cwynion a chwblhau gwaith papur, i’r aelodau staff hynny. Ymddiriedolaethau GIG sy’n cyflogi’r staff hynny ac, felly, mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol a moesol i fynd ar drywydd y materion hyn gyda’r awdurdodau perthnasol. Nid aelodau o’r proffesiwn nyrsio a ddylai ddilyn trywydd y materion hyn, yn enwedig pan fydd ganddynt 101 o bethau ar eu platiau wrth ddelio â’r cleifion. Dyn yn unig a ŵyr pryd y cânt gyfle i lenwi’r ffurflenni hyn, yn enwedig o gofio’r llanast a welwn mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru o’r naill penwythnos i'r llall.

I agree with Jenny Randerson that we need a zero-tolerance approach, but we should see each NHS trust pursuing criminal proceedings against those who attack

Cytunaf â Jenny Randerson fod arnom angen agwedd sy'n dangos dim goddefgarwch, ond dylem weld pob ymddiriedolaeth GIG yn dwyn achos troseddol yn erbyn y rheini sy'n

members of our nursing and medical staff. While I accept that the Crown Prosecution Service is not a devolved department of Government, it should be under no illusion as to our determination to clamp down on those who attack our NHS staff. At this stage, it will be, again, a good marker for this new Assembly Government, and this new Assembly Minister for Health and Social Services, to say how you foresee our taking forward this issue in the next four years, and how we can address the problem of those people who are being attacked, and who do an exceptionally good job in our hospitals.

ymosod ar aelodau o'n staff nyrsio a meddygol. Er fy mod yn derbyn nad yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn adran o'r Llywodraeth sydd wedi ei datganoli, ni ddylai fod dan gamargraff o gwbl ynghylch ein hagwedd benderfynol i fod yn llym â'r rheini sy'n ymosod ar staff ein GIG. Ar yr adeg hon, byddai'n beth da, eto, i Lywodraeth newydd y Cynulliad, ac i Weinidog newydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ddweud sut yr ydych yn rhagweld y byddwn yn gweithredu yn y mater hwn yn ystod y pedair blynedd nesaf, a sut y gallwn ymdrin â phroblem pobl sy'n dioddef ymosodiadau ac sy'n gwneud gwaith eithriadol o dda yn ein hysbytai.

I have two very final points regarding other pressures that are faced by NHS staff. It is not just those who are being attacked or who are concerned about pay, and it is not just the low morale faced by junior doctors. Delayed transfers of care and delayed discharge make it difficult for nursing staff to manage beds. When patients and families are concerned as to whether people will be admitted to hospital, it puts a tremendous pressure on the nursing profession. Anything that you can do to ease that will help nurses to do their jobs better.

A dyma'r ddau bwynt olaf sydd gennyf ar bethau eraill sy'n pwyso ar staff y GIG. Nid y rhai sy'n destun ymosodiadau neu sy'n pryderu am gyflogau yw'r unig bryder, nac ychwaith y morâl isel ymysg meddygon iau. Mae'r oedi wrth drosglwyddo gofal a'r oedi wrth ryddhau cleifion yn ei gwneud yn anodd iawn i staff nyrsio allu rheoli gwelyau. Pan fydd cleifion a theuluoedd yn pryderu a fydd pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty, mae hynny'n rhoi pwysau aruthrol ar y proffesiwn nyrsio. Bydd unrhyw beth y gallwch ei wneud i ysgafnhau'r baich hwnnw a fydd yn helpu nyrsys i wneud eu gwaith yn well.

Finally, on work patterns, I have been made acutely aware in the past few months, because of a family matter relating to the University Hospital of Wales, that many nurses are, obviously, on a variety of shifts; they move around the hospital quickly, and they do not necessarily have the connection with the wards that they would like. Work patterns in hospitals sometimes cause pressures; it means that they do not build up those connections with individual patients, and it creates incredible pressure.

Yn olaf, ynghylch patrymau gwaith, deuthum yn ymwybodol iawn, dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mewn mater teuluol yng nghyswllt Ysbyty Prifysgol Cymru, fod nifer o nyrsys, yn amlwg, yn gweithio amrywiol shifftiau; maent yn symud o amgylch yr ysbyty'n gyflym, ac nid ydynt, o anghenraid, yn cael y cyswllt y byddent yn hoffi ei gael â'r wardiau. Mae patrymau gwaith mewn ysbytai, ar adegau, yn achosi straen; mae'n golygu nad ydynt yn meithrin y cysylltiadau hynny â chleifion unigol, ac mae hynny'n creu pwysau anhygoel.

I would say finally to the Government that, while I have applauded the introduction of an NHS redress Measure to respond to patient complaints and poor service, we now need to come up with ideas to respond to what is being experienced by NHS staff. It is no good just responding to the poor experiences of patients in Wales, however important that is; we need to start realising what makes an

Yn olaf, carwn ddweud wrth y Llywodraeth, er i mi gymeradwyo'r cam o gyflwyno Mesur Unioni Camweddau yn y GIG i ymateb i gwynion gan gleifion a gwasanaeth gwael, bod angen i ni'n awr feddwl am syniadau er mwyn ymateb i brofiadau staff y GIG. Nid yw'n ddigon da ymateb yn unig i brofiadau gwael cleifion yng Nghymru, er mor bwysig yw hynny; mae angen i ni ddechrau

NHS nurse and doctor tick, and what will keep them in the profession. Dealing with the low levels of staff morale is one way to do it.

sylweddoli beth sy'n gyrru nyrsys a meddygon y GIG, a beth fydd yn eu cadw yn y proffesiwn. Mae delio â morâl isel ymysg staff yn un ffordd i wneud hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** I ask speakers to remember that 'finally' means 'finally', and that we do not have 'finally' five times.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gofynnaf i siaradwyr gofio bod 'yn olaf' yn golygu 'yn olaf', ac na ddylem glywed 'yn olaf' bum gwaith.

**David Lloyd:** I also welcome you to the Chair, Dirprwy Lywydd.

**David Lloyd:** Yr wyf fi hefyd yn eich croesawu i'r Gadair, Ddirprwy Lywydd.

I will comment in this debate on the morale of junior hospital doctors, as I used to be one. As we have heard, thousands of junior doctors have been left devastated by the recent fiasco regarding the medical training application system, which was introduced as part of the modernising medical careers initiative. This is a UK-level NHS workforce planning matter that entails wholesale reform of the previous system of specialist training, which took newly qualified doctors along the long and difficult road towards becoming a hospital consultant between 12 and 15 years later. Although it is a UK matter, the Minister for Health and Social Services at the time also signed up to it. Many doctors could not see anything wrong with the old system of becoming a consultant, apart from the fact that it took them 12 to 15 years—it was a very long time. Getting your next surgical training post was based on how good you were and what your interests were, and you were matched with what you wanted to do. It was also based on your clinical curriculum vitae, the examinations that you had passed, the research that you had undertaken and references from consultants for whom you had worked.

Fe gyflwynaf sylwadau fel rhan o'r drafodaeth hon ar forâl meddygon iau mewn ysbytai, oherwydd i mi fy hun fod yn un ohonynt. Fel y clywsom, mae miloedd o feddygon iau wedi'u llorio gan fethiant diweddar y system ymgeisio am hyfforddiant meddygol, a gyflwynwyd fel rhan o'r cynllun moderneiddio gyrfaoedd meddygol. Mater cynllunio gweithlu'r GIG ar lefel y DU yw hyn, sy'n golygu diwygio'r system flaenorol o hyfforddiant arbenigol ar raddfa eang, system a arweiniodd meddygon a oedd newydd ymgymhwyso ar hyd llwybr hir ac anodd tuag at fod yn ymgynghorwyr mewn ysbyty rhwng 12 a 15 mlynedd yn ddiweddarach. Er mai mater ar raddfa'r DU yw hyn, cafodd gefnogaeth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd. Ni allai nifer o feddygon weld dim o'i le ar yr hen system o fynd yn ymgynghorydd meddygol, ar wahân i'r ffaith ei bod yn broses a gymerai rhwng 12 a 15 o flynyddoedd iddynt—yr oedd hynny'n gyfnod hir. Yr oedd sicrhau eich swydd hyfforddiant llawfeddygol nesaf yn dibynnu ar pa mor dda yr oeddech a beth oedd eich diddordebau, a byddech yn cael eich gosod mewn swydd a fyddai'n cyd-fynd â'r hyn y dymunech ei wneud. Yr oedd yn seiliedig hefyd ar eich curriculum vitae clinigol, yr arholiadau yr oeddech wedi'u pasio, yr ymchwil a wnaethoch, a geirda gan yr ymgynghorwyr yr oeddech wedi gweithio iddynt.

The modernising medical careers initiative looks to streamline all that, and the medical training application system, as we heard from Jenny Randerson, is an online job application system designed to speed things up. However, with MTAS, 75 per cent of the mark was awarded for a 150-word vignette

Bwriad y cynllun moderneiddio gyrfaoedd meddygol yw symleiddio hyn oll, ac mae'r system ceisiadau am hyfforddiant meddygol, fel y clywsom gan Jenny Randerson, yn system ymgeisio ar-lein gyda'r bwriad o gyflymu'r broses. Fodd bynnag gyda MTAS, dyfernid 75 y cant o'r marc am ysgrif fer

about general clinical cases or ethical issues. Only 25 per cent of the mark was awarded for the clinical and academic qualifications of the doctor concerned. Therefore, junior doctors are very unhappy that this online experience failed to draw out the relevant experience of doctors in a speciality and their suitability for any given post. The online recruitment forms were also dreadfully designed and the system crashed repeatedly because of the demand, so doctors could not even submit their job applications. There was also a series of technical failures and security breaches, which meant that sensitive and personal information about doctors became available to all.

150-gair am achosion clinigol cyffredinol neu faterion moesegol. Pump ar hugain y cant yn unig o'r marc a roddid am gymwysterau clinigol ac academaidd y meddyg dan sylw. Mae meddygon iau, felly, yn anfodlon iawn fod y profiad ar-lein hwn wedi methu tynnu sylw at brofiad perthnasol meddygon mewn maes arbenigol a'u haddasrwydd ar gyfer unrhyw swydd benodol. Hefyd, yr oedd y ffurflenni recriwtio ar-lein wedi'u cynllunio'n wael iawn a'r system yn methu dro ar ôl tro, oherwydd y galw arni. Felly, ni allai meddygon gyflwyno'u ceisiadau am swyddi hyd yn oed. Cafwyd cyfres o fethiannau technegol hefyd ac achosion o dorri amodau diogelwch, a olygai fod gwybodaeth sensitif a phersonol am feddygon ar gael i bawb ei gweld.

As we have heard from Jonathan Morgan, junior doctors, like all NHS staff, are a placid bunch, and they would have muddled through this with simmering but mounting anger had there been a job at the end of it, but they discovered that there were no jobs either. No wonder junior doctors were angry and marched through London in droves a few months ago.

Fel y clywsom gan Jonathan Morgan, mae meddygon iau, fel staff y GIG yn gyffredinol, yn griw diddig, a byddent wedi bwrw drwyddi, er bod eu dicter yn mudferwi fwyfwy, pe bai swydd iddynt ar ddiwedd y broses. Ond gweld a wnaethant nad oedd swyddi iddynt ychwaith. Nid oes rhyfedd fod meddygon iau yn ddig ac wedi gorymdeithio'n llu trwy Lundain ychydig fisoedd yn ôl.

The job gap, which involves 8,000 doctors with no jobs, comes about because those applying to start specialist training this year are having to compete with those doctors who are halfway through the old system. There are not enough jobs. There is a shortfall of at least 8,000 jobs, which means that there will be 8,000 unemployed doctors as of 1 August 2007. They will be expensively trained NHS doctors, as it costs more than £0.25 million to train a doctor. Those doctors will be looking elsewhere for work—increasingly in Australia and New Zealand. The anger felt by junior doctors is palpable. Hospital consultants recently passed a vote of no confidence in the Chief Medical Officer for England, Sir Liam Donaldson, as a result of this fiasco. The chairman of the British Medical Association has also resigned. This furore has resulted in a u-turn, a review and the scrapping of the medical training application system. As I said, this involves hundreds of junior doctors in the UK, dozens of whom are in Wales. Undoubtedly, they will have been

Mae'r bwlch o ran swyddi, sy'n golygu bod oddeutu 8,000 o feddygon heb swyddi, wedi codi oherwydd bod y rheini sy'n ymgeisio am ddechrau hyfforddiant arbenigol eleni yn gorfod cystadlu gyda'r meddygon hynny sydd hanner y ffordd drwy'r hen system. Nid oes digon o swyddi. Mae prinder o 8,000 o swyddi o leiaf, sy'n golygu y bydd 8,000 o feddygon yn ddi-waith o 1 Awst 2007 ymlaen. Byddant yn feddygon GIG sydd wedi cael hyfforddiant costus, oherwydd mae'n costio dros £0.25 miliwn i hyfforddi un meddyg. Bydd y meddygon hynny'n chwilio am waith mewn mannau eraill—yn fwyfwy yn Awstralia a Seland Newydd. Mae dicter y meddygon iau i'w weld yn amlwg. Yn ddiweddar, pasiodd ymgynghorwyr ysbytai bleidlais o diffyg hyder ym Mhrif Swyddog Meddygol Lloegr, Syr Liam Donaldson, oherwydd y llanast hwn. Mae cadeirydd Cymdeithas Feddygol Prydain hefyd wedi ymddiswyddo. Mae'r helynt hwn wedi achosi tro pedol, cynnal adolygiad a chael gwared ar y system ymgeisio am hyfforddiant meddygol. Fel y dywedais, mae

communicating with you as their Assembly Members, not least because the former Minister for Health and Social Services signed up to the system.

hyn yn berthnasol i gannoedd o feddygon iau yn y DU, dwsinau ohonynt yng Nghymru. Mae'n sicr y byddant wedi cysylltu â chi fel Aelodau o'r Cynulliad, ac un o'r prif resymau am hynny yw bod y cyn Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cefnogi'r system.

Morale has rarely been so low. How does the Minister intend to address this situation? What is currently happening in Wales as regards NHS workforce planning? Will the Minister be advocating an increase in the number of surgical training posts?

Prin y bu morâl erioed mor isel. Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu ymdrin â'r sefyllfa hon? Beth sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd o safbwynt cynllunio gweithlu'r GIG? A fydd y Gweinidog o blaid cynyddu nifer y swyddi hyfforddiant llawfeddygol?

3.10 p.m.

If that was not enough, on top of the personal situation of doctors worrying where their next six-month job will be, there is obviously great concern, as we heard from Rhodri Glyn, about a change in hospital services generally. It makes doctors and nurses uncertain about their futures, quite apart from the fiasco of how to apply for their next job. There is great concern about any reconfiguration of hospitals, and about the loss of neurosurgery services from Swansea. In addition to the huge impact on patients, there is also the uncertainty inflicted on the careers of highly qualified doctors and nurses.

Pe na bai hynny'n ddigon, yn ychwanegol at sefyllfa bersonol meddygon sy'n poeni ble bydd eu swydd am y chwe-mis nesaf, mae'n amlwg bod pryder mawr, fel y clywsom gan Rhodri Glyn, am newid mewn gwasanaethau ysbyty'n gyffredinol. Mae hyn yn gwneud i feddygon a nyrsys deimlo'n ansicr ynghylch eu dyfodol, ar wahân i'r ffiasgo sut i ymgeisio am eu swydd nesaf. Mae pryder mawr am ailgyflunio ysbytai, ac am golli gwasanaethau niwrolawdriniaeth o Abertawe. Yn ychwanegol at yr effaith anferth ar gleifion, mae ansicrwydd hefyd ynghylch gyrfaoedd meddygon a nyrsys sydd â chymwysterau sylweddol.

In a situation where poor morale abounds and NHS staff look for some sort of certainty, the last thing that is needed is to lose a valuable and excellent specialised service, like neurosurgery, from Swansea. The Minister will be aware of the huge campaign throughout Swansea and south-west Wales—neurosurgery in Swansea covers patients in Ceredigion and Pembrokeshire as well. Keeping neurosurgery services in Swansea safeguards the future of neurosurgery in Wales and builds on the excellent clinical school in Swansea and other tertiary services there. A Plaid-led Government will keep neurosurgery in Swansea; can Labour do the same and improve everyone's morale?

Mewn sefyllfa lle mae diffyg morâl yn gyffredin a lle mae staff y GIG yn chwilio am ryw fath o sicrwydd, y peth olaf y mae ei angen yw colli gwasanaeth arbenigol gwerthfawr a rhagorol, fel niwrolawdriniaeth, o Abertawe. Bydd y Gweinidog yn gwybod am yr ymgyrch fawr ledled Abertawe a'r De-orllewin—mae niwrolawdriniaeth yn Abertawe ar gael i gleifion yng Ngheredigion a Sir Benfro hefyd. Mae cadw gwasanaethau niwrolawdriniaeth yn Abertawe yn diogelu dyfodol niwrolawdriniaeth yng Nghymru, ac yn adeiladu ar yr ysgol glinigol ardderchog sydd yn Abertawe a'r gwasanaethau trydyddol eraill sydd yno. Bydd Llywodraeth dan arweiniad y Blaid yn cadw niwrolawdriniaeth yn Abertawe; a all Llafur wneud yr un modd a gwella morâl pawb?

**Lorraine Barrett:** I will make a small contribution to the debate today, not least because I was a nurse in another life, quite a

**Lorraine Barrett:** Mae gennyf gyfraniad bach i'w wneud at y drafodaeth heddiw, ac un rheswm am hynny yw am imi fod yn nyrs

long time ago. I am sorry that I was not able to meet any members of the Royal College of Nursing today, but the notice came a bit late for me to get upstairs to see them. We all very much appreciate the work done by nurses and other staff in the NHS. The service touches all our lives in one way or another at some point or another, and I want to do everything that I can, and support everything that I can, to improve the pay and conditions of nurses. I wanted to say that at the beginning.

mewn bywyd blaenorol, gryn amser yn ôl. Mae'n ddrwg gennyf na allwn gyfarfod ag aelodau Coleg Brenhinol y Nyrsys heddiw, ond braidd yn hwyr y cyrhaeddodd y rhybudd i mi allu mynd i fyny’r grisiau i’w gweld. Yr ydym i gyd yn gwerthfawrogi’n fawr iawn y gwaith a wnaiff nyrsys ac aelodau eraill o staff y GIG. Mae’r gwasanaeth yn cyffwrdd â bywydau pob un ohonom mewn rhyw ffordd neu’i gilydd ar ryw adeg neu’i gilydd, ac yr wyf yn awyddus i wneud popeth yn fy ngallu, a chefnogi popeth sy’n bosibl, i sicrhau gwell cyflogau ac amodau i nyrsys. Yr oeddwn eisiau dweud hynny ar y dechrau.

I particularly want to speak to the amendment today. I am concerned about the effect of alcohol on people’s behaviour towards NHS staff, particularly in accident and emergency departments; as other Members have mentioned, we have all seen the scenes there when we have had occasion to go to casualty. Would the Minister consider compiling data on what percentage of abuse and aggression is alcohol-related? That information may already be available; I am not sure.

Yr wyf yn awyddus iawn i siarad o blaid y gwelliant heddiw. Yr wyf yn pryderu am effaith alcohol ar ymddygiad pobl at staff y GIG, yn enwedig mewn adrannau damweiniau ac achosion brys; fel y mae Aelodau eraill wedi ei grybwyll, mae pob un ohonom wedi gweld y golygfeydd yno pan fu’n rhaid i ni ymweld ag adran ddamweiniau. A fyddai'r Gweinidog yn ystyried casglu data ynghylch canran y cam-drin a'r trais sy'n gysylltiedig ag alcohol? Hwyrach fod y wybodaeth honno eisoes ar gael; nid wyf yn sicr.

Whether it exists or not, once the data is collected, it might be an opportunity for the Minister and her department to work with the entertainment, leisure and licensing industry to see what it can do to contribute to meeting the cost to the NHS of these attacks. This is not just the financial cost of having to treat people who are inebriated and have injured themselves or others, but also includes the impact on the staff who have to deal with them. Sometimes, there are long-term issues of payments for sickness. Stress on staff can mean that they have to take a long time off, because they have been so terrified. I have had experience of this through a friend of mine, who found it difficult to go back to work after a knife incident. Obviously, there are financial costs, but there are other costs to whole families, and the amendment deals with that.

Boed a fo am hynny, pan fydd y data wedi'u casglu, gallai fod yn gyfle i'r Gweinidog a'i hadran weithio gyda'r diwydiant adloniant, hamdden a thrwyddedu i weld beth y gall ei wneud i gyfrannu at dalu cost yr ymosodiadau hyn i’r GIG. Nid y gost ariannol o drin y bobl sy’n feddw ac wedi eu hanafu eu hunain neu eraill yn unig sydd dan sylw, ond hefyd yr effaith ar y staff sy’n gorfod delio â hwy. Weithiau, mae cyflogau dros gyfnodau o salwch yn ystyriaeth hirdymor. Os yw staff dan straen, gall olygu eu bod gartref o’u gwaith am gyfnod hir, oherwydd eu dychryn i’r fath raddau. Cefais brofiad o hyn trwy ffrind i mi, a gafodd anhawster i ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn digwyddiad gyda chyllell. Mae'n amlwg fod yna gostau ariannol, ond mae costau eraill hefyd i deuluoedd cyfan, ac mae’r gwelliant yn ymdrin â hynny.

The leisure industry—clubs and pubs—has a part to play and a huge responsibility in this. I do not want to see it get away with it. Instead, we should do something in partnership with the industry to ensure that its house is kept in

Mae gan y diwydiant hamdden—clybiau a thafarndai—ran fawr i’w chwarae a chyfrifoldeb anferth yn hyn o beth. Nid wyf am eu gweld yn osgoi’r cyfrifoldeb hwnnw. Yn hytrach, dylem wneud rhywbeth mewn

good order, and that people are not encouraged to get as drunk as they can as often as they can and cause mayhem in our precious NHS facilities.

partneriaeth â'r diwydiant i sicrhau trefn o'i fewn, ac na chaiff pobl eu hannog i yfed cymaint ag y gallant mor gyflym ag y gallant, gan achosi anhrefn yng nghyfleusterau gwerthfawr ein GIG.

**Mark Isherwood:** I have just had a message from the RCN, which sums up the situation. It says that paying the full 2.5 per cent is a matter of principle; how the full amount is paid is a matter for the Government of Wales and NHS managers. The Minister says that she does not want regional pay, but the way to allow regional pay is to ignore the independent pay review body. If the Minister is truly committed to a national pay framework, she must back the body in full and commit to the full pay award. On this side of the Chamber, we are fully supporting the RCN campaign. We are concerned that morale among nurses in the NHS is low and that the two-stage approach taken by the UK Government to increase nurses' pay in England and Wales has left nurses feeling angry, frustrated and let down.

**Mark Isherwood:** Yr wyf newydd gael neges gan Goleg Brenhinol y Nyrsys sy'n crynhoi'r sefyllfa. Dywed mai mater o egwyddor yw talu'r 2.5 y cant yn llawn; mater i Lywodraeth Cymru a rheolwyr y GIG yw'r modd y telir y swm llawn. Dywed y Gweinidog nad yw'n awyddus i gael cyflogau rhanbarthol, ond y ffordd o ganiatáu cyflogau rhanbarthol yw anwybyddu'r corff adolygu cyflogau annibynnol. Os yw'r Gweinidog yn wir wedi ymrwymo i fframwaith cyflogau cenedlaethol, rhaid iddi roi ei chefnogaeth lwyr i'r corff ac ymrwymo i dalu'r dyfarniad cyflog yn llawn. Ar yr ochr hon i'r Siambr, yr ydym yn cefnogi ymgyrch Coleg Brenhinol y Nyrsys i'r carn. Mae'n destun pryder inni fod morâl nyrsys yn y GIG yn isel a bod y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi mynd ati i gyflwyno'r codiad cyflog i nyrsys yng Nghymru a Lloegr mewn dau gam wedi eu gwneud yn ddig, yn rhwystredig ac wedi'u siomi.

On 21 February, I met representatives of a branch of the Royal College of Nursing in north Wales and I will tell you what they told me. This was at the time when we learnt that the UK Government had made its recommendation to the pay review body, which was borne out by events. They told me, at that time, that an independent poll of nurses for the RCN had found that nearly two thirds would be willing to take industrial action such as refusing to work unpaid overtime if they were to receive an unsatisfactory pay deal this year. The reasons for the low morale were detailed to me during the meeting. They told me that there is a need for nurse-led beds and nurse prescribing in community hospitals. They said that they provide an average of one day per week in unpaid overtime and that there will be a knock-on effect for patients if they refuse to work those hours, which also make a mockery of the European working time directive.

Ar 21 Chwefror, cyfarfûm â chynrychiolwyr cangen o Goleg Brenhinol y Nyrsys yn y Gogledd, a dyma a glywais ganddynt. Digwyddodd hyn ar yr adeg pan glywsom fod Llywodraeth y DU wedi gwneud ei hargymhelliad i'r corff adolygu cyflogau, a chadarnhawyd hynny gan ddigwyddiadau'n ddiweddarach. Dywedwyd wrthyf, ar y pryd, fod pôl annibynnol ymhlith nyrsys ar gyfer Coleg Brenhinol y Nyrsys wedi gweld y byddai bron i ddwy ran o dair ohonynt yn barod i weithredu'n ddiwydiannol, megis gwrthod gweithio goramser heb gyflog, petai'r gyflog a gynigir iddynt eleni'n anfoddhaol. Eglurwyd wrthyf yn ystod y cyfarfod y rhesymau pam mae morâl y nyrsys yn isel. Dywedwyd wrthyf fod angen gwelyau dan arweiniad nyrsys a rhagnodi gan nyrsys mewn ysbytai cymuned. Dywedwyd eu bod ar gyfartaledd yn gwneud diwrnod o waith yr wythnos o oramser heb gyflog, ac os gwrthodant weithio'r oriau hynny, fod hynny'n cael effaith ar gleifion. Mae hefyd yn gwneud ffwlbri o gyfarwyddeb amser gweithio Ewrop.

They contrasted this with the good rewards for doctors and consultants under 'Agenda for Change'. They also mentioned the fact that extra funding had been allocated to reach the Government's waiting list targets and to increase capacity by opening extra beds on wards, and that they are expected to respond to that with the same number of nursing staff. They said that a clinical basis for setting staffing ratios is needed because, at the moment, it is a case of how many staff can be got away with. They said that their trust is doing extra surgery to meet Government targets, but that that was exacerbating the problem of bed shortages. The RCN branch said that community nursing was being inundated with people discharged early and that community nurses have not had any extra resources to meet the requirements of 'Designed for Life'. If they are to deliver care closer to home and if more patients come home to the community, they will need the resources and systems to respond.

Yr oeddent yn cymharu hyn â'r gydnabyddiaeth hael i feddygon ac ymgynghorwyr dan yr 'Agenda ar gyfer Newid'. Soniwyd hefyd am y ffaith fod arian ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer cyrraedd targedau rhestri aros y Llywodraeth ac i gynyddu capasiti drwy agor gwelyau ychwanegol ar wardiau, a bod disgwyl iddynt ymateb i hynny gyda'r un nifer o staff nyrsio. Dywedwyd bod angen sail glinigol ar gyfer gosod cymarebau staffio oherwydd, ar hyn o bryd, mater o wneud y tro gyda chyn lleied o staff ag y bo modd yw hi. Dywedwyd bod eu hymddiriedolaeth yn gwneud llawdriniaethau ychwanegol er mwyn cyrraedd targedau'r Llywodraeth, ond bod hynny'n golygu bod problem prinder gwelyau'n gwaethygu. Dywedodd y gangen o Goleg Brenhinol y Nyrsys fod nyrsys cymunedol yn wynebu llif o bobl sy'n cael eu rhyddhau'n gynnar heb adnoddau ychwanegol o gwbl i ddiwallu gofynion 'Cynllun Oes'. Os oes disgwyl iddynt ddarparu gofal yn nes at gartrefi pobl, ac os bydd mwy o gleifion yn dod adref i'r gymuned, bydd rhaid iddynt gael yr adnoddau a'r systemau i ymateb.

Their trust has been told that it needs to find efficiency savings of £13.5 million in the next financial year. However, it can only find £10 million, and the rest, therefore, has to come from front-line service cuts. None of the RCN members who were present at the meeting thought that 'Agenda for Change' had been a success. They said that they were now being asked to deal with a shortfall in funding in real terms through ward closures and cuts.

Dywedwyd wrth yr ymddiriedolaeth ei bod yn rhaid iddi sicrhau arbedion effeithlonrwydd gwerth £13.5 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, ni all ddod o hyd i fwy na £10 miliwn. Felly, rhaid cael y gweddill drwy gwtogi gwasanaethau rheng flaen. Nid oedd yr un o aelodau Coleg Brenhinol y Nyrsys a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn credu bod 'Agenda ar gyfer Newid' wedi llwyddo. Dywedent fod gofyn iddynt yn awr ddelio â diffyg cyllid gwirioneddol drwy doriadau a chau wardiau.

The application process for junior doctors has exposed a Labour Government that believes that gimmick, gloss and Government edict will solve everything. However, it has come a cropper on that again. I refer to a letter that I received from a junior doctor in March. He said

Mae'r broses ymgeisio ar gyfer meddygon iau wedi codi'r llen ar Lywodraeth Lafur sy'n credu bod gimics, sglein a chyhoeddebau gan y Llywodraeth yn datrys popeth. Fodd bynnag, mae wedi cael ail unwaith eto. Cyfeiriaf at lythyr a gefais gan feddyg iau ym mis Mawrth. Meddai

'I am a junior doctor…I grew up in Cardiff, did my training in Cardiff…and following my graduation…I chose to work in North Wales…It was my intention to complete my training…in Wales, and that influenced my choices on MTAS (medical training application service). To my utter dismay…I

Rwy'n feddyg iau...cefais fy magu yng Nghaerdydd, cefais fy hyfforddi yng Nghaerdydd... ac ar ôl graddio... penderfynais weithio yn y Gogledd...Fy mwriad oedd cwblhau fy hyfforddiant...yng Nghymru, a dylanwadodd hynny ar y dewisiadau a wneuthum ar MTAS (y gwasanaeth ymgeisio

learned that I had not been shortlisted for any of the jobs I had applied for. I asked myself "why?". I meet the criteria set out in the online guidance…I have passed the relevant exams for the training level I applied for. I am experienced in my field and I feel I have an aptitude for the job I enjoy very much. I even have a contract on the existing training scheme that states I will be employed until February 2008—but have…recently been told that my contract will now end on 31st July 2007. I will continue to ask myself the same question "why" because no answer will be provided for me, the MTAS system does not allow it. After I have completed 5 years working for the NHS, I am likely to become unemployed in five months time…The whole system is unjust. It is not based on merit. No marks are given for the exam I recently passed, no marks are given for informal teaching sessions with medical students'.

am hyfforddiant meddygol). Er mawr siom imi...clywais nad oeddwn ar y rhestr fer ar gyfer unrhyw un o'r swyddi yr oeddwn wedi ymgeisio amdanynt. Gofynnais i mi fy hun "pam?". Yr wyf yn ateb y meini prawf a bennwyd yn y canllawiau ar-lein...Yr wyf wedi llwyddo yn yr arholiadau perthnasol ar gyfer lefel yr hyfforddiant yr wyf wedi ymgeisio amdano. Yr wyf yn brofiadol yn fy maes ac yn teimlo bod gennyf y gallu i wneud y swydd yr wyf yn ei mwynhau'n fawr. Mae gennyf hyd yn oed gontract ar fy nghynllun hyfforddi presennol sy'n dweud y caf fy nghyflogi tan fis Chwefror 2008—ond yn ddiweddar...dywedwyd wrthyf y bydd fy nghontract yn dod i ben yn awr ar 31ain Gorffennaf 2007. Byddaf yn dal i ofyn yr un cwestiwn "pam" imi fy hun, oherwydd nid oes ateb ar gael i mi. Nid yw system MTAS yn caniatáu hynny. Ar ôl imi gwblhau 5 mlynedd o weithio i'r GIG, yr wyf yn debygol o fod yn ddi-waith ymhen pum mis...Mae'r system yn anghyfiawn drwyddi draw. Nid yw wedi'i seilio ar deilyngdod. Ni roddir dim marciau am yr arholiad a sefais yn ddiweddar, ni roddir dim marciau am sesiynau addysgu anffurfiol gyda myfyrwyr meddygol.

He goes on to say that no marks are given for his abilities that make him a good doctor, such as empathy, patience and understanding. He also says

Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud nad oes dim marciau'n cael eu rhoi am y rhinweddau sy'n ei wneud yn feddyg da, fel cydymdeimlad, amynedd a dealltwriaeth. Mae'n dweud hefyd

'Marks are given for unverifiable anecdotes…but this…merely tests the candidate's ability to give an appropriate answer—there is no way of checking whether the answer given is true. As one person commented—"Shipman would have had no problem getting a job [through the MTAS system]". I cannot believe how much I have been failed by this new system…I am already considering either a career change or moving to a different country'.

Rhoddir marciau am anecdotau nad oes modd eu dilysu...dim ond profi gallu'r ymgeisydd i roi ateb priodol y mae hyn—nid oes modd sicrhau a yw'r ateb a roddir yn wir ai peidio. Fel y dywedodd rhywun—"Byddai Shipman wedi cael swydd yn ddigon rhwydd [drwy system MTAS]". Ni allaf gredu'r cam yr wyf wedi'i gael gan y system newydd hon...Yr wyf eisoes yn ystyried newid gyrfa neu symud i wlad arall.

Finally, I will refer briefly to the abuse of staff. I believe that the figures are worse than some of those that we heard about. More than 7,500 incidents of physical and verbal abuse are reported in Welsh hospitals every year, which means that, on average, there is an attack on a doctor or a nurse every two hours. The RCN in Wales says that this is a sad sign

I gloi, cyfeiriaf yn gryno at gam-drin staff. Credaf fod y ffigurau'n waeth na'r rheini y clywsom amdanynt. Cofnodir dros 7,500 o achosion o gam-drin corfforol a llafar yn ysbytai Cymru bob blwyddyn, sy'n golygu bod yna ymosodiad bob dwyawr ar gyfartaledd yn ysbytai Cymru. Mae Coleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru'n dweud

of the times—whereas hospitals used to be safe places, they are becoming increasingly dangerous, which is sadly reflected in wider society.

bod hyn yn un o arwyddion trist yr oes—gan fod ysbytai a oedd yn arfer bod yn fannau diogel bellach yn dod yn fwyfwy peryglus, ac yn anffodus caiff hyn ei adlewyrchu yn y gymdeithas ehangach.

What has the Assembly Government done? It has issued guidance to trusts and GPs on what they can do to reduce the problem. We do not need more guidance and buck-passing. As in so many other areas, we need a national strategy. For all those reasons, we will support the motion.

Beth mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud? Mae wedi cyhoeddi canllawiau i ymddiriedolaethau ac i Feddygon Teulu ar yr hyn y gallant ei wneud i liniaru'r broblem. Nid mwy o ganllawiau ac osgoi cyfrifoldeb yw'r ateb. Fel sy'n wir mewn cynifer o feysydd eraill, strategaeth genedlaethol yw ein hangen. Am yr holl resymau hynny, cefnogwn y cynnig.

3.20 p.m.

**Gareth Jones:** Diolch am y cyfle i gael ymgyfranogi yn y ddadl hollbwysig hon. Soniaf am morâl staff yn ein hysbytai. Derbyniaf fod cyflog isel ac ymosodiadau yn amharu ar, ac yn gostwng, morâl, a dylem wneud rhywbeth ar fyrder i sicrhau ein bod yn llwyddo yn y maes hwnnw. Fodd bynnag, daeth rhywbeth yn amlwg imi pan oeddwn i, fel nifer yn y Siambr heddiw, yn ymgyrchu, ac yr wyf yn siŵr y cawsant hwythau yr un profiad. Pan fyddwch yn ymgymryd â phroses o ailgyflunio, ad-drefnu a moderneiddio—ac yr wyf yn siŵr bod pawb yn cytuno bod angen gwneud hynny—yn aml, ceir bygythiadau i swyddi, fel yr oedd fy nghyfaill, Dai Lloyd, yn sôn. Daw ansicrwydd i fodolaeth.

**Gareth Jones:** Thank you for the opportunity to contribute to this crucial debate. I will speak about staff morale in our hospitals. I accept that low pay and attacks affect and lessen morale, and we should do something urgently to ensure that we succeed in addressing that. However, something became clear to me when I, like others in the Chamber today, was campaigning, and I am sure they had the same experience. When you undertake a process of reconfiguration, reorganisation and modernisation—and I am sure everyone agrees that we need to do that—jobs often come under threat, as my friend, Dai Lloyd, has said, and there is uncertainty.

Tra'r ydym yn derbyn bod ymosodiadau gan bobl sydd o dan ddylanwad cyffuriau ac alcohol yn gwbl annerbyniol, yr hyn a ddaeth yn amlwg i mi, wrth wrando ar rai aelodau o staff, oedd nad ymosodiadau gan aelodau'r cyhoedd oedd yr unig rai yr oedd yn rhaid i staff eu hystyried. Nid yr ymosodiadau hynny yn unig a wnaeth iddynt deimlo o dan fygythiad, ond yr elfen o fwlio. Yr wyf wedi sôn am hyn wrth y Gweinidog. Mae gennyf enghreifftiau ac efallai fod gan Aelodau eraill enghreifftiau hefyd. Yr oedd y staff a oedd yn fodlon siarad â mi yn datgan eu pryder am y dyfodol, ond yr oeddynt yn mynnu bod yn ddienw. Nid oeddynt am gael eu hadnabod yn gyhoeddus. Gallaf eich sicrhau bod hyn yn effeithio staff ar bob lefel, hyd yn oed ar lefel ymgynghorwyr yn ein hysbytai. Mae rhywbeth arwyddocaol ac yn drist yn hynny.

While we accept that attacks by people under the influence of drugs and alcohol are totally unacceptable, what became clear to me from listening to some members of staff was that attacks by members of the public were not the only attacks that staff had to consider. It was not only those attacks that made them feel under threat, but the element of bullying. I have spoken to the Minister about this. I have examples and other Members may also have examples. The staff who were willing to speak to me told me of their concerns about the future, but they insisted on remaining anonymous. They did not want to be recognised publicly. I assure you that this problem affects staff at every level, even at consultant level in our hospitals. There is something significant and sad in that. I can only describe it as people being bullied by

Ni allaf ond disgrifio hyn fel pobl yn cael eu bwlio gan eu rheolwyr eu hunain, ac mae'n effeithio ar morâl staff, gan gynnwys nyrsys.

their own managers, and it affects staff morale, including nurses.

Felly, yr wyf mawr obeithio y gwelwn, pan fyddwn yn ymgymryd â newidiadau pwysig fel hyn, ei bod yn golled inni nad ydym yn cael y mewnbwn onest ac agored hynny gan bobl sydd yn gwybod beth yw beth yn ein sefydliadau. Yr wyf yn mawr obeithio, Weinidog, y gwnewch chi ystyried yn ofalus yr hyn yr wyf wedi cyfeirio ato am fod hynny, yn sicr, yn tanseilio morâl staff.

Therefore, when we undertake important changes such as these, I hope we will see that it is a loss not to have that open and honest input from people who know what is going on in our institutions. I hope, Minister, that you will carefully consider what I have said because this certainly undermines staff morale.

**Andrew R.T. Davies:** It gives me pleasure to contribute to this debate, especially as my wife is a community midwife and my sister-in-law is a specialist cystic fibrosis nurse.

**Andrew R.T. Davies:** Mae'n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl hon, yn enwedig gan fod fy ngwraig yn fydwraig gymunedol a'm chwaer-yng-nghyfraith yn nyrs arbenigol mewn ffibrosis codennog.

Virtually every day of the week when my wife comes home from work, exhausted, I wonder what is going wrong in the NHS, because the service is delivered by the passion and dedication of the staff who work in it. The key element of the NHS is the staff because, without the staff, you cannot make the treatments work. Not paying the nurses the award agreed by the independent body on the agreed date is a real slap in the face for the bedrock of that profession. It is hardly a scandalously high award and it barely keeps up with the rate of inflation, and its staged implementation means that it is, in fact, a pay cut. Looking around this Chamber, I see that we seem to be in uniform agreement—even members of the Government are shaking their heads in agreement—on delivering this award. Scotland has delivered, so why cannot we, as an institution, get behind it and deliver it in Wales? I call upon the Government to show the nurses justice and deliver that award in full so that they can at least maintain a certain standard of living. It is a fact that they are already far behind teachers in primary and secondary education in their pay structure, and this will only exacerbate the ability to recruit into the profession that is the driving force of the NHS.

Bob dydd fwy neu lai pan fydd fy ngwraig yn dod adref o'i gwaith, wedi ymlâdd, byddaf yn ceisio dyfalu beth sy'n mynd o'i le yn y GIG, gan fod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu trwy ymroddiad ac ymrwymiad y staff sy'n gweithio ynddo. Yr elfen allweddol yn y GIG yw'r staff, oherwydd hebddynt ni allwch wneud i'r triniaethau weithio. Mae gwrthod talu i nyrsys y codiad cyflog a gytunwyd gan y corff annibynnol ac ar y dyddiad a gytunwyd yn ergyd gwirioneddol i gonglfaen y proffesiwn. Nid yw'r dyfarniad hwn yn un gwirion o uchel, a phrin ei fod yn ddigon i wneud iawn am chwyddiant. Mae cyflwyno'r codiad fesul cam yn golygu mai gostyngiad mewn cyflog yw hwn mewn gwirionedd. Ac edrych o gwmpas y Siambr hon, gwelaf ein bod i bob golwg i gyd yn gytûn—mae aelodau'r Llywodraeth hyd yn oed yn amneidio mewn cytundeb—ynghylch darparu'r codiad cyflog hwn. Mae'r Alban wedi gwneud hynny, felly, pam na allwn ni, fel sefydliad, roi ein cefnogaeth i hyn a sicrhau ei fod yn cael ei wireddu yng Nghymru? Galwaf ar y Llywodraeth i ddangos cyfiawnder i'r nyrsys a sicrhau eu bod yn cael y codiad cyflog yn llawn, fel y gallant o leiaf gynnal eu safon byw. Mae'n ffaith eu bod eisoes ymhell y tu ôl i athrawon addysg gynradd ac uwchradd o ran eu strwythur cyflogau, ac ni fydd hyn ond yn ei gwneud yn anos recriwtio pobl i'r proffesiwn sy'n anadl einioes y GIG.

The other aspect is the physical abuse of

Yr agwedd arall yw cam-drin staff y GIG yn

NHS staff within the profession and the working environment. There is also the community aspect and how working practices put many staff in dangerous positions. Community nurses or community midwives are expected to attend home births without any support. When they are on call, they can be expected to attend those births in an area in which they may not have worked, and they must carry six, seven or eight bags to the location. They go into an environment that is totally unfamiliar to them, but if they were a GP providing out-of-hours services they would be provided with a car, driver and the necessary back-up support to guarantee their safety. How can we move to a community-based healthcare system when we do not resource it and support the staff that we expect to deliver it? We must address the measures that come from this institution with the resource that supports the staff. Otherwise, we will continue to see the demoralisation of staff, and patients' expectations of services falling short.

gorfforol yn y proffesiwn a'r amgylchedd gweithio. Mae gwaith yn y gymuned yn fater i'w ystyried hefyd, a sut mae arferion gweithio'n golygu bod nifer o staff mewn sefyllfaoedd peryglus. Mae disgwyl i nyrsys cymunedol neu fydwragedd cymunedol fynd i enedigaethau cartref heb unrhyw gefnogaeth. Pan fyddant ar alwad, gellir disgwyl iddynt fynd i'r genedigaethau hynny mewn ardal nad ydynt wedi gweithio ynddi, efallai, a rhaid iddynt gario chwech, saith neu hyd yn oed wyth o fagiau i'r lleoliad. Byddant yn mynd i amgylchedd sy'n gwbl anghyfarwydd iddynt, ond petaent yn Feddyg Teulu sy'n darparu gwasanaethau y tu allan i oriau, darperid car ar eu cyfer, gyrrwr a'r cymorth angenrheidiol wrth gefn i sicrhau eu diogelwch. Sut y gallwn ni symud tuag at system gofal iechyd yn y gymuned onid oes gennym yr adnoddau a'r gefnogaeth i'w rhoi i'r staff y disgwyliwn iddynt ddarparu'r gwasanaeth hwnnw? Gyda'r mesurau a ddaw o'r sefydliad hwn, rhaid inni ddarparu'r adnoddau sy'n cefnogi'r staff. Fel arall, byddwn yn dal i weld staff yn digalonni a disgwyliadau cleifion yn cael eu siomi.

I urge the Minister to bring the Government on board to deliver the pay rise to nurses in order to give them a reasonable return for the excellent service that they provide to the community. As an aside, I had a meeting this morning with a representative of the British Dental Association, Stuart Geddes, who told me that his members have not even received the first tranche of the pay award because it has not been actioned in Wales. I ask the Minister to look into that to rectify the situation. In Scotland, that award has been delivered in full, but I am told that, because of the purdah period before the election in Wales, an administrative mistake happened and no sanction was given for that award to be delivered to dentists.

Pwysaf ar y Gweinidog i ddwyn perswâd ar y Llywodraeth i ddarparu'r codiad cyflog i nyrsys er mwyn rhoi cydnabyddiaeth resymol iddynt am y gwasanaeth rhagorol y maent yn ei ddarparu i'r gymuned. Gyda llaw, cefais gyfarfod y bore yma gyda chynrychiolydd o Gymdeithas Deintyddion Prydain, Stuart Geddes, a ddywedodd wrthyf nad yw ei aelodau wedi cael hyd yn oed ran gyntaf y eu dyfarniad cyflog eto am nad yw hynny wedi'i roi ar waith yng Nghymru. Gofynnaf i'r Gweinidog edrych ar hynny er mwyn unioni'r sefyllfa. Yn yr Alban, mae'r codiad cyflog wedi'i ddarparu'n llawn, ond dywedir wrthyf, oherwydd cyfnod y purdah cyn yr etholiad yng Nghymru, fod camgymeriad gweinyddol wedi digwydd ac na roddwyd caniatâd i ddarparu'r codiad cyflog hwnnw i ddeintyddion.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** Thank you Deputy Presiding Officer. I am delighted that you are presiding over arrangements in the first debate in which I am to respond as Minister, and I welcome you to the Chair in the Chamber.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wrth fy modd mai chi sy'n llywyddu dros y trefniadau yn y ddadl gyntaf imi ymateb iddi fel Gweinidog, ac fe'ch croesawaf i'r Gadair yn y Siambr.

This has been a very interesting and exceptionally constructive debate in the main about the issues surrounding morale in the health service. However, I do not intend to be lectured by Mark Isherwood in particular about issues surrounding pay and terms and conditions. I appreciate that Saul underwent a genuine conversion on the road to Damascus, but I am not necessarily sure that the same can be said of all colleagues in terms of NHS pay. I seem to remember many years ago—it was not under a Labour Government—walking down the road with a miners' demonstration in support of the nurses who could not go out on strike. The nurses did not go on strike and the miners came out in their support. I was thinking today about that day in the context of what happened to the miners under that Government and about the communities that were devastated. We all know which party was responsible; its members are on the opposite side of the Chamber.

Bu'r ddadl hon yn un ddiddorol iawn, ac yn arbennig o adeiladol ar y cyfan wrth drafod y problemau'n ymwneud â morâl staff y gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, nid wyf yn bwriadu cael darlith gan Mark Isherwood o bawb am faterion yn ymwneud â chyflogau a thelerau ac amodau. Sylweddolaf fod Saul wedi cael tröedigaeth go iawn ar y ffordd i Ddamascus, ond nid wyf o reidrwydd yn sicr y gellir dweud yr un peth am bob un o'n cyd-Aelodau o ran cyflogau'r GIG. Yr wyf yn rhyw led gofio flynyddoedd lawer yn ôl—nid dan Lywodraeth Lafur—imi gerdded i lawr y ffordd gyda phrotest y glowyr, a oedd yn cefnogi'r nyrsys na allent streicio. Nid aeth y nyrsys ar streic a daeth y glowyr allan i'w cefnogi. Yr oeddwn yn meddwl am y diwrnod hwnnw heddiw yng nghyd-destun yr hyn a ddigwyddodd i'r glowyr dan y Llywodraeth honno ac am y cymunedau a ddinistriwyd. Gwyddom i gyd pa blaid a fu'n gyfrifol; mae ei haelodau yr ochr arall i'r Siambr.

Let us turn to nature of the debate. The national health service functions and thrives as a result of the loyalty and dedication of its staff, and all Members, across the Chamber, recognise that point. Staff morale is an important issue for NHS managers and the Government as the service funder; we must recognise that morale is the key. No business is successful without staff buy-in, and good companies value their workforce. We all value the workforce of the NHS and we are very concerned about staff morale.

Gadewch inni droi at natur y ddadl. Mae'r gwasanaeth iechyd gwladol yn gweithredu ac yn ffynnu oherwydd ffyddlondeb ac ymroddiad ei staff, ac mae pob Aelod, ym mhob rhan o'r Siambr, yn sylweddoli hynny. Mae morâl staff yn fater pwysig i reolwyr y GIG ac i'r Llywodraeth sy'n ariannu'r gwasanaeth; rhaid inni gydnabod mai morâl staff yw'r allwedd. Ni all yr un busnes lwyddo heb i staff sy'n gefn iddo, ac mae cwmnïau da'n gwerthfawrogi eu gweithlu. Yr ydym i gyd yn gwerthfawrogi gweithlu'r GIG ac yn bryderus iawn am forâl staff.

Staff surveys are commissioned by the Welsh Partnership Forum, which means that questionnaires are devised in partnership with the trade unions, and the first survey was undertaken in 2002. A second survey was undertaken in 2005, which was published in March 2006. The next survey will be undertaken between September and October of this year, and I will ask the partnership forum to consider the context of our debate to ensure that there is a focus on staff morale issues in the survey design, so that we can get good feedback from staff on that point. Thirty three thousand staff responded to the last survey, and the hot topics in 2005 were the pension scheme and retirement age.

Caiff arolygon staff eu comisiynu gan Fforwm Partneriaeth Cymru, sy'n golygu bod holiaduron yn cael eu dyfeisio mewn partneriaeth â'r undebau llafur, a chynhaliwyd yr arolwg cyntaf yn 2002. Cynhaliwyd ail arolwg yn 2005 a'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2006. Bydd yr arolwg nesaf rhwng mis Medi a mis Hydref eleni, a gofynnaf i'r fforwm partneriaeth ystyried cyd-destun ein dadl er mwyn sicrhau canolbwyntio ar faterion morâl staff wrth gynllunio'r holiadur, er mwyn inni gael adborth da gan staff ar y pwynt hwnnw. Ymatebodd 33,000 o filoedd o staff i'r holiadur diwethaf, a'r pynciau llosg yn 2005 oedd y cynllun pensiwn ac oed ymddeol.

3.30 p.m.

However, the staff survey of 2005 showed that, on the whole, people like working for the national health service in Wales. Nonetheless, I have to acknowledge that we have not always engaged effectively with staff; we would like them to have a much bigger role in the process and we want to hear their views more. That follows on from Gareth Jones's remarks about some of the reconfiguration issues and the major discussions under way about health service reform. We need to listen to the people in the service, Dai, and not just the doctors and the nurses, but also the porters, cleaners and caterers. It is all about the team in the national health service, and not just about individuals.

Fodd bynnag, dangosodd arolwg staff 2005 fod pobl, ar y cyfan, yn hoffi gweithio i'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Serch hynny, rhaid imi gydnabod nad ydym bob amser wedi bod yn effeithiol wrth lunio perthynas â staff; hoffem iddynt gael rhan lawer mwy yn y broses ac mae arnom eisiau clywed eu barn yn amlach. Mae hynny'n dilyn ymlaen o sylwadau Gareth Jones am rai o'r materion ad-drefnu a'r trafodaethau pwysig sydd ar droed ynglŷn â diwygio'r gwasanaeth iechyd. Mae angen inni wrando ar bobl yn y gwasanaeth, Dai, ac nid ar y meddygon a'r nyrsys yn unig, ond y porthorion, y glanhawyr a'r arlwywyr hefyd. Y tîm sy'n bwysig yn y gwasanaeth iechyd gwladol, nid unigolion yn unig.

I was quite taken by Gareth Jones's thoughtful contribution about bullying. Anti-bullying practices have to be very good. As a former trade union official, I have always been keen to ensure that proper policies are in place. I am meeting trust chairs and chief executives tomorrow, and one of the issues that I will raise with them is their anti-bullying policies, because we must have consistency across the piece.

Gwnaeth cyfraniad meddylgar Gareth Jones ynglŷn â bwlio gryn argraff arnaf. Rhaid i arferion gwrth-fwlio fod yn dda iawn. Fel cyn swyddog undeb llafur, yr wyf wastad wedi bod yn awyddus iawn i sicrhau bod polisïau priodol ar waith. Byddaf yn cwrdd â chadeiryddion a phrif weithredwyr ymddiriedolaethau yfory, ac un o'r materion y byddaf yn eu codi gyda hwy yw eu polisïau gwrth-fwlio, oherwydd rhaid cael cysondeb ar draws y bwrdd.

A valued workforce is a successful and efficient workforce. However, the divisive privatisation of services broke down certain aspects of the team approach seen in the national health service. These services must be in-house, and I am pleased that only one contract for domestic services remains outside the national health service family. Should any new PFI schemes come into health—and I use those words carefully—domestic portering and catering will not be included, because, at the end of the day, rebuilding the team will help staff morale in the health service.

Mae gweithlu a werthfawrogir yn weithlu llwyddiannus ac effeithlon. Fodd bynnag, gyda'r weithred ymrannol o breifateiddio gwasanaethau, chwalwyd rhai agweddau ar y gwaith tîm a welwyd yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Rhaid i'r gwasanaethau hyn fod yn rhai mewnol, ac yr wyf yn falch mai dim ond un contract ar gyfer gwasanaethau domestig sy'n parhau y tu allan i deulu'r gwasanaeth iechyd gwladol. Os daw unrhyw gynlluniau Menter Cyllid Preifat newydd i mewn i faes iechyd—a defnyddiaf y geiriau hynny'n ofalus—ni fydd porthora ac arlwyo domestig yn cael eu cynnwys, oherwydd yn y pen draw bydd ailadeiladu'r tîm yn helpu morâl staff yn y gwasanaeth iechyd.

Turning to junior doctors, there has certainly been much adverse publicity about this agenda. In the context of Wales, Dr Lloyd, the Welsh Assembly Government, the Cardiff School of Postgraduate Medical and Dental Education, and the British Medical

I droi at feddygon iau, yn sicr mae llawer o gyhoeddusrwydd gwael wedi bod i'r agenda hwn. Yng nghyd-destun Cymru, llwyddodd Dr Lloyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol Ôl-raddedig Caerdydd, a Chymdeithas Feddygol

Association in Wales successfully agreed a way forward in 2007. It was agreed that all eligible applicants who had applied to work in Wales would be offered interviews within the timescale of the start of the Modernising Medical Careers specialist training in August 2007. That is a fair and pragmatic Welsh solution for junior doctors who apply to work in Wales, and it has ensured that we attract the best candidates. The interviews were conducted throughout May, and job offers have been sent to the successful candidates. The BMA in Wales was consulted throughout, and in contrast to the BMA centrally, it was supportive of our process. The closure of MTAS, the medical training application service system, did not affect recruitment in Wales, as a decision was taken at the end of March by the Welsh Assembly Government and the School of Postgraduate Medical and Dental Education that Wales would no longer use the system.

Prydain yng Nghymru i gytuno ar ffordd ymlaen yn 2007. Cytunwyd i gynnig cyfweliad i bob ymgeisydd cymwys a oedd wedi gwneud cais am waith yng Nghymru mewn pryd i ddechrau'r hyfforddiant arbenigol Moderneiddio Gyrfaoedd Meddygol yn Awst 2007. Mae hwnnw'n ateb Cymreig teg ac ymarferol i feddygon iau sy'n ceisio am waith yng Nghymru, ac mae wedi sicrhau ein bod yn denu'r ymgeiswyr gorau. Cynhaliwyd y cyfweliadau drwy gydol mis Mai, ac mae cynigion swyddi wedi'u hanfon at yr ymgeiswyr llwyddiannus. Ymgynghorwyd â'r BMA yng Nghymru trwy gydol y broses, ac yn wahanol i'r BMA yn ganolog yr oedd yn gefnogol i'n proses. Nid effeithiwyd ar recriwtio yng Nghymru wrth gau MTAS, y system gwasanaeth ceisiadau am hyfforddiant meddygol, gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Ôl-raddedigion wedi penderfynu ddiwedd mis Mawrth na fyddai Cymru'n defnyddio'r system mwyach.

As you are aware, an independent review of Modernising Medical Careers has been commissioned by the Department of Health. An interim report will be published in September, with a full report in December. I will have to see what arises from that report. However, I assure Members that, as the Minister for health, I am not prepared to see the chaos of this year repeated. The stress caused to applicants and their families was, to use Jonathan Morgan's word—which he was right to use—a shambles in certain parts of the country. That must not be repeated. Jonathan, I will look at the implications for Wales of what has happened, and I will commission a report on it, once all the stages in that area are finally completed.

Fel y gwyddoch, mae adolygiad annibynnol o Moderneiddio Gyrfaoedd Meddygol wedi'i gomisiynu gan yr Adran Iechyd. Cyhoeddir adroddiad interim ym mis Medi, ac adroddiad llawn yn Rhagfyr. Bydd yn rhaid imi weld beth a ddaw allan o'r adroddiad hwnnw. Fodd bynnag, carwn sicrhau Aelodau nad wyf fi, fel y Gweinidog dros iechyd, yn barod i weld ailadrodd yr anhrefn a gafwyd eleni. Yr oedd y boen meddwl a achoswyd i ymgeiswyr a'u teuluoedd, i ddefnyddio ymadrodd Jonathan Morgan—yr oedd yn iawn i'w ddefnyddio—yn draed moch mewn rhai rhannau o'r wlad. Rhaid i hynny beidio â digwydd eto. Jonathan, fe edrychaf ar oblygiadau'r hyn a ddigwyddodd o safbwynt Cymru, a chomisiynaf adroddiad arno, ar ôl i bob cam yn y maes hwnnw gael ei gwblhau'n derfynol.

Something else that I am not prepared to see as Minister for health is the violence that goes on in hospitals against staff. There must be a zero-tolerance campaign to tackle violence against NHS staff. It is amazing to think that NHS staff are at greater risk of violence or verbal abuse than any of Wales's other professionals. The Welsh Assembly Government has the overall responsibility for all policy and operational matters relating to

Rhywbeth arall nad wyf yn barod i'w weld fel Gweinidog dros iechyd yw'r trais sy'n digwydd mewn ysbytai yn erbyn staff. Rhaid wrth ymgyrch 'dim goddefgarwch' i fynd i'r afael â thrais yn erbyn staff y GIG. Mae'n rhyfeddol meddwl bod staff y GIG mewn mwy o berygl oherwydd trais neu ymosodiad geiriol na neb o weithwyr proffesiynol eraill Cymru. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y cyfrifoldeb cyffredinol dros yr holl

the management of security and violence and aggression in the NHS in Wales. Tackling violence against staff and professionals working in the NHS is a current priority for us. We want to ensure that anyone who enters an NHS hospital feels safe from violence and abuse, verbal and physical. The strategy is to work proactively and reactively to tackle violence and aggression issues across the NHS in Wales through a range of generic actions. We have to create a pro-safety culture, deter those who may be minded to become violent or aggressive, and encourage staff to report incidences of violence and aggression. I totally concur with Helen Mary about the assistance required in this area. If you are traumatised by an attack, the last thing you want to be doing is form-filling, as you need help and assistance. We have to look at standardisation, which was Jenny's point, for the recording of these incidents. I will also take that matter up tomorrow with the chairs of trusts, as that is important.

faterion polisi a gweithredol yng nghyswllt rheoli diogelwch a thrais ac ymddygiad ymosodol yn y GIG yng Nghymru. Mae atal trais yn erbyn staff a gweithwyr proffesiynol yn y GIG yn flaenoriaeth inni ar hyn o bryd. Mae arnom eisiau sicrhau bod unrhyw un a ddaw i mewn i un o ysbytai'r GIG yn teimlo'n ddiogel rhag trais a chamdriniaeth, geiriol a chorfforol. Y strategaeth yw gweithio'n rhagweithiol ac adweithiol i ddelio â materion trais ac ymddygiad ymosodol ar draws y GIG yng Nghymru trwy amrediad o gamau gweithredu generig. Rhaid inni greu diwylliant sy'n hybu diogelwch, atal rhai a all fod â'u bryd ar fod yn dreisgar neu'n ymosodol, ac annog staff i roi gwybod am achosion o drais ac ymddygiad ymosodol. Yr wyf yn cytuno'n llwyr â Helen Mary am y cymorth y mae ei angen yn y maes hwn. Os cewch eich dychryn gan ymosodiad, y peth olaf y mae arnoch eisiau ei wneud yw llenwi ffurflenni, gan fod angen help a chymorth arnoch. Rhaid inni edrych ar safoni, sef pwynt Jenny, y dull o gofnodi'r digwyddiadau hyn. Codaf y mater hwnnw yfory hefyd gyda chadeiryddion yr ymddiriedolaethau, gan fod hynny'n bwysig.

There is also the wider issue of how staff outside hospitals—healthcare staff, and others who go out to see patients—can be further protected, as well as other groups. Given that I had responsibility for the fire service previously, I am mindful of the abuse and attacks that its staff have to put up with. Therefore, I will look at the good practice developed in that area to see whether it can be brought over to the health service. Helen was quite right in what she said about staff becoming so used to abuse that they do not report it. We must create a culture of reporting incidents, which is key.

Mae yna gwestiwn mwy cyffredinol hefyd, sef sut i gynnig mwy o ddiogelwch i staff y tu allan i ysbytai—staff gofal iechyd ac eraill sy'n mynd allan i weld cleifion—yn ogystal â grwpiau eraill. Gan fyd mod gynt yn gyfrifol am y gwasanaeth tân, gwn am y cam-drin a'r ymosodiadau y mae ei staff yn gorfod eu dioddef. Felly, fe edrychaf ar yr arferion da a ddatblygwyd yn y maes hwnnw i weld a ellir eu trosglwyddo i'r gwasanaeth iechyd. Yr oedd Helen yn berffaith iawn pan ddywedodd fod staff yn ymgynefino cymaint â chael eu cam-drin fel nad ydynt yn hroi gwybod amdano. Rhaid inni greu diwylliant o roi gwybod am digwyddiadau, sy'n allweddol.

I also need to look at publicising what we are doing. I had my first meeting with the RCN and Unison the other week, and we talked about violence against staff. These are key issues. We have some good policies, but we really must get our act together in using publicity to see how we can generate more interest in this agenda. I would be more than happy to work with anyone on that agenda, and I will look at the resource implications of it, as that is important.

Mae angen imi edrych hefyd ar roi cyhoeddusrwydd i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Cefais fy nghyfarfod cyntaf gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys ac Unsain yr wythnos o'r blaen, a buom yn siarad am drais yn erbyn staff. Mae'r rhain yn faterion allweddol. Mae gennym ambell bolisi da, ond rhaid inni fwrw ati o ddifrif i ddefnyddio cyhoeddusrwydd i weld sut y gallwn greu mwy o ddiddordeb yn yr agenda hon. Byddwn yn fwy na bodlon gweithio gydag

unrhyw un ar yr agenda honno, a byddaf yn edrych ar ei oblygiadau o ran adnoddau gan fod hynny'n bwysig.

It is now important that I look at the issues surrounding nurses' pay as well as the wider issues around 'Agenda for Change', which we have all acknowledged today, given that its recommendations have not been fully implemented across the health service. I will raise this matter with trust chairs tomorrow, to see where that work has not been undertaken. There is also a wider issue of nurses who are not covered by 'Agenda for Change', and we need only look at the position of nurses in GP surgeries for an example. They are self-employed, so what happens to them? Therefore, these are certainly issues that I want to discuss with the nursing unions in due course.

Mae'n bwysig yn awr imi edrych ar y problemau ynghylch cyflogau nyrsys yn ogystal â'r problemau ehangach ynghylch 'Agenda ar gyfer Newid'. Yr ydym i gyd wedi cydnabod y rheini heddiw, o gofio nad yw'r argymhellion wedi'u gweithredu'n llawn drwy'r gwasanaeth iechyd. Fe godaf y mater hwn gyda chadeiryddion yr ymddiriedolaethau yfory, i weld ble y mae'r gwaith hwnnw heb ei wneud. Mae yna gwestiwn ehangach hefyd ynghylch nyrsys sydd heb eu cynnwys yn 'Agenda ar gyfer Newid', ac ni raid ond edrych ar sefyllfa nyrsys mewn meddygfeydd teulu fel enghraifft. Maent yn hunan-gyflogedig, felly, beth sy'n digwydd iddynt hwy? Felly, mae'r rhain yn sicr yn faterion y mae arnaf eisiau eu trafod gyda'r undebau nyrsio maes o law.

I need to make it absolutely clear that I believe that, when a pay review body reports, its recommendations should be heeded. Pay reviews have been established over the years to take some of the heat out of negotiations, and, given that health groups have not traditionally resorted to industrial action, they need some mechanism to sort out their pay. For pay reviews to be credible, employees must have confidence in the system and in the outcome. I have therefore written to the UK Minister for health to put on record my disappointment at finding ourselves in this position on nurses' pay. The failure to secure adequate funding from the Treasury to fund fully the pay review body's recommendations has turned out to be the source of real disillusionment among the most hard-working group of public service workers. I have urged the UK Minister to reopen discussions with the Treasury to provide the resources to meet the pay review body's proposals in full.

Mae angen imi ddatgan yn gwbl glir fy mod yn credu, pan fydd corff adolygu cyflogau'n cyflwyno adroddiad, y dylid gwrando ar ei argymhellion. Mae adolygiadau cyflog wedi'u sefydlu dros y blynyddoedd i dynnu rhywfaint o'r gwres allan o drafodaethau cyflog, a chan nad yw grwpiau iechyd yn draddodiadol wedi troi at weithredu diwydiannol, mae angen rhyw fath o beirianwaith arnynt i setlo'u cyflog. Er mwyn i adolygiadau cyflogau fod yn gredadwy, rhaid i weithwyr gael hyder yn y system ac yn y canlyniad. Felly, yr wyf wedi ysgrifennu at Weinidog Iechyd y Deyrnas Unedig i gofnodi fy siom o gael ein hunain yn y sefyllfa hon ar gyflogau nyrsys. Mae methiant i sicrhau cyllid digonol gan y Trysorlys i dalu'n llawn am argymhellion y corff adolygu cyflogau yn ffynhonnell dadrithiad gwirioneddol ymysg y grŵp mwyaf gweithgar o weithwyr gwasanaeth cyhoeddus. Yr wyf wedi annog Gweinidog y Deyrnas Unedig i ailagor trafodaethau gyda'r Trysorlys i ddarparu'r adnoddau i dalu cynigion y corff adolygu cyflogau'n llawn.

I have already met the RCN and Unison, who both raised the issue of nurses' pay. I must place on record, however, one concern that I have on the future of national pay bargaining. I have always been committed to the principle of a rate for a job. The proposal for

Yr wyf eisoes wedi cwrdd â Choleg Brenhinol y Nyrsys ac Unsain, a chodwyd cwestiwn cyflogau nyrsys gan y ddau. Rhaid imi gofnodi, fodd bynnag, un pryder sydd gennyf ynglŷn â dyfodol bargeinio cyflogau cenedlaethol. Yr wyf wedi ymrwymo erioed

civil service regional pay is a retrograde step in my opinion, which will impact on staff morale and, ultimately, the quality of work. My worry is that if the four nations that are party to this national pay agreement go their different ways, the terms of reference for the nurses' pay review body will be revised next year, and not by me. The Treasury sets out the revised remit for the pay review body, for agreement by the Prime Minister.

i'r egwyddor o un gyfradd am swydd. Mae'r cynnig ar gyfer tâl rhanbarthol i'r gwasanaeth sifil yn gam yn ôl yn fy marn i, a fydd yn effeithio ar forâl staff, ac ar ansawdd eu gwaith yn y pen draw. Fy mhryder i yw, os aiff y pedair cenedl sydd yn rhan o'r cytundeb cyflogau cenedlaethol hwn ar eu trywydd gwahanol eu hunain, y caiff cylch gorchwyl corff adolygu cyflogau'r nyrsys ei ddiwygio'r flwyddyn nesaf, ac nid gennyf fi. Y Trysorlys sy'n pennu'r cylch gwaith diwygiedig i'r corff adolygu cyflogau, i'w gytuno gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig.

I am taking discussions forward, as Members wish, and I am hoping to meet the RCN and Unison next week. I am also keeping in touch with the Northern Ireland Executive to see what developments occur there. In addition, I am assessing the costs of this potential pay increase and looking at my own budgets. However, this will not just be about settling with nurses, as other groups are involved as well, including ancillary, administrative and clerical staff, support services including catering, estates and maintenance, hotel services, security, supplies, and so on. They are all important, and it would not be proper for me to consider the pay of just one group. Staff morale is about all health workers; it is about the team. It is the team that delivers, whether you are a cook, a cleaner, a consultant, a nurse, an anaesthetist, or a therapist.

Yr wyf yn mynd â thrafodaethau yn eu blaen, yn unol â dymuniad Aelodau, ac yn gobeithio cwrdd â Choleg Brenhinol y Nyrsys ac Unsain yr wythnos nesaf. Yr wyf yn cadw mewn cysylltiad hefyd â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i weld pa ddatblygiadau sy'n digwydd yno. Yn ogystal, yr wyf yn asesu costau'r codiad cyflog posibl hwn ac yn edrych ar fy nghyllidebau fy hun. Fodd bynnag, nid mater o setlo gyda nyrsys yn unig fydd hyn, gan fod yna grwpiau eraill hefyd, gan gynnwys staff ategol, gweinyddol a chlerigol, gwasanaethau cefnogi yn cynnwys arlwyo, stadau a chynnal a chadw, gwasanaethau gwesty, diogelwch, cyflenwadau, ac ati. Maent i gyd yn bwysig, ac ni fyddai'n briodol i mi ystyried cyflogau un grŵp yn unig. Mae morâl staff yn ymwneud â phob gweithiwr iechyd; mater o dîm ydyw. Y tîm sy'n rhoi'r gwasanaeth, p'un a ydych yn gogydd, yn lanhawr, yn ymgynghorydd, yn nyrs, yn anesthetydd ynteu'n therapydd.

I take my responsibilities on this matter very seriously, and I will report back to Members in due course. My statement regarding nurses' pay is made in good faith, and I will have discussions with the trade unions next week, but I also think that it is important that I continue to press the Department of Health and the Treasury on this matter. This was a national agreement, a decision by a national pay review body, and, for people to have confidence in such decisions, the recommendations must be honoured.

Yr wyf yn ystyried fy nghyfrifoldebau yn y mater hwn o ddifrif, a deuaf ag adroddiad yn ôl i'r Aelodau maes o law. Mae fy natganiad ynglŷn â chyflogau nyrsys wedi'i wneud yn ddiffuant, ac fe gaf drafodaethau gyda'r undebau llafur yr wythnos nesaf. Ond credaf hefyd ei bod yn bwysig imi barhau i bwyso ar yr Adran Iechyd a'r Trysorlys yn y mater hwn. Cytundeb cenedlaethol oedd hwn, penderfyniad gan gorff adolygu cyflogau cenedlaethol, ac er mwyn i bobl gael hyder mewn penderfyniadau o'r fath, rhaid anrhydeddu'r argymhellion.

3.40 p.m.

**Helen Mary Jones:** I thank all those who

**Helen Mary Jones:** Diolch i bawb sydd wedi

participated in this serious and constructive debate. I will make brief comments on some of the contributions, although I will not be able to touch on every one. I will then comment on the Minister's response to the debate.

cymryd rhan yn y ddadl ddifrifol ac adeiladol hon. Dyma rai sylwadau byr am rai o'r cyfraniadau, er na allaf gyfeirio at bob un. Wedyn rhoddaf sylwadau ar ymateb y Gweinidog i'r ddadl.

I thank Jenny Randerson for her support and wholly endorse her views about zero tolerance. When we use the term 'zero tolerance' we sometimes talk about a rather right-wing response to low-level social problems, but, in this case, when we say 'zero tolerance' we all mean it. The support across the Chamber for that approach should highlight the issue and, hopefully, strengthen the Minister's hand as she takes this forward.

Diolch i Jenny Randerson am ei chefnogaeth, ac ategaf yn llwyr ei sylwadau am ddim goddefgarwch. Pan ddefnyddiwn y term 'dim goddefgarwch', yr ydym yn sôn weithiau am ymateb braidd yn adain-dde i broblemau cymdeithasol lefel isel, ond yn yr achos hwn, pan ddywedwn 'dim goddefgarwch', yr ydym i gyd yn golygu hynny. Dylai'r gefnogaeth ar draws y Siambr i'r agwedd honno dynnu sylw at y mater, a chryfhau llaw'r Gweinidog, gobeithio, wrth iddi fwrw ymlaen â hyn.

The points made about variable reporting were also well made. I welcomed the Minister saying that she will seek to address that. My concern would be whether we can get the trusts to address this effectively simply by asking them to do so. At some point, some level of compulsion to comply with national standards may be necessary.

Yr oedd y pwyntiau a wnaed am adrodd amrywiol wedi'u gwneud yn dda hefyd. Croesewais eiriau'r Gweinidog y bydd yn ceisio ymdrin â hynny. Yr hyn a fyddai'n peri pryder i mi yw a allwn gael yr ymddiriedolaethau i ddelio â hyn yn effeithiol dim ond drwy ofyn iddynt wneud hynny. Rywbryd, gall y bydd angen rhyw lefel o orfodaeth i gydymffurfio â safonau cenedlaethol.

Rhodri Glyn Thomas is right to say that we have taken nurses for granted. As a group of workers, they have been much more concerned about the interests of their patients than about their own interests. This accounts for the gap between their pay, for example, and the pay of teaching staff. It also accounts for their absolute fury, which was reflected across the Chamber, about what is being done with their pay award this time.

Mae Rhodri Glyn Thomas yn iawn pan ddywed ein bod wedi cymryd nyrsys yn ganiataol. Fel grŵp o weithwyr, maent wedi pryderu llawer mwy am fuddiannau eu cleifion nag am eu buddiannau eu hunain. Dyna sydd i'w gyfrif am y bwlch rhwng eu cyflogau hwy, er enghraifft, a chyflogau staff dysgu. Dyna sydd i'w gyfrif hefyd am eu dicter mawr, a adlewyrchwyd ar draws y Siambr, am yr hyn sy'n cael ei wneud gyda'u dyfarniad cyflog y tro hwn.

I am grateful to Jonathan Morgan for his support for this motion. However, I suggest that he does not read too much into that gratitude in terms of the wider conversations that may be taking place—despite the deep respect that he knows I have for him as an individual. He is right to say that professionals have been patient. They have been prepared to work constructively with successive Assembly Governments, but I think that their patience has, justifiably, run out, leading to the situation that we are

Yr wyf yn ddiolchgar i Jonathan Morgan am ei gefnogaeth i'r cynnig hwn. Fodd bynnag, awgrymaf na ddylai ddarllen gormod i mewn i'r diolch hwnnw o ran y sgyrsiau ehangach a all fod yn digwydd—er bod gennyf barch mawr ato fel unigolyn, fel y gŵyr ef. Mae'n iawn pan ddywed fod gweithwyr proffesiynol wedi bod yn amyneddgar. Maent wedi bod yn barod i weithio'n adeiladol gyda'r naill Lywodraeth Cynulliad ar ôl y llall, ond yr credaf fod eu hamynedd, yn hollol gyfiawn, wedi peidio, gan arwain at y sefyllfa yr ydym

discussing today.

Jonathan Morgan quoted the strong language being used by the RCN: words such as ‘devalued’, ‘disenfranchised’, and ‘slapped in the face’. For nurses’ representatives to be using such language to us as a political community in Wales highlights the seriousness of their position.

The point about involving the Crown Prosecution Service in dealing with violence against staff is also valuable, and I hope that the Minister will take that on board and include it in the national strategy. I, too, have heard of experiences in which the NHS wanted to prosecute an offender, but the Crown Prosecution Service decided that the prosecution should not go ahead, because the offender was inebriated or distressed. We cannot tolerate that.

The points that Jonathan Morgan made about how inflexible work patterns can make it difficult for people to continue, for example, to maintain a family life while working in nursing and in other associated medical professions also needs to be addressed. It is a bit disheartening to see our national health service, in many cases, falling well behind private sector employers on family-friendly working practices. It is inexplicable.

Dai Lloyd clearly outlined what a disaster the junior doctors’ application system has been. I think that there is a consensus across the Chamber that that was absolutely ridiculous. He was also right to highlight the waste of investing so much money, time and resources into training doctors, not to mention the efforts of the individuals undertaking that training, if they then cannot find work at all, let alone find a role that suits their particular skills and expertise—and this at a time where their services are so needed. We will have to address seriously the workforce planning issues. The Minister was not able to touch on those issues in her response today, but I trust that she will take seriously the fact that we cannot continue to train doctors and other health professionals only for them to find that there are no jobs for them, and only for us to find that we are facing a skills shortage a few years later. We have to take a more strategic

yn ei thrafod heddiw.

Dyfynnodd Jonathan Morgan yr iaith gref a ddefnyddir gan Goleg Brenhinol y Nyrsys: geiriau fel ‘dibrisio’, ‘difreinio’, a ‘sarhad’. Mae’r ffaith fod cynrychiolwyr nyrsys yn defnyddio iaith o’r fath wrthym ni fel cymuned wleidyddol yng Nghymru yn tanlinellu difrifoldeb eu sefyllfa.

Mae’r pwynt ynglŷn â chynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth ddelio â thrais yn erbyn staff yn werthfawr hefyd, a gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn hwnnw a’i gynnwys yn y strategaeth genedlaethol. Yr wyf fi hefyd wedi clywed am brofiadau lle’r oedd y GIG yn awyddus i erlyn troseddwr, ond bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi penderfynu na ddylai’r erlyniad fynd rhagddo am fod y troseddwr yn feddw neu mewn trallod. Ni allwn oddef hynny.

Mae angen rhoi sylw hefyd i’r pwyntiau a wnaeth Jonathan Morgan am y modd y gall patrymau gwaith anhyblyg ei gwneud yn anodd i bobl barhau, er enghraifft, i gynnal bywyd teuluol wrth weithio ym myd nyrsio a phroffesiynau meddygol cysylltiedig eraill. Mae’n digalonni rhywun braidd i weld ein gwasanaeth iechyd gwladol, mewn llawer achos, yn llusgo ymhell ar ôl cyflogwyr y sector preifat o ran arferion gweithio sy’n helpu teuluoedd. Nid oes modd ei esbonio.

Amlinellodd Dai Lloyd yn glir gymaint o drychineb a fu system geisiadau’r meddygon iau. Credaf fod cytundeb ar draws y Siambr i hynny fod yn hollol hurt. Yr oedd yn iawn hefyd i dynnu sylw at y gwastraff o fuddsoddi cymaint o arian, amser ac adnoddau mewn hyfforddi meddygon, heb sôn am ymdrechion yr unigolion sy’n cael yr hyfforddiant hwnnw, os na allant gael gwaith o gwbl wedyn, llai fyth gael rôl sy’n gweddu i’w sgiliau a’u harbenigedd penodol—a hyn ar adeg pan fydd cymaint o angen am eu gwasanaethau. Bydd yn rhaid i ni edrych o ddifrif ar y materion cynllunio gweithlu. Ni allodd y Gweinidog gyffwrdd â’r materion hynny yn ei hymateb heddiw, ond hyderaf y bydd yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i’r ffaith na allwn barhau i hyfforddi meddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill dim ond iddynt weld nad oes swyddi iddynt, a dim ond i ni weld ein bod yn wynebu prinder

approach to this.

sgiliau ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach. Rhaid inni fynd ati'n fwy strategol i ddelio â hyn.

I am grateful to Lorraine Barrett for her contribution. I agree that we should address issues of the aftermath of alcohol abuse with the industry. The industry makes an enormous amount of profit from encouraging, on some occasions, irresponsible behaviour. The industry has to be held to book for that and, if necessary, made to pay—literally. I mean that in terms of hard cash.

Yr wyf yn ddiolchgar i Lorraine Barrett am ei chyfraniad. Cytunaf y dylem ddelio â chwestiwn canlyniadau cam-drin alcohol gyda'r diwydiant. Mae'r diwydiant yn gwneud elw enfawr drwy annog, ar brydiau, ymddygiad anghyfrifol. Rhaid dal y diwydiant yn gyfrifol am hynny, ac os bydd angen, gwneud iddynt dalu—yn llythrennol. Golygaf hynny yn nhermau arian sychion.

Mark Isherwood is right to say that nurses' pay is an issue of principle, and not just a matter of practicalities. None of us would wish to encourage the Minister to be irresponsible in this matter, but, if possible, we need to send a strong message to our nursing staff that we, in Wales value them regardless of what the Westminster Government decides to do. We must also ensure that that is demonstrated by practical steps, and not just by warm words.

Mae Mark Isherwood yn iawn i ddweud mai mater o egwyddor yw cyflogau nyrsys, nid yn unig yr hyn sydd yn ymarferol. Ni fyddai neb ohonom yn dymuno annog y Gweinidog i fod yn anghyfrifol yn y mater hwn, ond os oes modd mae angen anfon neges gref i'n staff nyrsio ein bod ni yng Nghymru yn eu gwerthfawrogi, beth bynnag y bydd Llywodraeth San Steffan yn penderfynu ei wneud. Rhaid inni sicrhau dangos hynny hefyd drwy gamau ymarferol, nid trwy eiriau cynnes yn unig.

The references that Gareth Jones made to bullying are serious. I have heard similar reports in Carmarthenshire of attempts to silence staff who oppose service changes. I know of one senior surgeon who chose to take early retirement rather than continue not to speak out against proposed changes at Prince Philip Hospital. We must change that culture if we are to bring communities and professionals along with us in developing the health service that we need for the twenty-first century. We cannot allow management to silence staff when they raise legitimate concerns. Again, I am grateful to the Minister for the comments that she made in that regard. We cannot have an honest debate about the future of our service if the people providing those services do not feel that they can speak out openly and honestly. That is utterly unacceptable.

Mae'r cyfeiriadau a wnaeth Gareth Jones at fwlio yn rhai difrifol. Clywais adroddiadau tebyg yn Sir Gaerfyrddin am ymdrechion i dawelu staff sy'n gwrthwynebu newidiadau yn y gwasanaeth. Gwn am un uwch lawfeddyg a ddewisodd ymddeol yn gynnar yn hytrach na dal i siarad yn erbyn y newidiadau arfaethedig yn Ysbyty Tywysog Philip. Rhaid inni newid y diwylliant hwn os ydym am ddwyn cymunedau a gweithwyr proffesiynol gyda ni i ddatblygu'r gwasanaeth iechyd y mae arnom ei angen ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Ni allwn ganiatáu i reolwyr dawelu staff pan godant bryderon dilys. Unwaith eto, yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei sylwadau yn y cyswllt hwnnw. Ni allwn gael dadl ddidwyll am ddyfodol ein gwasanaeth os nad yw'r bobl sy'n darparu'r gwasanaethau hynny'n teimlo y gallant siarad yn agored ac yn onest. Mae hynny'n gwbl annerbyniol.

I am grateful to Andrew R.T. Davies—I hope that I got his initials right. It reminds me of being in school: there were three Helen Joneses in my class, hence the ongoing 'Helen Mary'—

Yr wyf yn ddiolchgar i Andrew R.T. Davies—gobeithio fy mod wedi cael ei lythrennau cyntaf yn gywir. Mae'n fy atgoffa o'r adeg pan oeddwn yn yr ysgol: yr oedd tair Helen Jones yn fy nosbarth, a dyna pam yr wyf yn dal i ddefnyddio 'Helen Mary'—

**Alun Cairns:** We only need one—[*Laughter.*]

**Alun Cairns:** Dim ond un sydd ei hangen arnom—[*Chwerthin.*]

**Helen Mary Jones:** Exactly. I am sure Alun Cairns is right that one is more than enough.

**Helen Mary Jones:** Yn union. Yr wyf yn sicr bod Alun Cairns yn iawn fod un yn fwy na digon.

The strength of the language that Andrew R.T. Davies used in his contribution reflects the seriousness of the nurses' pay situation. His description of what community midwives have to face starkly highlights how far we have to go. If we are serious about wanting to provide more services in the community, then we will see more health professionals going out—as community midwives now do—and it is utterly unacceptable that they are not protected or supported. In my time as a social worker, I was not allowed to visit homes unless I had received rigorous training about how to keep myself safe. We need to ensure that our medical staff have at least that level of protection and support.

Mae cryfder yr iaith a ddefnyddiodd Andrew R.T. Davies yn ei gyfraniad yn adlewyrchu difrifoldeb y sefyllfa o ran cyflogau nyrsys. Mae ei ddisgrifiad o'r hyn y mae bydwragedd cymunedol yn ei wynebu yn tynnu sylw amlwg at y gwaith sydd o'n blaenau. Os ydym o ddifrif ein bod eisiau darparu rhagor o wasanaethau yn y gymuned, yna byddwn yn gweld rhagor o weithwyr proffesiynol y maes iechyd yn mynd allan—fel y mae bydwragedd cymunedol yn awr—ac mae'n gwbl annerbyniol nad ydynt yn cael eu hamddiffyn na'u cynorthwyo. Yn ystod fy amser fel gweithiwr cymdeithasol, ni chaniateid imi ymweld â chartrefi oni bai fy mod wedi cael fy hyfforddi'n drylwyr i allu diogelu fy hun. Rhaid inni sicrhau bod gan ein staff meddygol o leiaf y lefel honno o amddiffyniad a chymorth.

That brings me to the Minister's response, and I am grateful to her for the spirit in which she responded to the debate. I am also grateful to her for acknowledging that the Government has not always engaged with staff on some of these issues as effectively as it could have. I am glad that the Minister will include some of the issues arising from this debate in the staff survey this year. That will be useful. However, I am sure that she acknowledges that we do not need more evidence in order to act, because we know what the problems are. I took it from what the Minister went on to say that she would not delay action until that additional evidence comes in. I also welcome her commitment with regard to keeping the team together if there are further private finance initiatives in the health service in Wales. Of course, Plaid Cymru would prefer her to rule out further PFIs in the health service in Wales altogether.

Daw hyn â mi at ymateb y Gweinidog, ac yr wyf yn ddiolchgar iddi am ysbryd ei hymateb i'r ddadl. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar iddi am gydnabod nad yw'r Llywodraeth bob amser wedi ymgysylltu â staff ynghylch rhai o'r materion hyn mor effeithiol ag y gallasai. Yr wyf yn falch fod y Gweinidog i gynnwys rhai o'r materion sy'n codi o'r ddadl hon yn yr holiadur staff eleni. Bydd hyn yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr ei bod yn cydnabod nad oes arnom angen rhagor o dystiolaeth er mwyn gweithredu, oherwydd gwyddom beth yw'r problemau. Cymerais o'r hyn a ddywedodd y Gweinidog wedyn na fyddai'n atal gweithredu nes i'r dystiolaeth ychwanegol honno ddod i law. Croesawaf hefyd ei hymrwymiad i gadw'r tîm gyda'i gilydd os bydd rhagor o fentrau cyllid preifat yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Byddai'n well gan Blaid Cymru, wrth gwrs, petai'n diystyru mentrau cyllid preifat pellach yn gyfan gwbl yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

When the Minster began her comments on the situation of junior doctors, she said something about there having been a lot of

Pan ddechreuodd y Gweinidog ei sylwadau am sefyllfa'r meddygon iau, dywedodd rywbeth am lawer o gyhoeddusrwydd gwael.

bad publicity. I was concerned at that point, because it was not just a matter of bad publicity; it was a serious situation. However, the Minister then went on to acknowledge that it was indeed a shambles. The review by the Department of Health will be useful, but I trust that the Minister will be prepared to go down a different route in Wales if what comes out of that review will not satisfy the needs of our junior doctors and, more importantly, the needs of our health service and patients.

Yr oeddwn yn bryderus bryd hynny, oherwydd nad mater o gyhoeddusrwydd gwael mohono; yr oedd yn sefyllfa ddifrifol. Fodd bynnag, aeth y Gweinidog wedyn yn ei blaen i gydnabod ei bod yn llanastr go iawn. Bydd yr adolygiad gan yr Adran Iechyd yn ddefnyddiol, ond hyderaf y bydd y Gweinidog yn barod i fynd ar drywydd gwahanol yng Nghymru os na fydd yr hyn a ddaw allan o'r adolygiad hwn yn bodloni anghenion ein meddygon iau ac, yn bwysicach, anghenion ein gwasanaeth iechyd a'n cleifion.

I very much welcome the priority that the Minister is ready to give to tackling violence and aggression, and the issues that she touched on relating to the employer's responsibility in this regard, the need for consistency and to spread good practice, and, perhaps most importantly, the need to challenge the culture that states that any of this is tolerable—all of that is welcome. As the Minister says: resources will be key. There will be resource implications if this agenda is to be driven through. That may be with regard to practical measures, such as the need to provide staff with vehicles when they go out at night, and may also be the costs associated with prosecuting people, if necessary. There will be costs, and I am glad that the Minister has acknowledged that and has indicated that she is prepared to meet those.

Croesawaf yn fawr iawn y flaenoriaeth y mae'r Gweinidog yn barod i'w rhoi i fynd i'r afael â thrais ac ymosodiadau, a'r problemau y cyffyrddodd arnynt am gyfrifoldeb y cyflogwr i'r perwyl hwn, yr angen am gysondeb a lledaenu arferion da, ac efallai, yn bwysicaf oll, yr angen i herio'r diwylliant sy'n dweud bod hyn yn rhywbeth y gellir ei ddioddef o gwbl—croesawaf hyn oll. Fel y dywed y Gweinidog: bydd adnoddau'n allweddol. Mae yna oblygiadau o safbwynt cost os eir ymlaen â'r agenda hon. Gallai hynny fod o safbwynt mesurau ymarferol, megis yr angen am ddarparu cerbydau i staff pan ânt allan yn ystod y nos, a hefyd o safbwynt y costau sy'n gysylltiedig ag erlyn pobl, os bydd angen. Bydd yna gostau, ac yr wyf yn falch fod y Gweinidog wedi cydnabod hynny ac wedi dweud ei bod yn barod i dalu'r costau hynny.

That brings us to the last and perhaps most contentious area, namely nurses' pay. I welcome a great deal of what the Minister said, particularly on the 'Agenda for Change' process and the fact that so many staff are excluded from that. I look forward to seeing the Government drive that forward. I also welcome what she said about pay review body reports, which should be heeded. Staff give up their right to collective bargaining in order to participate in independent reviews and they absolutely have the right to expect those reviews to be honoured.

Daw hyn â ni at y maes olaf, a'r maes mwyaf cynhennus, hwyrach, sef cyflogau nyrsys. Yr wyf yn croesawu llawer iawn o'r hyn a ddywedodd y Gweinidog, yn enwedig am 'Agenda ar gyfer Newid' a'r ffaith fod cynifer o staff yn cael eu cau allan o'r broses honno. Edrychaf ymlaen at weld y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â hyn. Croesawaf hefyd yr hyn a ddywedodd am adroddiadau'r corff adolygu cyflogau; mae'n rhywbeth y dylid rhoi sylw iddo. Mae staff yn ildio'u hawl i gydfargeinio er mwyn cyfranogi mewn adolygiadau annibynnol, ac mae ganddynt hawl yn bendant i ddisgwyl i'r adolygiadau hynny gael eu hanrhydeddu.

I welcome the fact that she has written to the UK health Minister, but I am perhaps less sanguine than she is that this will produce the result that we all want. I am glad that she will

Croesawaf y ffaith ei bod wedi ysgrifennu at Weinidog Iechyd y DU, ond nid wyf mor hyderus â hi, efallai, y bydd hyn yn rhoi'r canlyniadau yr ydym i gyd yn awyddus i'w

meet the unions, and I support her inclusion of others in this beyond just nurses, because other staff are affected. On regional pay and the risks associated with deviating from national bargaining, I accept that the Minister's concern about this is genuine. On the Plaid Cymru benches, we would, ideally, love to be able to pay our nurses more than nurses in England are paid, and if we had the revenue-raising powers and a proper Parliament that Plaid Cymru would seek, we would be able to do that, but in the short term, it would clearly be a disaster to introduce regional pay and for nurses to be paid less in Wales than elsewhere. However, we are not asking for a Welsh pay settlement for nurses; we are asking for the UK independent award to be fully implemented, as the UK independent awarding body requested.

gweld. Yr wyf yn falch y bydd yn cwrdd â'r undebau, a chefnogaf y ffaith ei bod yn cynnwys eraill yn hyn heblaw nyrsys yn unig, oherwydd mae'n effeithio ar staff eraill. O safbwynt cyflogau rhanbarthol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwyro oddi wrth gydfargeinio cenedlaethol, derbyniaf fod pryder y Gweinidog am hyn yn ddilys. Ar feinciau Plaid Cymru, yn ddelfrydol byddem wrth ein bodd yn gallu talu i'n nyrsys fwy nag a delir i nyrsys yn Lloegr, a phe byddai gennym y pwerau codi refeniw a Senedd go iawn y byddai Plaid Cymru yn eu ceisio, gallem wneud hynny. Ond am y tro byddai'n amlwg yn drychineb cyflwyno cyflogau rhanbarthol ac i nyrsys gael llai o gyflog yng Nghymru nag mewn mannau eraill. Fodd bynnag, nid ydym yn gofyn am setliad cyflogau Cymreig i nyrsys; yr hyn y gofynnwn amdano yw i ddyfarndaliad annibynnol y DU gael ei weithredu'n llawn, fel y gofynnodd corff dyfarnu annibynnol y DU amdano.

3.50 p.m.

The truth is that, regrettably, as we have seen in parts of the civil service, regional pay is on the Westminster Government's agenda. I submit to the Minister that if we decided to honour the UK award, it would neither raise this issue further up the Treasury's agenda nor force it further down; it is on the agenda in any case. The question is whether we comply with what amounts to regional pay, because the Scottish nurses are being paid in full now; we do not know the situation in Northern Ireland yet, but we know the situation in England. The Minister is the person who will determine what the situation will be in Wales. Therefore, whereas the Treasury probably has an agenda to drive through regional pay, I am not convinced at this stage that our Minister taking the same decision as her counterpart in Scotland would make that either more or less likely. The Treasury is perfectly capable of behaving in that unacceptable way without encouragement or discouragement from us.

Y gwir, yn anffodus, fel y gwelsom mewn rhannau o'r gwasanaeth sifil, yw bod cyflogau rhanbarthol ar agenda Llywodraeth San Steffan. Awgrymaf i'r Gweinidog, pe byddem yn penderfynu anrhydeddu dyfarndaliad y DU, na fyddai'n codi'r mater hwn yn uwch ar agenda'r Trysorlys nac ychwaith yn ei wthio i lawr yn is; mae ar yr agenda beth bynnag. Y cwestiwn yw a ydym am gydymffurfio â'r hyn sy'n gyfystyr â chyflogau rhanbarthol, gan fod nyrsys yn yr Alban yn cael eu talu'n llawn yn awr; ni wyddom beth yw'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon eto, ond gwyddom beth yw'r sefyllfa yn Lloegr. Y Gweinidog fydd yn pennu beth fydd y sefyllfa yng Nghymru. O'r herwydd, er bod gan y Trysorlys, mae'n debygol, agenda i yrru cyflogau rhanbarthol trwodd, nid wyf wedi fy argyhoeddi ar hyn o bryd y byddai'r ffaith fod ein Gweinidog yn gwneud yr un penderfyniad â'i chyd-Weinidog yn yr Alban yn gwneud hynny'n fwy neu'n llai tebygol. Mae'r Trysorlys yn berffaith abl i ymddwyn yn annerbyniol fel hyn heb anogaeth nac anghymeradwyaeth gennym ni.

Therefore, I accept that what the Minister has said today with regard to nurses' pay was

O'r herwydd, derbyniaf fod yr hyn a ddywedodd y Gweinidog heddiw am

said in good faith. I understand that she needs to have further meetings with the unions and with others, but I urge her to act on this as soon as possible if she feels able to find the pay award. I refer her, once again, to my comments earlier in this debate when I suggested that there may be some flexibility in trusts' budgets, because they may have already budgeted to provide this. It would be useful, perhaps, for the Minister and her officials to discuss that with the trusts. However, I urge her to act as soon as possible.

gyflogau nyrsys wedi ei ddweud yn hollol ddidwyll. Deallaf fod angen iddi gael cyfarfodydd pellach gyda'r undebau a chydag eraill, ond fe'i hanogaf i weithredu ar hyn cyn gynted â phosibl os yw'n teimlo y gall ganfod y dyfarndaliad cyflog. Fe'i cyfeiriaf, unwaith eto, at fy sylwadau'n gynharach yn y ddadl hon pan awgrymais y gall fod hyblygrwydd yng nghyllidebau ymddiriedolaethau, oherwydd mae'n bosibl eu bod eisoes wedi cyllidebu ar gyfer hyn. Byddai'n ddefnyddiol, hwyrach, i'r Gweinidog a'i swyddogion drafod hynny gyda'r ymddiriedolaethau. Fodd bynnag, fe'i hanogaf i weithredu cyn gynted â phosibl.

We have all agreed today that we value our NHS staff, but they will expect to see action from this Government to deliver on that. Plaid Cymru will scrutinise the Minister and ensure that that action takes place along the lines that she has outlined today.

Yr ydym i gyd wedi cytuno heddiw ein bod yn gwerthfawrogi ein staff yn y gwasanaeth iechyd gwladol, ond byddant yn disgwyl gweld y Llywodraeth hon yn profi hynny. Bydd Plaid Cymru yn craffu ar y Gweinidog ac yn sicrhau bod y gweithredu hwnnw'n digwydd yn unol â'r hyn amlinellwyd ganddi heddiw.

*Gwelliant: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nicholas
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Evans, Nerys
Franks, Chris
German, Mike
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred

Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, Dai
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment carried.*

Motion NNDM3615 as amended:

*the National Assembly for Wales:*

*1. calls on the Assembly Government to take steps to address low staff morale within the NHS and to begin by:*

*a) implementing the full pay increase for nurses;*

*b) developing an appropriate application process for junior doctors;*

*c) developing a strategy to minimise abuse of NHS staff by requiring all local health boards and trusts to have robust procedures in place to deal with those who intimidate staff and to support staff after such incidents.*

Cynnig NNDM3615 fel y'i diwygiwyd:

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gymryd camau i fynd i'r afael â morâl isel ymhlith staff yn y gwasanaeth iechyd gwladol, ac i ddechrau gwneud hynny drwy:*

*a) cyflwyno'r codiad cyflog llawn ar gyfer nyrsys;*

*b) datblygu proses ymgeisio briodol ar gyfer meddygon iau;*

*c) datblygu strategaeth i leihau camdriniaeth yn erbyn staff y gwasanaeth iechyd gwladol drwy fynnu bod gan bob bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedolaeth weithdrefnau cadarn ar waith i ddelio â'r rheiny sy'n dychryn staff ac i gefnogi staff ar ôl digwyddiadau o'r fath.*

*Cynnig NNDM3615 fel y'i diwygiwyd: O blaid 57, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NNDM3615 as amended: For 57, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammed
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter

Bourne, Nicholas
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Evans, Nerys
Franks, Chris
German, Mike
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, Dai
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.*
*Motion as amended carried.*

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you, and thank you for being so kind to me this afternoon.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch i chi, a diolch am fod mor garedig wrthyf y prynhawn yma.

*Daeth y cyfarfod i ben am 3.53 p.m.*
*The meeting ended at 3.53 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Law, Trish (Annibynnol – Independent)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)